



**Sgrîn Fach:
Trafodaeth
Fawr**

Ofcom
sicrhau bod cyfathrebiadau'n
gweithio i bawb

Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr – adolygiad pum mlynedd o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus (2014-2018)

Dyddiad Cyhoeddi: 27 Chwefror 2020

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	2
2. Beth yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus a beth yw rôl Ofcom?	7
3. Sut mae'r farchnad wedi newid	11
4. Pa mor dda mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cael ei gyflwyno?	17
5. Darlledu gwasanaeth cyhoeddus a rôl marchnad cyfryngau ehangach y DU	48
6. Dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a'r camau nesaf	71

1. Trosolwg

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar groesffordd hollbwysig. Mae arferion gwyllo cynulleidfaoedd yn parhau i newid yn gyflym ac mae mwy a mwy o gystadleuaeth gan ddarparwyr cynnwys byd-eang. Rydym yn hwyluso trafodaeth amrywiol ynghylch dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr*. Bwriad y ddogfen hon a'r [adroddiad data rhyngweithiol sy'n cyd-fynd â hi](#) yw helpu i lywio'r drafodaeth hon drwy grynhoi sut mae'r cylch gwaith statudol ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi'i gyflawni dros gyfnod o bum mlynedd (2014-2018).

Sefydlodd y Senedd Brydeinig ddibenion ac amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac maent yn cynnwys sicrhau bod cynulleidfaoedd y DU yn gallu mwynhau amrywiaeth o raglenni teledu o safon uchel. Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 hefyd yn dynodi'r sianeli darlledu sydd, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am gyflawni'r cylch gwaith hwn ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac yn gosod dyletswydd ar Ofcom i adolygu'r hyn a gyflawnir bob pum mlynedd. Dyma'r 'sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus': sianeli teledu gwasanaeth cyhoeddus y BBC a phrif sianeli ITV, STV, Channel 4, Channel 5 ac S4C. Mae ein hadolygiad hefyd yn ystyried cyfraniad gwasanaethau cyfryngau eraill at yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys teledu masnachol, radio a gwasanaethau cynnwys ar-lein.

Oherwydd yr heriau y mae darlledu yn y DU yn eu hwynebu, rydym yn edrych ar sut gellid sicrhau canlyniadau cadarnhaol darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer cynulleidfaoedd yn y dyfodol, o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, yn ogystal â sut gellid ail-ddehongli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer y degawd nesaf a thu hwnt. Mae rhan olaf y ddogfen hon yn crynhoi'r prif faterion y byddwn yn ymgynghori arnynt yn ddiweddarach eleni - beth ddylai darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei gyflawni, sut dylid cyflawni ac ariannu hynny, a pha adnoddau rheoleiddio a pholisi y gall fod eu hangen yn y dyfodol. Rydym hefyd yn edrych yn fanwl ar rôl darlledu yn y DU, a'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yng nghyd-destun economi greadigol ehangach y DU.

Beth rydym wedi'i ganfod – crynodeb

- Mae'r ffordd mae pobl yn gwyllo'r teledu wedi newid yn sylweddol. Mae'r nifer sy'n gwyllo rhaglenni sy'n cael eu darlledu'n fyw wedi gostwng, wrth i fwy a mwy o gynulleidfaoedd ddewis gwyllo cynnwys ar amser sy'n addas iddyn nhw ar wasanaethau cynnwys ar-lein ac ar-alw byd-eang. Mae'r tueddiadau hyn yn effeithio ar bob darlledwr, gan gynnwys y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- Mae cynulleidfaoedd yn dal yn rhoi gwerth uchel ar ddibenion ac amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys newyddion dibynadwy a rhaglenni sy'n dangos agweddau gwahanol ar fywyd a diwylliant yn y DU. Mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni cylch gwaith statudol darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar y cyfan, ond mae cynnal lefel ac amrywiaeth bresennol y rhaglenni yn her. Mae pobl yn gwyllo sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn llai aml, oherwydd nad dyma'r unig ffynonellau sy'n darparu cynnwys sy'n 'hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu', neu oherwydd nad dyma'r ffynonellau y byddai cynulleidfaoedd yn dewis eu gwyllo o anghenraid.
- Mae'r darlledwyr sy'n gyfrifol am y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ymateb i'r newidiadau hyn, gan arloesi a chynnig gwasanaethau ar-lein ac ar-alw i geisio bodloni disgwyliadau'r gynulleidfa. Ond nid yw'r gwasanaethau newydd hyn wedi gwneud iawn am golli gwylwyr rhaglenni sy'n cael eu darlledu'n fyw eto, yn arbennig ymhlith pobl iau, sy'n ffafrio gwasanaethau ffrydio byd-eang fwyfwy, fel Netflix ac YouTube.
- Mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig yn economi greadigol ehangach y DU. Buddsoddiad gan y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o refeniw sector cynhyrchu'r DU, ac mae rheoliad sy'n cefnogi sector cynhyrchu bywiog ac amrywiol ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau yn ategu sut mae'r arian yn cael ei wario.
- Rydym yn cydnabod y swmp enfawr a'r amrywiaeth eang o gynnwys y mae gwasanaethau teledu, sain ac ar-lein eraill wedi'u darparu i gynulleidfaoedd yn ystod cyfnod ein hadolygiad. Mae darlledwyr amlsianel masnachol (Sky yn arbennig) a rhai gwasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) wedi buddsoddi mwy mewn cynnwys gwreiddiol yn y DU, er bod hyn yn canolbwyntio ar amrediad cymharol gul o genres fel rheol. Mae YouTube a ffynonellau ar-lein eraill yn darparu swmp enfawr o gynnwys, gan gynnwys nifer fawr o wahanol ddiddordebau arbenigol, ond sy'n amrywio o ran safon a dibynadwyedd.
- Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu yn atgyfnerthu'r angen i gael trafodaeth agored ac amrywiol am ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn parhau i fwynhau amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol, o safon uchel o'r DU, gan gynnwys newyddion diduedd, a bod yr economi greadigol yn parhau i ffynnu. Yn ein rhaglen waith Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr, rydym yn edrych ar beth yw agweddau pwysicaf darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ôl cynulleidfaoedd; pwy sy'n ei gyflawni a sut; a sut gallai ein dull rheoleiddio esblygu mewn byd sy'n dod yn fwyfwy ar-lein ac ar-alw. Bydd y ddogfen hon a'r data sy'n ei chefnogi, yn helpu i gyfrannu at y drafodaeth honno, a byddwn yn ymgynghori ar opsiynau ar gyfer dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod yr haf, cyn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth.

Mae cynulleidfaoedd yn y DU yn mwynhau mwy o ddewis ac arloesi nag erioed

Mae twf gwasanaethau ar-alw sydd wedi'u cyllido'n dda a'r cynnydd cyflym yn y nifer sy'n defnyddio dyfeisiau wedi'u cysylltu wedi arwain at fwy o ddewis i ni o ran beth rydym yn ei wyllo, yn ogystal â sut a phryd y byddwn yn ei wyllo. Mae gwylwyr a gwrandawyr o bob oed wedi mynd ati'n gyflym i ddefnyddio'r cyfryngau diweddaraf hyn, gyda'r gwylwyr bellach yn treulio dros awr y diwrnod yn gwyllo gwasanaethau fel Netflix ac YouTube ar gyfartaledd.

Mae'r newidiadau hyn yn arwain at heriau sylfaenol i ddarlledwyr, gan gynnwys y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gyda chynnydd yn y gystadleuaeth am wylwyr, mwy o bwysau o ran costau ac wrth i ffrydiau refeniw darlledu traddodiadol gael eu gwasgu. Fodd bynnag, mae'r radio a theledu yn dal i fod yn rhan bwysig o'r cyfryngau yn ein bywyd. Rydym yn dal i wyllo dros dair awr o deledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw bob diwrnod ar gyfartaledd, ac mae dros hanner hyn ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Teledu yw'r ffordd orau o gyrraedd cynulleidfaoedd mawr o hyd hefyd; ac mae newyddion sy'n cael ei ddarlledu yn dal i gael ei ystyried yn gywir ac yn ddibynadwy gan lawer.

Mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn bwysig i gynulleidfaoedd ac i'r economi greadigol...

Mae ein hymchwil yn dangos bod dibenion ac amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i fod yn bwysig i gynulleidfaoedd. Mae gwylwyr a gwrandawyr yn gwerthfawrogi rhaglenni sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r byd ac sy'n dangos agweddau gwahanol ar fywyd a diwylliant yn y DU. Mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn nodedig o ran faint o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf¹ y maent yn eu darlledu. Gyda'i gilydd, maent yn darparu tua 32,000 awr o gynnwys newydd o'r DU i gynulleidfaoedd ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys newyddion, materion cyfoes, drama a rhaglenni plant. Mae hyn yn llawer mwy na'r hyn sydd ar gael ar sianeli darlledu masnachol eraill a'r gwasanaethau ffrydio byd-eang.

Mae cynulleidfaoedd yn gwerthfawrogi rhaglenni newydd o'r DU ac mae'r rhaglenni hyn yn hanfodol er mwyn cefnogi diwydiant cyfryngau sy'n ffynnu yn y DU. Mae buddsoddiad gan y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gyfrif am y rhan fwyaf o gyfanswm refeniw cynhyrchu yn y DU, ac mae rheoliadau'n sicrhau bod y buddsoddiad yn cael ei wasgaru ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau. Fodd bynnag, fe fydd hi'n anoddach cynnal lefelau buddsoddi ac amrywiaeth presennol rhaglenni'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wrth i arferion gwyllo cynulleidfaoedd barhau i newid ac wrth i'r gystadleuaeth gan y cwmnïau byd-eang mawr gynyddu.

Ond, mae'r heriau masnachol ac o ran ffigurau gwyllo yn parhau i gynyddu

Rhwng 2014 a 2018, mae'r refeniw hysbysebion net ar gyfer y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu hariannu gan hysbysebion wedi gostwng ar gyfradd o 3.8% y flwyddyn ar gyfartaledd (cyfradd twf blynyddol cyfansawdd neu CAGR²), sydd gyfwerth â thua £325m. Yn yr un cyfnod, mae refeniw y BBC o ffi'r drwydded wedi gostwng 4% ar gyfartaledd bob blwyddyn. Mae'r twf sylweddol mewn cyllid gan drydydd partion, fel cyd-gynhyrchu, a'r cynnydd mewn hysbysebu ar-lein ac ar sianeli portffolio, wedi gwrthbwysu rhywfaint ar hyn. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer

¹ Yn y ddogfen hon, mae 'cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf' yn cyfeirio at raglenni sy'n cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu gan ddarlledwr, gyda'r nod o'u dangos am y tro cyntaf ar deledu yn y DU yn ystod y flwyddyn gyfeirio.

² Mae Cyfradd Twf Blynyddol Ansawdd neu CAGR yn esmwytho newidiadau blynyddol mewn twf i ddarparu twf cyfartalog blynyddol ar gyfer cyfnod penodol.

amrywiaeth cymharol gyfyngedig o genres y mae cyllid trydydd parti ar gael fel arfer, fel dramâu o safon uchel, ac nid oes modd gwarantu y bydd hysbysebu ar sianeli portffolio yn dal i gynyddu. Mae nifer yr oriau a'r buddsoddiad mewn rhaglenni celfyddydol, crefydd, i blant ac addysg ffurfiol ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i ostwng, a hynny o lefel a oedd eisoes yn isel. Yn 2014, roedd 1,234 awr ar gyfer y genres hyn, yn syrthio i 1,148 yn 2018. Yn ystod y ddau gyfnod hwn, roedd y rhaglenni hyn yn cynrychioli 6% o gyfanswm buddsoddiad PSB mewn cynnwys a ddarlledwyd am y tro cyntaf yn y DU.

Mae barn cynulleidfaoedd yn dal i fod yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ond mae'r ffigurau gwyllo'n dal i ostwng. Mae'r gostyngiad yn arbennig o amlwg ymhlith gwylwyr iau. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau ar-alw y darlledwyr, fel BBC iPlayer ac ITV Hub. Ond, er hynny, nid yw wedi gwneud iawn yn llwyr am y golled yn y nifer sy'n gwyllo rhaglenni'n cael eu darlledu'n fyw. Yn ystod cyfnod ein hadolygiad, sef pum mlynedd, roedd ceisiadau gwylwyr am raglenni gan y gwasanaethau hyn wedi cynyddu 65% i 6.3 biliwn, ond SVoD ac YouTube yw'r ysgogwyr cryfaf ar gyfer gwyllo ar-lein. Bydd newidiadau diweddar ac sydd ar y gweill ar gyfer BBC iPlayer, ITV Hub, All 4 a My5, er enghraifft, rhagor o setiau bocs, sicrhau bod rhaglenni ar gael am gyfnod hwy a gwell swyddogaethau, gan gynnwys gallu personoli yn well, o bosibl yn helpu i ymestyn neu o leiaf warchod poblogrwydd y gwasanaethau hyn ymhlith cynulleidfaoedd.

Mae gan wasanaethau teledu, ar-lein a sain eraill rôl gynyddol bwysig o ran y cyfryngau yn ein bywyd ac o ran cefnogi economi greadigol ehangach y DU

Mae amryw o wasanaethau cyfryngau eraill, gan gynnwys darlledwyr masnachol fel Sky a gwasanaethau ar-alw fel Netflix, yn ehangu'r dewis o gynnwys sydd ar gael i gynulleidfaoedd. Mae rhai wedi buddsoddi mwy mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU ac felly wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddiwydiant cyfryngau sy'n ffynnu yn y DU. Mae Sky, yn arbennig, wedi gwario mwy ar ddramâu gwreiddiol o'r DU, ac mae wedi adnewyddu ei ymrwymiad i'w wasanaeth newyddion, sy'n cael ei ddarparu am ddim. Mae gwasanaethau SVoD wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth ennyn diddordeb cynulleidfaoedd iau, ac mae ein hymchwil yn awgrymu fod cynulleidfaoedd 16-34 oed yn fwy tebygol o wyllo rhaglen y BBC ar Netflix nag ar BBC iPlayer.³

Maer dewis estynedig a'r buddsoddiad cynyddol mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU ar wasanaethau ar-alw ac sy'n cael eu darlledu yn gadarnhaol ar y cyfan, o ran y dewis i'r gynulleidfa a'r diwydiant cynhyrchu yn y DU. Ond, mae gwahaniaethau arwyddocaol o ran lefel y buddsoddi gan wahanol wasanaethau cyfryngau, pa mor eang y maent ar gael i bob cynulleidfa, yn ogystal ag amrywiaeth ac ansawdd y cynnwys sydd ar gael.

Mae gofyn i'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus fod ar gael i bawb, am ddim, ac maent yn ddarostyngedig i ofynion rheoleiddio amrywiol, gan gynnwys safonau cynnwys fel cywirdeb a didueddrwydd newyddion a rhwymedigaethau i gynrychiadau sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain. Nid yw gwasanaethau SVoD yn cynnig yr un cymysgedd o gynnwys gwreiddiol o'r DU â gwasanaethau sy'n cael eu darlledu. Maent yn cynnwys rhaglenni comedi a dramâu o'r Unol Daleithiau yn bennaf. Er eu bod yn cynnig casgliad enfawr o gynnwys, ar hyn o bryd, nid yw gwasanaethau cynnwys ar-lein, fel YouTube, yn gorfod cydymffurfio â safonau sy'n gwarchod cynulleidfaoedd rhag niwed. Mae cynulleidfaoedd yn troi fwyfwy at ffynonellau ar-lein am

³ Mae rhagor o wybodaeth am berfformiad y BBC ar gael yn [Adroddiad Blynyddol Ofcom ar y BBC](#)

newyddion, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, ond mae argraffiadau pobl ynghylch cywirdeb a dibynadwyedd y ffynonellau hyn yn amrywio'n helaeth. Nid yw pawb yn gallu cael gafael ar wasanaethau teledu drwy dalu, ar-lein ac ar-alw, gan mai dim ond y tu ôl i wal dalu neu i bobl sydd â band eang boddhaol mae llawer o'r cynnwys hwn ar gael.

Mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar hyn o bryd yn seiliedig ar wasanaethau teledu, ond mae radio a sain hefyd yn helpu i 'hysbysu, addysgu a diddanu'. Yn debyg iawn i'n harferion gwyllo'r teledu, mae ein harferion gwranddo yn newid, gan amrywio'n helaeth yn ôl oedran, gyda rôl gynyddol i wasanaethau ffrydio cerddoriaeth a phodlediadau. Mae amrywiaeth o wasanaethau radio cenedlaethol, lleol a chymunedol yn parhau i gyfrannu at gyflawni'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, drwy gynhyrchu rhaglenni newyddion a materion cyfoes a rhaglenni sy'n apelio i gymunedau gwahanol ledled y DU.

Beth yw dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus?

Mae *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr* yn trafod dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn eang ac yn agored. Mae'r cysylltiadau yr oedd gan rhai cynulleidfaoedd yn draddodiadol â'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn arbennig pobl iau, wedi lleihau. Mae'r amser wedi dod i edrych ar ffyrdd newydd o gyflawni a chefnogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn i gynulleidfaoedd ac economi ehangach y DU elwa.

Rydym yn dymuno ysgogi syniadau newydd ynghylch dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn edrych ar *beth* ddylai'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei gyflawni yn y dyfodol, *sut* dylid cyflawni hynny a *pha* fframwaith rheoleiddio a deddfwriaethol y gallai fod ei angen. Bwriad y gwaith dadansoddi a'r data yn yr adroddiad hwn yw cyfrannu at y drafodaeth ynghylch rôl y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'u gwasanaethau cysylltiedig yn y dyfodol, a rôl y diwydiant cyfryngau yn ehangach. Rydym yn canolbwyntio ein gwaith ar yr hyn y mae cynulleidfaoedd, yn ddinasyddion ac yn ddefnyddwyr, yn dymuno ei gael a'r hyn sydd ei angen arnynt gan eu cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus.

Rydym yn cynnal ymchwil newydd â chynulleidfaoedd, ac yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau ledled y DU i ddarparu fforwm i'r diwydiant a llunwyr polisïau i rannu syniadau newydd ynghylch sut gellid cynnal manteision cadarnhaol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion a chanlyniadau'r rhaglen waith hon ar ein gwefan fel y bydd ar gael.

Byddwn yn ymgynghori ar opsiynau ar gyfer dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod haf 2020 cyn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth erbyn diwedd y flwyddyn hon. Y Llywodraeth a'r Senedd Brydeinig fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y pen draw.

Felly, bydd ein gwaith ni a'r dystiolaeth gan randdeiliaid yn helpu i gyfrannu gwybodaeth i lunwyr polisïau a deddfwyr. Byddwn yn ymgynghori ar yr opsiynau ar gyfer dyfodol PSB yn haf 2020 cyn darparu argymhellion i Lywodraeth y DU erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Mae adran trosolwg y ddogfen hon yn grynodeb syml lefel uchel yn unig. Mae'r holl ganfyddiadau a'r dystiolaeth ategol wedi'u nodi yn y ddogfen lawn ac yn yr atodiad tystiolaeth ategol a'r adroddiad data rhyngweithiol.

2. Beth yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus a beth yw rôl Ofcom?

Yn yr adran hon, rydym yn crynhoi diben darlledu gwasanaeth cyhoeddus a rôl Ofcom wrth yn adolygu sut mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi'i gyflawni. Rydym hefyd yn disgrifio pam ein bod yn dilyn dull gweithredu gwahanol i adolygiadau blaenorol ac yn amlinellu sut bydd *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr*, ein rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd, yn llywio ein barn ynghylch yr opsiynau ar gyfer dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Crynodeb o'r adran:

- Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddiffinio mewn deddfwriaeth fel set o ddibenion; a sianeli teledu penodol sy'n cael eu darlledu sy'n gyfrifol am eu cyflawni.
- Mae gan Ofcom ddyletswydd i adolygu sut mae amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi'u cyflawni yn ogystal â sut mae costau darparu a ffynonellau cyllid wedi newid. Rhaid i'n hadolygiad hefyd ystyried sut gellid cynnal a chryfhau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol.
- Dyma ein pedwerydd adolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac rydym wedi mynd ati mewn ffordd wahanol i'r blynyddoedd blaenorol. Rydym yn hwyluso trafodaeth ledled y wlad i edrych yn fanwl ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy ein rhaglen waith, *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr*. Mae'r adroddiad hwn yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y drafodaeth honno.
- Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, rydym wedi cyhoeddi adroddiad data rhyngweithiol yn ogystal â'n hadolygiad o sut mae Corfforaeth Channel 4 wedi cyflawni ei chylch gwaith statudol unigryw yn ystod yr un cyfnod o bum mlynedd.

Beth yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus?

Ymyriad a ddyluniwyd gan y Senedd Brydeinig yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus, i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn y DU yn gallu mwynhau amrywiaeth eang o raglenni o ansawdd uchel, sy'n bodloni anghenion pobl fel dinasyddion a'u diddordebau fel unigolion. Mae dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi'u nodi yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf)⁴, sef darparu:

- rhaglenni teledu sy'n delio ag ystod eang o bynciau;
- gwasanaethau teledu sy'n diwallu anghenion ac sy'n bodloni diddordebau cynifer o gynulleidfaoedd gwahanol ag sy'n ymarferol;
- gwasanaethau teledu sydd â chydbwysedd priodol, o ran eu natur a'u pynciau, er mwyn diwallu anghenion a buddiannau cynulleidfaoedd; a
- rhaglenni sy'n cynnal safonau cyffredinol uchel (gan gynnwys o ran cynnwys, ansawdd rhaglenni ac uniondeb golygyddol)

⁴ Adran 264(4) o'r Ddeddf.

Mae'r Ddeddf hefyd yn dynodi pa wasanaethau sydd, gyda'i gilydd, yn gyfrifol am gyflwyno darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Dyma'r gwasanaethau: holl wasanaethau teledu'r BBC sy'n cael eu darlledu'n gyhoeddus, pob un o wasanaethau Channel 3 (prif sianeli ITV⁵ yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac STV yn yr Alban), Channel 4, Channel 5 ac S4C. Rydym yn cyfeirio at y gwasanaethau hyn fel 'sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus'. Mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gyd er budd y cyhoedd, felly maent ar gael i bawb ac maent yn rhad ac am ddim, heb orfod tanysgrifio nac ymrwymo i gontract.

Yn ogystal â chyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar y cyd drwy'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae gan bob darlledwr gylch gwaith penodol sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth ynghyd ag ymrwymadau pellach sydd wedi'u nodi yn eu trwyddedau darlledu neu yn achos y BBC, Siarter Frenhinol a Chytundeb.⁶

Mae'r sianeli hyn yn derbyn nifer o fuddion rheoleiddiol yn cynnwys amlygrwydd sbectrwm (DTT) ar gyfeirddion rhaglenni electronig (EPGs) ac yn achos y BBC, refeniw'r ffi drwydded.

Dyletswyddau Ofcom i adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn adrodd o bryd i'w gilydd ar sut mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, wedi cyflawni'r dibenion. Mae gofyn i ni adolygu o leiaf bob pum mlynedd. Rhaid i ni ystyried *sut* mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni'r dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gyfeirio at amcanion a nodwyd yn y Ddeddf sy'n hyrwyddo manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac i ddinasyddion.⁷ Mae'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn nodi y dylai darlledu wneud hyn:

- a. hysbysu, addysgu a diddanu;
- b. adlewyrchu a chefnogi gweithgarwch diwylliannol yn y DU, fel drama, comedi a cherddoriaeth;
- c. hwyluso dealltwriaeth ddinesig a thrafodaethau teg a gwybodus ar newyddion a materion cyfoes;
- d. bodloni amrywiaeth eang o wahanol ddiddordebau chwaraeon a diddordebau hamdden eraill;
- e. cynnwys nifer ac amrywiaeth addas o raglenni a rhaglenni addysgol sy'n ymwneud â gwyddoniaeth, crefydd a chredoau eraill, materion cymdeithasol, materion o arwyddocâd neu ddiddordeb rhyngwladol neu faterion o ddiddordeb arbenigol;
- f. cynnwys nifer ac amrywiaeth addas o raglenni gwreiddiol o safon uchel i blant a phobl ifanc; ac
- g. adlewyrchu bywydau a phryderon cymunedau a buddiannau a thraddodiadau diwylliannol gwahanol yn y Deyrnas Unedig, ac yn lleol mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig; a chynnwys rhaglenni sydd wedi'u gwneud y tu allan i'r M25.

Mae dibenion ac amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gyda'i gilydd, yn ffurfio 'cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus'. Wrth adolygu sut mae'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth

⁵ Mae hyn yn cynnwys amrywiadau'r rhanbarthau ac UTV yng Ngogledd Iwerddon. ITV plc sy'n gweithredu UTV ac mae'n rhan o rwydwaith ITV

⁶ Mae rhagor o wybodaeth am fframwaith gweithredu'r BBC a sut mae'r Siarter Frenhinol a'r Cytundeb yn gosod amryw o rwymedigaethau ar y BBC ar gael ar ein [gwefan](#).

⁷ Nodir y dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn adran 264(6) y Ddeddf.

cyhoeddus wedi cael ei gyflawni, rhaid i ni hefyd ystyried costau'r ddarpariaeth a'r ffynonellau incwm sydd ar gael i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus er mwyn talu'r costau hynny. Yn olaf, dylai ein hadolygiad ystyried sut gellir cynnal a chryfhau ansawdd darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Dim ond y gwasanaethau teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus penodol sy'n gyfrifol am gyflawni'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Ond, cyflwynodd Deddf Economi Ddigidol 2010 ddyletswyddau ychwanegol i Ofcom wrth adolygu darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Felly, rydyn ni hefyd yn ystyried y cyfraniad mae gwasanaethau'r cyfryngau eraill yn eu gwneud i amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn cynnwys sianeli portffolio masnachol y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus⁸, y gwasanaethau teledu a ddarperir gan y sector amlsianel, gorsafoedd radio, a gwasanaethau ar-lein fel chwaraewyr ar-alw.

Ar wahân i hyn, mae Corfforaeth Channel 4 wedi cael amryw o ddyletswyddau cynnwys cyfryngau gan y Senedd Brydeinig, y mae'n rhaid iddi ei chyflawni ar draws ei gwasanaethau. Mae'r ddyletswyddau hyn yn cynnwys gofynion i ddarparu newyddion a materion cyfoes, darparu cynnwys sy'n apelio i blant hŷn ac oedolion ifanc, cefnogi'r broses o ddatblygu pobl â thalent greadigol a hyrwyddo barn wahanol a safbwyntiau newydd. Mae gan Ofcom ddyletswydd i adolygu sut mae Corfforaeth Channel 4 wedi cyflawni ei chylch gwaith statudol unigryw yn ystod yr un cyfnod â'n hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn cyhoeddi hyn ochr yn ochr â'r ddogfen hon.⁹

Mae rhagor o wybodaeth am y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar ein gwefan.¹⁰

Ein ffordd o fynd ati yn yr adolygiad hwn

Dyma bedwerydd adolygiad cyfnodol Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus¹¹ ac rydym wedi mynd ati i gynnal yr asesiad hwn mewn ffordd wahanol i adolygiadau blaenorol. Mae'r ddogfen hon a'r [adroddiad data rhyngweithiol ategol](#) yn cyfrannu at raglen ehangach o ymgysylltu â'r cyhoedd, *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr*, sy'n edrych ar beth mae cynulleidfaoedd yn dymuno ei gael gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a sut gellid cyflawni hyn yn y dyfodol.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darlledwyr masnachol wedi darparu amrywiaeth o ddata i ni ar eu perfformiad dros gyfnod yr adolygiad – 2014 i 2018. Rydym wedi dadansoddi hyn, ochr yn ochr â thystiolaeth berthnasol arall,¹² i ganfod prif themâu o ran sut mae cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cael ei gyflawni yn ystod cyfnod ein hadolygiad. Yn gyntaf, rydym yn ystyried perfformiad y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r gwasanaethau cysylltiedig; ac yna,

⁸ Mae sianeli portffolio darparwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn cynnwys, lle bo hynny'n berthnasol: CITV, ITV2, ITV3, ITV4, ITVBe, ITV Encore, E4, 4Seven, Film4, More4, 5USA, 5*, 5Spike, 5Select a Paramount Network. Mae'r rhestr hon wedi newid yn ystod y cyfnod hwn. Cyfeiriwyd at y sianeli hyn fel "sianeli portffolio masnachol darlledu gwasanaeth cyhoeddus" yn y ddogfen hon a'r adroddiad data rhyngweithiol cefnogol.

⁹ Ofcom 2020 [Adroddiad Adolygiad ar berfformiad Corfforaeth Channel 4 yn cyflawni ei ddyletswyddau cynnwys y cyfryngau 2014-18](#)

¹⁰ Ofcom 2020 [Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr -adolygiad pum mlynedd o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus \(2014-2018\) Atodiad 1 Fframwaith Statudol](#)

¹¹ Mae adolygiadau o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus blaenorol ar gael ar [wefan](#) Ofcom:

¹² Wrth gynnal yr adolygiad hwn, rydym wedi ystyried amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys: Datganiadau o Bolisiau Rhaglenni, cynlluniau ac adroddiadau blynyddol darlledwyr perthnasol, ffynonellau data'r diwydiant fel BARB, RAJAR a comScore, a data ychwanegol a ddarparwyd gan y diwydiant yn arbennig ar gyfer ein hadolygiad. Ceir gwybodaeth bellach ynghylch ein methodoleg data yn ein [hadran atodiadau](#).

yn yr adran nesaf, rydym yn edrych ar amrywiaeth o wasanaethau cyfryngau eraill, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein a sain. Yn yr adroddiad data rhyngweithiol ategol rydym yn darparu rhagor o ddata manwl ar ddarparu cynnwys, gwyllo, refeniw a buddsoddi.

Mae gwyllo teledu a ddarlledir yn fyw yn dal yn weithgarwch prif ffrwd ac mae cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fawr iawn. Ond, mae gan wasanaethau ar-lein ac ar-alw, fel Netflix a YouTube, ran fwyfwy pwysig ym mywydau llawer o bobl y dyddiau hyn. Mae hyn yn arwain at gwestiynau ynghylch sut gellir sicrhau effeithiolrwydd y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar hyn o bryd yn y dyfodol. Bydd *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr*, yn rhoi sylw i'r cwestiynau hyn ynghylch dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Bydd y ddogfen hon a'r data rhyngweithiol ategol yn helpu i lywio'r drafodaeth, ochr yn ochr â'n rhaglenni ymchwil a dadansoddi parhaus, gan gynnwys ein hadroddiadau [Cyfryngau'r Genedl](#)¹³, ein hasesiadau blynyddol o [berfformiad y BBC](#) a'n hadolygiadau o [ddatganiadau o bolisi cynnwys y cyfryngau](#) Corfforaeth Channel 4.

Wrth adolygu perfformiad darlledu rhwng 2014 a 2018, rydym wedi tynnu gwybodaeth o amrywiol ffynonellau ac wedi adrodd ar y data sy'n arbennig o berthnasol i'n dadansoddiad o sut mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus, costau'r ddarpariaeth, a'r ffynonellau incwm sydd ar gael i dalu'r costau hynny. Yn adran 3, rydym yn tynnu sylw at y data allweddol rydym ni'n ystyried sy'n ddangosyddion defnyddiol o sut mae'r gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni'r dibenion gwasanaeth cyhoeddus. Yn adran 4, rydym yn tynnu sylw at y data allweddol sy'n berthnasol i'n hadolygiad ehangach o wasanaethau'r cyfryngau.

Wrth edrych ymlaen at ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, bydd ein gwaith *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr* yn rhoi cyfle i gynulleidfaoedd, y diwydiant a llunwyr polisi i archwilio'r themâu yn yr adroddiad hwn ac i rannu syniadau newydd ynghylch sut gellid cryfhau canlyniadau cadarnhaol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol. Mae adran olaf y ddogfen hon yn crynhoi ein camau nesaf, gan gynnwys ein cynlluniau ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol yn ystod yr haf.

¹³ Cyn ein hadroddiad Cyfryngau'r Genedl cyntaf yn 2018, fe wnaethom gyhoeddi gwybodaeth am ddarpariaeth rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus, lefelau gwyllo a refeniw yn ein [hadroddiadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus blynyddol](#).

3. Sut mae'r farchnad wedi newid

Yn yr adran hon, rydym yn crynhoi sut mae cyd-destun cyfryngau'r DU wedi newid ers cyhoeddi ein hadolygiad diwethaf yn 2015. Mae twf cynnwys ar-lein a sut mae'r farchnad wedi esblygu yn gefndir i'n gwaith dadansoddi yn yr adrannau canlynol.

Crynodeb o'r adran:

- Mae twf mewn mynediad at fand eang boddhaol a'r defnydd o ddyfeisiau sydd wedi'u cysylltu wedi arwain at wasanaethau cynnwys newydd ac wedi newid sut rydym yn defnyddio cynnwys fideo a sain
- Mae cynulleidfaoedd y DU yn mwynhau mwy o ddewis o gynnwys nag erioed o'r blaen ac mae pobl iau, yn fwyaf arbennig, yn gwyllo mwy a mwy o gynnwys ar-lein ac ar-alw yn hytrach na theledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw
- Mae'r tueddiadau hyn mewn arferion gwyllo a'r twf mewn gwasanaethau ar-lein byd-eang newydd yn newid economeg teledu, sy'n golygu bod gofyn i ddarllledwyr ehangu eu gwasanaethau ar-lein, arallgyfeirio eu ffrydiau refeniw a cheisio sicrhau gwell effeithlonrwydd

Mae band eang gwell a setiau teledu wedi'u cysylltu wedi newid y ffordd mae pobl yn gwyllo'r teledu

Ers i ni gyhoeddi ein Hadolygiad diwethaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2015, mae cynnydd cyflym iawn wedi bod yn y nifer sy'n cael cysylltiadau rhynggrwyd symudol a sefydlog cyflym iawn.¹⁴ Mae gan bedwar o bob pump cartref gysylltiad band eang sefydlog, ac o fis Medi 2019, roedd 57% o'r rhain yn gyflym iawn neu'n gysylltiad gwibgyswllt, o'i gymharu â 22% a oedd â chysylltiad cyflym iawn yn 2014.¹⁵ Hefyd, mae technolegau symudol fel 4G ac, yn fwy diweddar, datblygiad 5G, yn cynnig cyflymderau uwch i ddefnyddwyr gyda band eang symudol a mwy o gapasiti data.

Hefyd, mae cynnydd wedi bod yn y nifer sy'n defnyddio ac sy'n berchen ar ddyfeisiau sydd wedi'u cysylltu â band eang, fel setiau teledu clyfar, ffonau clyfar a dyfeisiau tabled. Mae defnyddio dyfais arall fel ffon ffrydio neu gonsol gemau i gysylltu teledu â'r rhynggrwyd wedi cynyddu hefyd, o 28% bum mlynedd yn ôl i 41% yn 2019.¹⁶ Erbyn hyn, mae un o bob pum cartref yn y DU yn berchen ar seinyddion clyfar fel Amazon Echo, Google Home neu Apple HomePod, sy'n cynnig mwy o opsiynau o ran cynnwys sain digidol a sut i chwilio am gynnwys cyfryngau a chael gafael arno.

Mae'r twf hwn o ran mynediad at fand eang a dyfeisiau sydd wedi'u cysylltu wedi galluogi cynulleidfaoedd i gael gafael ar ystod ehangach o gynnwys gan fwy o ddarparwyr, lle bynnag a phryd bynnag y mynnant. Mae 58% o oedolion y DU nawr yn gwyllo rhaglenni teledu neu ffilmiau ar-lein ar unrhyw ddyfais – i fyny o 53% flwyddyn yn ôl.

Mae cynulleidfaoedd sy'n gwyllo cynnwys ar-lein hefyd yn gwyllo mwy ohono. Mae faint o ddata sy'n cael ei ddefnyddio ar rwydweithiau sefydlog wedi cynyddu o 58GB yn 2014 i 240GB fesul cysylltiad bob mis yn 2018 ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb yn fras i wyllo tair awr o gynnwys HD (ffilmiau, chwaraeon, clipiau fideo) bob dydd. Ond, mae nifer o bobl yn dal i gael gwasanaethau cyfathrebu

¹⁴ Ofcom. [Traciwr Technoleg 2019](#).

¹⁵ Ofcom. [Cysylltu'r Gwledydd 2019: Adroddiad y DU](#), tudalen 2.

¹⁶ Ofcom. [Traciwr Technoleg 2019](#).

gwael. Mae tua 610,000 o gartrefi a busnesau'n methu cael gafael ar wasanaeth band eang sefydlog boddhaol. Ar ben hynny, mae nifer sylweddol o gartrefi yn dewis peidio â chael cysylltiad cyflym iawn, hyd yn oed pan fydd ar gael yn eu hardal: Mae 94% o gartrefi yn gallu cael gafael ar fand eang cyflym iawn, ond dim ond 54% o'r rhain sydd wedi cofrestru ar eu cyfer.

Mae gan bobl fwy o ddewis nag erioed o'r blaen o ran cynnwys, gyda hyd yn oed mwy o wasanaethau ar-alw ar fin cael eu lansio yn y DU

Dydy'r dewis o gynnwys sydd ar gael i wylwyr erioed wedi bod yn well. Gall gwylwyr ategu neu ddisodli gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw â chynnwys ar wasanaethau fideo ar-alw sy'n cael eu darlledu (BVoD) fel BBC iPlayer neu ITV Hub, neu wasanaethau fideo ar-alw drwy danysgrifio (SVoD) fel Now TV, Netflix ac Amazon Prime Video. Mae nifer o wasanaethau SVoD arbenigol wedi dod i'r farchnad yn y DU hefyd, gan gynnig cynnwys fel cynghreiriau chwaraeon dramor, sinema artistig ac arbrofol a chynnwys i blant. Mae'r dewis o wasanaethau fideo ar y rhyngwrdd yn helaeth, ac mae YouTube yn cynrychioli'r gwasanaethau hyn orau, gydag oddeutu 10 biliwn o fideos. Mae'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael a'r gystadleuaeth ar gyfer cynulleidfaoedd yn debygol o gynyddu wrth i wasanaethau newydd gael eu lansio yn y DU, fel Disney+.

Dyma sydd wedi lansio yn y farchnad SVoD yn ddiweddar, a beth sydd ar fin cael eu lansio:

Lansiwyd **Apple TV+** yn y DU ym mis Tachwedd 2019. Mae'n darparu cynnwys gwreiddiol, heb hysbysebion am £4.99 y mis. Ar hyn o bryd mae Apple wrthi'n datblygu 30 o gyfresi a ffilmiau gwreiddiol ar gyfer y we.

Lansiwyd **BritBox** ym mis Tachwedd 2019, ac mae'n fenter ar y cyd rhwng ITV a BBC, sy'n costio £5.99 y mis. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cynnwys o'r archif a bydd yn cynnig cynnwys gwreiddiol BritBox sydd wedi'i gomisiynu gan gwmnïau cynhyrchu yn y DU.

Bydd **Disney+**, yn lansio yn y DU ym mis Mawrth 2020, am £5.99 y mis. Bydd yn cynnwys ffilmiau a rhaglenni teledu Disney, yn ogystal â chynnwys Marvel, Star Wars a Pixar.

Mae **Peacock**, gwasanaeth ffrydio newydd NBCUniversal ar fin cael ei lansio yn yr Unol Daleithiau ym mis Ebrill 2020 ar gyfer cwsmeriaid cebl a band eang Xfinity a bydd yn cael ei gyflwyno'n llawn yno ym mis Gorffennaf. Nid oes dyddiad cyflwyno yn y DU wedi'i gadarnhau eto. Bydd y gwasanaeth yn rhyddhau cyfresi o'r archif fel *The Office* a *Parks and Recreation*. Bydd hefyd yn cynnwys ffilmiau gan Universal Pictures, Focus Features a DreamWorks Animation.

Mae gwasanaethau SVoD wedi creu categori o danysgrifiadau llai na £10 y mis heb fawr o ymrwymiad parhaus ac mae rhagor o bobl yn tanysgrifio i SVoD na sy'n tanysgrifio i wasanaethau teledu drwy dalu erbyn hyn.¹⁷ Fodd bynnag, mae hyn yn rhannol oherwydd bod nifer o gartrefi yn tanysgrifio i fwy nag un SVoD. Mae gwasanaethau ar-lein fel YouTube yn cynnwys cefnogaeth hysbysebion fel rheol, felly maent yn gallu cynnig cynnwys am ddim i unrhyw un sydd â dyfais wedi'i chysylltu a mynediad at fand eang.


¹⁷ Roedd cyfanswm tanysgrifiadau i wasanaethau teledu drwy dalu (fel Sky, Virgin Media, BT a TalkTalk) yn 14.3 miliwn yn Ch1 2019, ac roedd cyfanswm nifer y tanysgrifiadau i Netflix, Amazon Prime Video, Now TV a Disney Life wedi cyrraedd 19.1 miliwn (i fyny o 15.4 miliwn yn Ch1 2018). Ffynhonnell: Arolwg Sefydlu BARB.

Mae mwy o ddewis wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd mae gwylwyr yn treulio eu hamser ar wahanol gyfryngau, yn arbennig ymysg cynulleidfaoedd iau

Mae cyfanswm yr amser y mae cynulleidfaoedd y DU yn ei dreulio yn gwyllo rhaglenni teledu a ffilmiau wedi aros yn weddol sefydlog. Felly, wrth i bobl wyllo mwy a mwy o gynnwys ar y gwasanaethau ar-lein ac ar-alw newydd hyn, mae'r nifer sy'n gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu (byw, recordiadau a dal-i-fyny 7 diwrnod) yn dal i ddisgyn. Mae'n ymddangos bod cyfradd y gostyngiad yn y nifer sy'n gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu hefyd yn cyflymu: yn 2018 roedd pobl yn gwyllo am 3 awr 12 munud y diwrnod ar gyfartaledd - 11 munud yn llai nag yn 2017 (a oedd 9 munud yn llai nag yn 2016).

Mae'r patrwm hwn o wyllo llai o deledu sy'n cael ei ddarlledu'n fwyaf amlwg ymysg cynulleidfaoedd iau. Ar gyfer y rheini yn y grŵp oedran 16 i 24, roedd gostyngiad o 53 munud y dydd yn yr amser gwyllo teledu rhwng 2014 a 2018, ac ar gyfer y grŵp oedran 25 i 34, roedd gostyngiad o 47 munud dros yr un cyfnod.

Ffigur 1: Swm cyfartalog y munudau o deledu a ddarlledir sy'n cael eu gwyllo y pen bob dydd, yn ôl oedran




Ffynhonnell: BARB¹⁸

Yn lle teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw neu sy'n cael ei gefnogi gan hysbysebion, gwasanaethau dal i fyny (yn rhad ac am ddim neu wedi eu cefnogi drwy hysbysebion), mae'r gwylwyr iau hyn yn treulio mwy o amser yn gwyllo gwasanaethau ar-lein a fideo ar-alw drwy danysgrifio. Ar gyfer cynulleidfaoedd rhwng 16 a 34 oed, mae'r gwasanaethau ar-lein hyn yn rhan fawr o gyfanswm eu hamser yn gwyllo fideos, gan eu bod yn treulio mwy nag awr ar YouTube a 52 munud ar SVoD, fel Netflix, ar gyfartaledd bob dydd.

Ffigur 2: Cyfanswm munudau fideo y pen bob dydd, pob unigolyn ac oedolyn 16-34 oed, pob dyfais: 2018

¹⁸ Panel o tua 5,300 o gartrefi sy'n darparu'r mesur swyddogol i'r diwydiant ar gyfer teledu sy'n cael ei ddarlledu yw Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd y Darlledwyr (BARB). Mae dadansoddiad BARB yn seiliedig ar wyllo rhaglenni teledu wedi'u hamserlennu ar setiau teledu, oni nodir yn wahanol. Mae'n cynnwys gwyllo'n fyw a gwyllo hyd at saith diwrnod ar ôl darlledu'r rhaglen am y tro cyntaf, ar ffurf recordiadau ar DVR a chwaraewyr dal i fyny. Os nad yw'r dadansoddiad oedran wedi'i nodi, mae'r ffigurau'n dangos y cyfartaledd ar gyfer yr holl wylwyr 4 oed a hyn.

Pob unigolyn (4+)



Oedolion 16-34



Ffynhonnell: Cyfanswm modelu AV Ofcom gan ddefnyddio data BARB, TouchPoints a Comscore.

Mae newidiadau mewn arferion gwyllo hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn agweddau gwylwyr; mae 42% o oedolion yn ystyried mai gwasanaethau fideo ar-lein yw eu prif ffordd o wyllo teledu a ffilm, ac mae 38% o ddefnyddwyr SVoD yn dweud eu bod yn gallu dychmygu peidio â gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu o gwbl mewn pum mlynedd. Ar gyfer plant 12-15 oed, mae ymwybyddiaeth brand o Netflix a YouTube nawr yn uwch na'u hymwybyddiaeth o'r BBC¹⁹.

Mae'r defnydd cynyddol o deledu ar-alw yn rhan o duedd ehangach pobl i fynd 'ar-lein' fwyfwy

Mae'r tuedd mewn gwasanaethau teledu ar-lein ac ar-alw hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn y ffordd rydym yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae gan tua 70% o oedolion y DU gyfrif cyfryngau cymdeithasol ac mae tua un o bob pum munud a dreulir ar-lein yn cael ei dreulio ar gyfryngau cymdeithasol. Mae safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn gwneud mwy a mwy o ymdrech i bontio'r bwlch rhwng y cyfryngau cymdeithasol a fideos ar-lein. Er enghraifft, lansiwyd Facebook Watch ym mis Awst 2018, ac mae'n cynnwys sioeau gan rwydweithiau a chweyr cynnwys, gan gynnwys ABC, Fox News, Vice a BuzzFeed. Mae fideo ar y cyfryngau cymdeithasol yn dod yn fwyfwy poblogaidd;

¹⁹ Ofcom. [Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau 2017.](#)

mae dros un o bob pedwar (29%) o bobl yn gwylio fideos ar Facebook, Twitter, YouTube ac Instagram bob wythnos.²⁰

Mae'r ffaith fod pobl yn gwylio mwy a mwy o deledu ar-lein yn cael ei adlewyrchu yn y newidiadau i sut mae pobl yn gwrandao ar gynnwys sain. Mae radio sy'n cael ei ddarlledu'n fyw yn cael ei ddefnyddio'n helaeth o hyd (mae 89% o oedolion y DU yn gwrandao ar o leiaf bum munud o radio byw bob wythnos). Ond, mae pobl yn treulio mwy o amser yn gwrandao ar wasanaethau podlediad a ffrydio cerddoriaeth ar-lein fel Spotify ac Apple. Ar gyfer pobl ifanc 15-24 oed, mae ffrydio cerddoriaeth ar-lein yn cyfrif am 45% o'u cyfran wythnosol o wrando ar sain tra bod radio'n cyfrif am lai na thraean.²¹


Mae'r newidiadau hyn mewn arferion a'r dewis cynyddol o ran cynnwys yn golygu bod penderfynu beth i'w wyllo a dod o hyd i beth i'w wyllo yn llawer mwy cymhleth nag yr oedd ddegawd yn ôl, pan oedd y dewisiadau wedi'u cyfyngu fwy neu lai i nifer cyfyngedig o sianeli teledu sy'n cael eu darlledu a gorsafoedd radio. Erbyn hyn, mae sawl ffordd i allu hyrwyddo rhaglen neu wasanaeth cynnwys i wylwyr a sawl ffordd o gael gafael ar hynny hefyd (er enghraifft, drwy fotwm llwybr byr Netflix ar y teclyn rheoli o bell, drwy weld rhagolwg o raglen ar hafan gwasanaeth teledu neu drwy chwilio drwy lais). Mae'r ffyrdd newydd hyn o gael gafael ar gynnwys yn dylanwadu ar y dewisiadau rydym yn eu gwneud o ran yr hyn rydym am ei wyllo neu wrando arno.²²

Mae economeg y sector teledu yn newid

Mae'r newidiadau hyn yn y farchnad wedi effeithio ar economeg darlledu. Rhwng 2014 a 2018, roedd cyfanswm refeniw hysbysebu y sector darlledu cyfan wedi aros yn gymharol sefydlog, yn aros yn lefel am £4.2bn yn 2018 o'i gymharu â 2014, er bod rhywfaint o amrywio wedi bod yn y refeniw hysbysebu gan y gwahanol sianeli o fewn hyn. Yn ystod cyfnod ein hadolygiad, mae refeniw hysbysebu BVoD wedi mwy na dyblu mewn termau real, gan gynyddu o £153m yn 2014 i £391m yn 2018. Mae'r cynnydd hwn wedi helpu i sicrhau bod refeniw hysbysebu net cyffredinol teledu a BVoD wedi aros yn gymharol sefydlog.

Ffigur 3: Refeniw net hysbysebion teledu a hysbysebion VoD darlledwyr, yn ôl ffynhonnell

Refeniw net hysbysebion teledu a hysbysebion VoD darlledwyr, yn ôl ffynhonnell



²⁰ TouchPoints, 2019.

²¹ TouchPoints, 2019.

²² [Cyhoeddodd Ofcom argymhellion ar gyfer rheolau newydd ar amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn gwasanaethau ar-lein ac ar-alw ym mis Gorffennaf 2019.](#)

Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr, Adroddiad Gwariant AA/WARC. Nodyn: Mae'r ffigurau'n cael eu mynegi mewn termau real ac maent yn disodli data blaenorol a gyhoeddwyd gan Ofcom. Nid yw refeniw nawdd wedi'i gynnwys. Mae refeniw hysbysebu BVoD yn dod o AA/WARC ac mae'n cynnwys teledu fideo ar-alw ar gyfer darlledwyr yn unig. Efallai na fydd y cyfansymiau'n hafal i swm y cydrannau o ganlyniad i dalgrynnu.

Y tu hwnt i hysbysebu, mae refeniw yn y diwydiant darlledu hefyd yn cael ei gynhyrchu drwy amrywiaeth o weithgareddau masnachol eraill. Mae hyn yn cynnwys yn trafodiadau uniongyrchol i ddefnyddwyr fel tanysgrifiadau, talu-i-wyllo a nwyddau, yn ogystal â gwasanaethau cynhyrchu fel ITV Studios a gwerthu hawliau eilaidd.

Mae tanysgrifio yn ffrwd refeniw nodedig, sy'n tyfu'n gyflym, ar gyfer y diwydiant. Mae refeniw tanysgrifio'r DU ar gyfer gwasanaethau SVoD fel Netflix, Now TV ac Amazon Prime Video wedi cynyddu o tua £300m yn 2014 i £1.3bn yn 2018.²³ Hefyd, mae'r llinellau rhwng gwasanaethau am ddim, sy'n cael eu cyllido drwy hysbysebion, a gwasanaethau sy'n cael eu cyllido drwy danysgrifio yn dod yn llai eglur. Mae'r arwyddion cyntaf o ddatblygu yn y cyfeiriad hwn eisoes wedi dechrau yn y DU, wrth i ITV, STV a Channel 4 gyflwyno fersiynau tanysgrifio premiwm o'u gwasanaethau ar-alw sy'n cael eu cyllido gan hysbysebion, ITV Hub+, STV Player + ac All 4+. Mae pob un o'r rhain yn darparu mynediad at gynnwys heb hysbysebion am £3.99 y mis.

Mae'r farchnad wedi gweld 'rhuthr i raddfa' hefyd, yn bennaf drwy gwmnïau'n uno ac yn cael eu prynu. Mae'r ffaith fod Comcast wedi cymryd Sky drosodd ym mis Medi 2018 a bod Viacom a CBS wedi uno ym mis Rhagfyr 2019 yn ddwy enghraifft ddiweddar ym marchnad y DU. Yn union fel yr oedd darlledwyr yn wynebu her llwyfannau teledu drwy dalu digidol dau ddegawd yn ôl, maent bellach yn ymateb i fwy o gystadleuaeth gan wasanaethau SVoD ac ar-lein byd-eang.

Rydym yn trafod sut mae'r tueddiadau hyn yn effeithio ar refeniw a buddsoddiad gan y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rhan nesaf yr adroddiad hwn.

²³ Data Ampere Analysis, wedi'u mynegi mewn termau real.

4. Pa mor dda mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cael ei gyflwyno?

Mae'r adran hon yn rhoi golwg gyffredinol ar sut mae'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus statudol wedi'i gyflawni dros gyfnod o bum mlynedd yr adolygiad. Rydym yn tynnu sylw at y themâu allweddol sy'n deillio o'n dadansoddiad, gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth gan gynnwys arferion gwyllo ac agweddau cynulleidfaoedd, a nifer yr oriau a'r buddsoddiad mewn rhaglenni gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adroddiad data rhyngweithiol a ddaw gyda'r adroddiad hwn.

Yn ein dadansoddiad, rydym yn canolbwyntio ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, o ystyried y cysylltiad cryf rhwng y sianeli hyn a gwasanaethau eraill y darlledwyr, a'r llinellau sy'n fwyfwy aneglur rhwng gwasanaethau darlledu ac ar-alw o safbwynt gwylwyr, rydym hefyd yn ystyried cyfraniad sianeli portffolio masnachol cysylltiedig (ee ITV2, E4 a 5Star) a'u gwasanaethau ar-lein ac ar-alw (ee iPlayer, All 4 ac ITV Hub).

Crynodeb o'r adran:

- Mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus i raddau helaeth drwy ddarparu rhaglenni ar ystod eang o bynciau y mae cynulleidfaoedd yn dal i'w gwerthfawrogi'n eang. Mae buddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi cael ei gynnal mewn amrywiaeth o genres, gan gynnwys newyddion, rhaglenni ffeithiol ac adloniant.
- Mae nifer ac amrywiaeth cynnwys newydd o'r DU yn bwysig i gynulleidfaoedd, yn ogystal ag o ran twf parhaus y sector creadigol ehangach yn y DU. Ond, mae gallu'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynnal y lefel yma o fuddsoddiad yn debygol o ddod o dan bwysau parhaus. Mae drama yn dibynnu fwyfwy ar gyllid trydydd parti ond nid yw cyllid amgen ar gael yn rhwydd ym mhob genre.
- Mae rhywfaint o raglenni i blant, rhaglenni am gelfyddydau, addysg ffurfiol, crefydd a moeseg yn dal i fod ar gael ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r genres hyn yn cael eu hategu gan gynnwys sydd ar gael ar sianeli teledu eraill, gwasanaethau ar-alw, podlediadau, radio ac ar-lein; ac efallai fod y ffynonellau eraill hyn yn apelio fwy i rai cynulleidfaoedd, y mae'n well ganddynt wyllo rhaglenni ar wasanaethau gwahanol hyn ac ar amser sy'n addas iddynt hwy. Fodd bynnag, mae ansawdd ac argaeledd y ffynonellau amgen hyn yn amrywio i bob cynulleidfa.
- Mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn boblogaidd ond mae'r lefelau gwyllo yn dal i ddisgyn, yn enwedig ymysg cynulleidfaoedd iau; gellid dadlau bod hyn yn lleihau effaith a gwerth darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae darlledwyr yn addasu ac yn arloesi i wella eu hapêl, gan gynnwys drwy ddatblygu eu gwasanaethau ar-alw ac ar-lein, er nad yw hyn yn llwyr wrthbwysu'r golled yn y nifer sy'n gwyllo rhaglenni'n cael eu darlledu'n fyw eto.
- Mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn sail i sector cynhyrchu iach ac eang ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau ac mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn gwneud yn gymharol dda o gymharu â marchnadoedd eraill yng ngorllewin Ewrop.

Ystyrir cyfraniad gwasanaethau cyfryngau eraill at yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau darlledwyr masnachol eraill, ar-alw, radio ac ar-lein yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi parhau i ddarparu lefel uchel o raglenni newydd, genres cymysg o'r DU

Rydym wedi ystyried pa gynnwys sydd wedi cael ei ddarparu i wylwyr ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus dros y cyfnod adolygu o bum mlynedd. Rydym wedi casglu data ar amrywiaeth a nifer y gwahanol genres o raglenni sydd wedi cael eu dangos, o newyddion a materion cyfoes i adloniant a chomedi, yn ogystal â faint o'r rhaglenni hyn oedd yn cynnwys sioeau newydd wedi'u creu yn y DU.

Mae cynulleidfaoedd yn dweud wrthym fod dangos rhaglenni gwreiddiol o'r DU yn nodwedd allweddol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn ymchwil Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom, lle roedd 72% o holl wylwyr darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi sgôr uchel ar gyfer pwysigrwydd dangos 'rhaglenni newydd o'r DU'.²⁴ Mae

²⁴ Yn y Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gofynnwyd i ymatebwyr roi sgôr rhwng 1 a 10 (10 yw'r sgôr uchaf ac 1 yw'r isaf). Mae sgôr rhwng 7 a 10 yn cael ei hystyried yn sgôr uchel.

rhaglenni gwreiddiol o'r DU hefyd yn bwysig o ran cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan eu bod yn rhoi cyfle i adlewyrchu bywydau a phryderon cymunedau, diddordebau diwylliannol a thraddodiadau gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r Deyrnas Unedig; yn ogystal â rhaglenni sy'n cael eu creu y tu allan i Lundain. Mae rhaglenni sy'n cael eu creu neu sy'n cael eu prynu o dramor yn cyfrannu hefyd, ond mae rhaglenni gwreiddiol o'r DU yn dal i fod yn rhan ganolog o gyflawni'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae buddsoddiad mewn cynyrchiadau newydd o'r DU hefyd yn hollbwysig i gynaliadwyedd ac amrywiaeth y diwydiant cynhyrchu yn y DU.

Mae nifer yr oriau o gynnwys gwreiddiol o'r DU wedi bod yn sefydlog yn ystod cyfnod yr adolygiad

Mae nifer yr oriau o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus (BBC One, BBC Two, ITV, Channel 4 a Channel 5)²⁵ ac ar sianeli gwasanaeth cyhoeddus eraill²⁶ y BBC wedi aros yn sefydlog ers 2014, sef tua 32,000 awr y flwyddyn. Ychydig o newid sydd wedi bod hefyd ar draws y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus unigol o ran nifer cyffredinol yr oriau a ddarlledwyd am y tro cyntaf, heblaw am BBC Three a symudodd ar-lein yn unig yn 2016. Roedd y cynnwys gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf ar y BBC 493 awr yn is yn 2018 nag yn 2014, ac roedd 466 o'r oriau'n deillio o BBC Three. Rydym yn trafod sut roedd hyn wedi effeithio ar berfformiad y BBC ymysg cynulleidfaoedd iau yn nes ymlaen yn yr adran hon.


Yn ogystal â'u sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae ITV, Corfforaeth Channel 4 a Channel 5 wedi cynyddu cyfanswm y cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar eu sianeli portffolio masnachol yn ystod cyfnod yr adolygiad (i fyny o 656 awr yn 2018 o 1,407 awr yn 2014). Fodd bynnag, gan mai dim ond 2% o gyfanswm yr oriau ar y sianeli portffolio hyn sy'n oriau gwreiddiol i'w darlledu am y tro cyntaf o hyd, mae'r sianeli hyn yn parhau i wasanaethu fel darparwr yn bennaf ar gyfer y cynnwys a brynir, neu fel llwyfan ar gyfer rhaglenni a ddarlledir am y tro cyntaf ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Ffigur 4: Nifer yr oriau o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, yn ôl math o sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus: 2014-2018

²⁵ Dyma'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus: BBC One, BBC Two, gwasanaethau Sianel 3 (ITV ac STV), Channel 4 a Channel 5.

²⁶ Dyma sianeli gwasanaeth cyhoeddus eraill y BBC: BBC Three, BBC Four, CBBC, CBeebies, BBC News a BBC Parliament. Rhoddodd BBC Three y gorau i ddarlledu fel gwasanaeth teledu ar 31 Mawrth 2016.

Nifer yr oriau o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, yn ôl math o sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus: 2014-2018



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae sianeli caeedig wedi cael eu cynnwys yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys BBC HD a rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau. Mae rhaglenni gwreiddiol darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-lein ar wasanaethau fel BBC iPlayer, ITV Hub, All 4 a My5 wedi'u cynnwys fel rhan o bortffolios darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi sicrhau bod rhywfaint o gynnwys unigryw ar gael ar gyfer gwasanaethau ar-lein ac ar-alw hefyd. Yn benodol, mae cynnwys brand BBC Three wedi bod ar gael ar BBC iPlayer ers i'r sianel ddarlledu gau yn 2016. Ond, gan fod hyn yn llai nag 1%, mae'n dal yn gyfran fach iawn o gynnwys gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael ei ddangos am y tro cyntaf a oedd ar gael gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Er gwaethaf y twf yn nifer y rhaglenni sy'n cael eu comisiynu yn y DU ar wasanaethau SVoD, y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu'r rhan fwyaf o raglenni gwreiddiol o'r DU o hyd

Mae sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn darparu'r rhan fwyaf o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, er gwaethaf rôl gynyddol gwasanaethau SVoD yn y farchnad yn y DU. Mae sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyda'i gilydd wedi sicrhau bod tua 32,200 awr²⁷ o gynnwys o'r DU i'w ddangos am y tro cyntaf ar gael yn 2018, o'i gymharu ag ychydig dros 210 awr²⁸ o gynnwys wedi'i gynhyrchu yn y DU sydd ar gael ar wasanaethau SVoD Netflix ac Amazon Prime Video, a thua 22,900 awr ar sianeli darlledu masnachol fel Sky ac UKTV.

Mae darlledwyr masnachol a gwasanaethau SVoD yn gwneud cyfraniad sy'n fwyfwy pwysig at yr amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf sydd ar gael i gynulleidfaoedd ac at iechyd diwydiant cynhyrchu'r DU. Rydym yn trafod hyn ymhellach yn adran nesaf yr adroddiad hwn. Ond mae'n bwysig nodi bod y sector amlsianel yn eang, gyda thua 370 o sianeli am ddim a sianeli drwy dalu, ac mae'n amrywio'n sylweddol o ran natur sianeli penodol a faint o gynnwys gwreiddiol newydd o'r DU sy'n cael ei ddarparu; mae rhywfaint o ddarparwyr o'r Unol Daleithiau a llyfrgelloedd sy'n cynnwys rhaglenni rhyngwladol ac sy'n dod o'r Unol Daleithiau yn bennaf yn dal i fod yn nodwedd i SVoD.

²⁷ Nid yw'n cynnwys sianeli portffolio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (ee ITV2, E4).


²⁸ Ampere Analysis, Rhagfyr 2018. Mae'n cynnwys oriau Netflix Originals ac Amazon Originals, a'r DU yw'r brif wlad gynhyrchu.

Mae cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys amrywiaeth eang o bynciau a diddordebau

Mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i ddangos rhaglenni gwreiddiol ar draws amrywiaeth o genres, gan gynnwys newyddion, chwaraeon, adloniant a drama. Mae'r cymysgedd hwn o gynnwys yn un o nodweddion allweddol cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n nodi pwysigrwydd rhaglenni ar amrywiaeth eang o bynciau ac mae'r amcanion statudol yn nodi nifer o genres rhaglenni ynghyd â'u manteision cymdeithasol a phersonol, o ysgogi diwylliant y DU i fodloni diddordebau chwaraeon gwahanol.

Yn ogystal â newyddion a materion cyfoes, mae'r rhaglenni gwreiddiol o'r DU y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn eu darparu yn uwch yn y genre ffeithiol gyffredinol²⁹ (3,321 awr yn 2018), chwaraeon (2,922 awr) ac adloniant³⁰ (2,186 awr). Mae nifer yr oriau a ddarlledwyd ym mhob genre wedi bod yn sefydlog, at ei gilydd, yn ystod y cyfnod pum mlynedd ers 2014. Er hynny, gwelwyd cynnydd bach wedi rhaglenni darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gwreiddiol sy'n ymwneud â newyddion a materion cyfoes, cynnydd o 2% ers 2014 i 18,824 o oriau yn 2018; 297 awr yn ychwanegol. Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd darlledu rhaglenni am Brexit a'r etholiadau cyffredinol.

Ffigur 5: Darpariaeth genres ar draws y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus (oriau o raglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf)



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Nid yw oriau gwreiddiol ar-lein yn cael eu cynnwys oherwydd diffyg gwybodaeth am genre rhai oriau. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys BBC HD a rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau.

Ychydig o ddarpariaeth y celfyddydau, addysg a chrefydd a moeseg sydd ar gael o hyd, ond mae cynnwys radio ac ar-lein yn ategu'r ddarpariaeth

Ychydig o genres rhaglenni penodol sydd ar gael ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac mae hyn yn gyson â chanfyddiadau ein Hadolygiad diwethaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r ddarpariaeth wreiddiol o gelfyddydau a cherddoriaeth glasurol (310 awr yn 2018) a chrefydd a

²⁹ Mae'n cynnwys rhaglenni materion defnyddwyr, sioeau sgwrsio a rhaglenni cylchgrawn ffeithiol, rhaglenni am ddiddordebau, hamdden a ffordd o fyw, a digwyddiadau arbennig.

³⁰ Mae'n cynnwys sioeau sgwrsio ac amrywiaeth, cartwnau ac animeiddiadau (heblaw am rai i blant), sioeau cwis, sioeau gemau, sioeau i'r teulu a cherddoriaeth gyfoes boblogaidd.

moeseg (112 awr yn 2018) yn dal yn isel a dirywio ymhellach wnaeth y genres hyn rhwng 2014 a 2018 (i lawr 21% a 6% yn y drefn honno). Addysg ffurfiol yw'r genre sy'n cael ei ddarparu leiaf o hyd o ran rhaglenni gwreiddiol ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (65 awr yn 2018). Ond, mae hyn wedi cynyddu 25% ers 2014, ac wedi bod yn amrywio rhywfaint dros y pum mlynedd.

Fodd bynnag, mae cynnwys sydd ar gael ar-alw, ar-lein, ar bodlediadau ac ar radio yn ategu'r genres hyn. Er enghraifft, mae'r BBC yn darparu arlwy'r celfyddydau a cherddoriaeth glasurol ychwanegol drwy nifer o'i wasanaethau radio, podlediadau a gwefannau cysylltiedig a chynnwys cyfryngau cymdeithasol. Ond, mae cyrhaeddiad ac effaith y gwasanaethau cynnwys hyn yn amrywio'n sylweddol ac er bod cyrhaeddiad gwefannau'r BBC yn y trydydd safle yn y DU o unrhyw eiddo ar y rhyngwrdd (y tu ôl i wefannau Facebook a Google), mae faint o amser mae oedolion yn ei dreulio ar wefannau'r BBC yn cyfrif am 2% yn unig o'u hamser ar y rhyngwrdd, ac mae'r ffigur hwn wedi bod yn gostwng o un flwyddyn i'r llall³¹.

Ar y cyfan, mae cynulleidfaoedd yn fodlon â darlledu gwasanaeth cyhoeddus ond gellid gwneud mwy i adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol y DU

Mae'r ddarpariaeth o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn ddangosydd allweddol ar gyfer sut mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi darparu cynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant, bywydau a diddordebau yn y DU, yn ogystal â chefnogi diwydiant cyfryngau llewyrchus ledled y DU. Ond, dim ond cynrychioli rhaglenni sy'n adlewyrchu bywyd yn y DU mae cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf. Gall gwneuthurwyr rhaglenni o'r DU greu cynnwys sy'n canolbwyntio ar safbwyntiau a straeon rhyngwladol, yn union fel y gall rhaglenni gan gynhyrchwyr a darlledwyr rhyngwladol drafod materion a straeon sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn y DU.

Rydym hefyd yn mesur agweddau cynulleidfaoedd at ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus bob blwyddyn yn ein hymchwil Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae'r Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn mesur *pa mor bwysig* mae gwylwyr yn ystyried datganiadau sy'n ymwneud â'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â sut mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei *gyflawni* ymysg y rhai sy'n gwyllo sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. I ategu ymchwil ein Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, rydym yn comisiynu ymchwil ansoddol ychwanegol fel rhan o'n rhaglen waith *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr* i edrych yn fanwl ar agweddau cynulleidfaoedd iau tuag at ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn fwy manwl, ac rydym yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd pwysig eraill, gan gynnwys y rhai hynny nad ydynt yn gwyllo darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rheolaidd.

Mae cyfanswm y cynnwys o'r gwledydd a'r rhanbarthau wedi bod yn eithaf sefydlog, ond mae cynulleidfaoedd yn meddwl y gellid gwneud mwy i adlewyrchu diwylliant y DU

Ers 2014, mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cynnal yr oriau a'r gwariant ar raglenni a wneir yn benodol i wylwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau, ar y cyfan. Mae'r rhaglenni penodol i'r

³¹ Comscore MMX Multi-Platform, Oed: 18 a hŷn, Cyfartaledd misol Ionawr 2016 - Mehefin 2019, UK. Nodyn: Mae'r BBC yn cynnwys gwefannau masnachol a thrwyddedig.

Gwledydd hyn yn cynnwys rhaglenni fel *Gwesty Aduniad* ar S4C ac *Ulster Giants* ar UTV. Yn 2018, roedd 10,606 awr o'r rhaglenni gwreiddiol a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf, heb fod ar rwydwaith, ar gael i wylwyr. Mae hyn wedi gostwng ychydig o 11,287 yn 2014, yn seiliedig ar ostyngiad mewn rhaglenni gwreiddiol a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer gwylwyr yn yr Alban, a ddisgynnodd o 2,645 yn 2014 i 1,715 awr yn 2018. Ond, gellir priodoli'r rhan fwyaf o hyn i ganslo *The Nightshift* STV, a ddaeth i ben yn 2016.


Mae gwariant ar raglenni gwreiddiol i'w dangos am y tro cyntaf, heb fod ar rwydwaith, ar gyfer y gwledydd a'r rhanbarthau wedi gostwng ychydig ers 2014, gyda gostyngiad blynyddol (CAGR) o 1.7% ar gyfartaledd. Fodd bynnag, dros gyfnod hwy, gellir gweld bod y patrwm wedi bod yn fwy tuag at i lawr; roedd ffigur 2018 o £281m yn cynrychioli gostyngiad cyfartalog o 3% o'i gymharu â 2008, ar draws pob gwlad a rhanbarth.

Er bod y niferoedd sy'n gwylio teledu sy'n cael ei ddarlledu wedi gostwng yn gyffredinol, mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi llwyddo i reoli eu cyfran o gyfanswm gwylio teledu ar y cyfan ym mhob un o'r gwledydd ers 2014, ymysg pob unigolyn. Roedd y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (ac eithrio S4C) yn cynrychioli 57%³² o gyfanswm gwylio teledu yng Nghymru a'r Alban (i lawr o 58% yn 2014), 56% yng Ngogledd Iwerddon (i fyny o 54% yn 2014) a 55% yn Lloegr (i lawr o 57% yn 2014). Mae cyfran S4C o'r gwylio yng Nghymru wedi aros yn weddol sefydlog (yn aros ar tua 1% neu ychydig yn is na hynny bob blwyddyn). Ond, mae cyrhaeddiad cyffredinol y sianel yng Nghymru wedi gostwng 20% rhwng 2014 a 2018 i 301,000 (10.5% o bobl yng Nghymru).

Mae'r newidiadau hyn o ran darparu a gwylio, er mai bychan ydynt, yn gallu cyfrannu at argraffiadau'r gynulleidfa ynghylch sut mae eu hardal leol yn cael ei phortreadu ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae Ffigur 6 yn dangos bod y datganiadau ar *'Adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol y DU'* yn dal i gael y sgôr isaf gan gynulleidfaoedd. Yn 2019, dim ond hanner y cynulleidfaoedd roddodd sgôr dda ar gyfer *'Mae'n portreadu fy rhanbarth/Cymru/yr Alban/Gogledd Iwerddon yn deg i weddill y DU'*, hynny yw, sgôr o rhwng 7 a 10 allan o ddeg. Dyma'r datganiad sydd wedi cael y sgôr isaf ar gyfer pedwar o'r prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus: BBC Two (47%), BBC Three (47%), Channel 4 (42%) a Channel 5 (40%). Dyma oedd y datganiad a gafodd y sgôr isaf yn 2014 (46%) hefyd.

³² BARB. Pob unigolyn (dros 4 oed). Nid yw'n cynnwys sianeli +1 ac S4C. Roedd cyfran S4C yng Nghymru yn 2018 yn 0.9%

Ffigur 6: Agweddau o ran cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus: 2019 (sgôr rhwng 7 a 10)



Ffynhonnell: Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom, 2014, 2018 a 2019. C16 - Pa sgôr fydddech chi'n ei rhoi i BOB un o'r sianeli canlynol gyda'i gilydd... yn achos y datganiad hwn (ar raddfa o 1 i 10, gyda 10 yn cyfateb i'r sgôr uchaf ac 1 i'r isaf)?

Sail: Pob ymatebydd sy'n gwylio unrhyw sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rheolaidd yn 2014 (3067) ac sy'n gwylio'n rheolaidd neu'n aml yn 2018 (2874) a 2019 (2995).³³

Bydd cynigion darlledwyr yn cefnogi twf mewn canolfannau cynhyrchu rhanbarthol a gall helpu i wella cynrychiolaeth a phortreadu ar y Sgrîn hyd yn oed.

Mae cynhyrchu rhaglenni teledu y tu allan i Lundain yn rhan bwysig o'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n helpu i wasgaru ac i ysgogi buddsoddiadau a chyfleoedd swyddi yn y sector ar draws y DU. Mae hefyd o fudd i wylwyr drwy sicrhau amrywiaeth eang o raglenni a safbwyntiau golygyddol. Gall rhaglenni sy'n adlewyrchu diwylliant penodol y DU mewn ffordd ddilys apelio'n eang. Cafodd comedi sefyllfa Channel 4, *Derry Girls*, sydd wedi'i lleoli yng Ngogledd Iwerddon yn y 1990au, ei ffilmio'n bennaf yn Derry / Londonderry a Belfast a'r cyffiniau. Dyma raglen gomedi fwyaf poblogaidd y darlledwr ers *Father Ted*. Ail bennod y gyfres gyntaf oedd y rhaglen a gafodd ei darlledu a gafodd ei gwylio gan y nifer fwyaf o bobl ar setiau teledu yng Ngogledd Iwerddon yn 2018. Llwyddodd i gyrraedd 70% o'r rhai a oedd yn gwylio teledu ar y pryd. Mae'r ddwy gyfres ar gael ar wasanaeth ar-alw Channel 4, All 4, ledled y DU ac mae'r gyfres gyntaf bellach ar gael ar Netflix yn rhyngwladol.

Nid yn unig mae'n bosibl y bydd cynlluniau diweddar y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynyddu amrywiaeth a nifer y rhaglenni a wneir y tu allan i Lundain yn cynyddu'r buddsoddiad a'r cyfleoedd sydd ar gael yn eang, bydd hefyd yn gwella agweddau cynulleidfaoedd at y dyfodol. Mae'r cynlluniau'n cynnwys lansio sianel deledu newydd BBC Scotland, Corfforaeth Channel 4 yn symud i Bencadlys newydd yn Leeds ac i ganolfannau creadigol newydd ledled y DU ac S4C yn symud i Gaerfyrddin. Bydd y cynlluniau hyn yn cymryd amser cyn dod i rym, ond dylent i gyd gyfrannu at

³³ Yn y gorffennol, fe wnaethom ofyn i wylwyr a oedd yn ystyried eu hunain yn wylwyr rheolaidd i sgorio perfformiad cyflawni'r dibenion a'r nodweddion. O 2018 ymlaen, roeddem hefyd yn cynnwys gwylwyr achlysurol aml (a ddiffinnir fel y rheini sy'n dweud eu bod yn wylwyr achlysurol ond sy'n gwylio sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus bob dydd neu'r rhan fwyaf o ddiwrnodau).

economiâu creadigol y gwledydd a'r rhanbarthau, a helpu i sicrhau bod rhagor o gynnwys mwy amrywiol ar gael.

Lansiodd BBC Scotland ym mis Chwefror 2019. Mae'n darlledu bob nos ac yn canolbwyntio ar raglenni'r Alban. Mae'r cynnwys yn cael ei gynhyrchu'n bennaf yn yr Alban, yn dilyn cyhoeddiad y BBC yn 2017 y byddai'n cynyddu gwariant cyffredinol ar gynyrchiadau ffeithiol a drama yn yr Alban £20m bob blwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddiad gwerth £19m mewn cynnwys BBC Scotland a buddsoddiad gwerth £1.2m yn ychwanegol mewn sianel yn yr iaith Aeleg, BBC Alba.³⁴ Mae'r BBC hefyd yn datblygu panel o bobl ifanc o'r Alban i roi cyngor ar redeg ei sianel BBC Scotland.

Mae cynllun Corfforaeth Channel 4 '4 All the UK' yn cynnwys sefydlu canolfannau newydd yn Leeds, Glasgow a Bryste a gwirfoddoli i ymrwymo 50% o'i holl wariant comisiynu i'r gwledydd a'r rhanbarthau erbyn 2023. Mae cynlluniau eraill darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys cynlluniau Viacom i gomisiynu naw cwmni cynhyrchu dan arweiniad pobl o leiafrifoedd ethnig yn y rhanbarthau i ddatblygu cynnwys mwy amrywiol ar Channel 5; hyrwyddwyr amrywiaeth timau newyddion rhanbarthol ITV; a strategaeth S4C i fynd yn nes at gynulleidfaoedd a chreu swyddi newydd drwy agor pencadlys newydd yng Nghaerfyrddin ym mis Tachwedd 2018.

Mae gan Ofcom rôl i'w chwarae o ran cefnogi'r economïau creadigol ledled y DU hefyd. Er enghraifft, rydym yn gosod cwotâu ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau bod cyfran addas o'u rhaglenni rhwydwaith yn cael eu gwneud y tu allan i'r M25. Gall y cwotâu hyn helpu i wella amrywiaeth y safbwyntiau golygyddol a gyflwynir ar y Sgrîn hefyd. Ym mis Mehefin 2019, fe wnaethom ddiweddarau ein Canllawiau ar gyfer Cynyrchiadau Rhanbarthol a Rhaglenni Rhanbarthol, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol yn y diwydiant gwneud rhaglenni heddiw. Rydym yn parhau i fonitro cydymffurfiaid â'r cwotâu a sut mae ein canllawiau'n cael eu defnyddio'n ymarferol.³⁵

Mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gwella sut maent yn adlewyrchu gwahanol safbwyntiau a diwylliant amrywiol y DU

Mae ein hymchwil Tracio darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y cyfnod adolygu yn tynnu sylw at rywfaint o newid cadarnhaol mewn agweddau gwylwyr ar sut mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn *'cyflwyno amrywiaeth a safbwyntiau gwahanol'*, gan adlewyrchu rhai o'r newidiadau ar y Sgrîn mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi'u gwneud dros y blynyddoedd diwethaf. Mae sgôr y cynulleidfaoedd ar gyfer y datganiadau ynghylch a yw sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn *'dangos gwahanol fathau o ddiwylliannau yn y DU'* ac yn *'dangos gwahanol rannau o'r DU'* wedi cynyddu deg pwynt canran ers 2014, i 61% a 59% yn y drefn honno.

Canfu ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer ein hadolygiad thematig o gynrychiolaeth a phortreadu ar deledu'r BBC fod cynulleidfaoedd yn credu bod yr amrywiaeth maent yn ei gweld ar y teledu wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf, er bod modd gwneud mwy o hyd. Roedd cynulleidfaoedd Channel 4 a BBC Three wedi eu canmol yn ein hymchwil ansoddol, ond ar y cyfan, roedd y BBC yn cael ei ystyried i fod â thuedd dosbarth canol, gwyn, de-ddwyrain Lloegr.

Hefyd, roedd nifer o grwpiau o bobl yn teimlo eu bod yn cael eu camddeall neu'n cael eu hanwybyddu ar y teledu. Ychydig iawn yr oedd menywod hŷn yn cael eu cynrychioli, ac roedd pobl

³⁴ BBC, 2017. [Biggest BBC investment in Scotland in twenty years](#).

³⁵ Mae rhagor o fanylion am ein canllawiau a'n cwotâu diweddaraf ar gael [yma](#) ar ein gwefan.

yn teimlo bod pobl o gefndir dosbarth gweithiol yn aml yn cael eu portreadu mewn ffordd rhy syml neu negyddol. Roedd llawer yn mynegi pryder am bortreadu annilys fel gordddefnyddio stereoteipiau sy'n seiliedig ar o ble mae pobl yn dod (ee Cymru, Gogledd-ddwyrain Lloegr) neu hunaniaeth personol (ee rhywioldeb, ethnigrwydd).

Mae lle i wella eto. Byddai cynrychioli grwpiau o'r fath ar y Sgrîn yn fwy aml yn arwain at fwy o amrywiaeth o ran portreadu. Bydd ehangu amrywiaeth y gweithlu darlledu, yn enwedig o ran creu rhaglenni, yn cael effaith gadarnhaol ar y Sgrîn, ac rydym yn parhau i fonitro cynnydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r diwydiant yn ehangach o ran adeiladu gweithlu mwy cynhwysol a chynrychioladol.

Gwaith ymchwil pellach: amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y diwydiant teledu

Mae gan Ofcom rôl hefyd o ran monitro ac adrodd ar amrywiaeth ym maes darlledu. Ym mis Medi 2019, fe wnaethom gyhoeddi ein trydydd adroddiad ar amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes teledu, sy'n archwilio i ba raddau y mae amrywiaeth gweithlu darlledwyr y DU yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn y DU yn gyffredinol.

Rydym wedi canfod bod y diwydiant wedi cymryd camau i wella'r cyfleoedd i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, ond ein bod ni'n dal i aros i weld beth fydd effaith rhai cynlluniau - ar lefel uwch i bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig neu bobl ag anabledd yn bennaf. Mae cydbwysedd rhwng y rhywiau yn parhau i fod yn her, ond rydym wedi gweld rhywfaint o welliant yn nifer y menywod sy'n cael swyddi uwch. Mae llawer mwy i'w wneud o ran cynhwysiant cymdeithasol a denu pobl o amrywiaeth ehangach o gefndiroedd i'r diwydiant.

Yn 2020, byddwn yn casglu ac yn cyhoeddi mwy o ddata a gwaith dadansoddi ar amrywiaeth gweithlu darlledwyr y DU, ac yn parhau i ymgysylltu â darlledwyr i annog rhannu arferion gorau. Bydd adroddiad nesaf Ofcom ar amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes teledu yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad cyfatebol ar gyfer radio yn ystod hydref 2020.

Mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn ffynhonnell bwysig o newyddion dibynadwy

Un o amcanion allweddol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw bod y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn darparu rhaglenni sy'n hwyluso dealltwriaeth ddinesig, trafodaeth ar sail gwybodaeth a sylw cynhwysfawr i newyddion mewn gwahanol rannau o'r DU ac o bob cwr o'r byd. Yn ein gwaith ymchwil gyda'r Traciwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus, roedd gwylwyr yn credu mai '*rhaglenni newyddion sy'n ddibynadwy*' (roedd 76% o wylwyr wedi rhoi sgôr 7-10 i hyn) a '*help i ddeall beth sy'n digwydd yn y byd*' (75%) oedd y datganiadau pwysicaf ynghylch darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2019. Roedd gwylwyr yn credu bod sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni'r disgrifiadau hyn ar y cyfan. Ond, bu rhywfaint o newid ynghylch argraffiadau o ran dibynadwyedd, gyda 60% o wylwyr yn rhoi sgôr uchel i'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus am newyddion dibynadwy yn 2019, o'i gymharu â 67% yn 2014. Fodd bynnag, gall amrywiaeth cymhleth o ffactorau effeithio ar agweddau ar newyddion.

Mae tua dwy ran o dair o oedolion nawr yn mynd ar-lein i gael newyddion³⁶ ac ym mis Mawrth 2019 gwefan BBC News oedd safle newyddion mwyaf poblogaidd y DU, gan gyrraedd 64% o'r oedolion ar-lein, ychydig cyn y Daily Mail Online (63%)³⁷. Fodd bynnag, mae ymchwil ar gyfer ein [Hadolygiad o Newyddion y BBC](#) yn awgrymu bod cynulleidfaoedd iau yn ymgysylltu llai â newyddion y BBC ar-lein na defnyddwyr hŷn y rhynggrwyd fel arfer, a phan fyddant yn ymgysylltu, mae hynny'n dueddol o fod ar sail taro cipolwg drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu wasanaethau cydgasglu fel Apple News. Er mai'r BBC oedd y ffynhonnell newyddion a oedd yn cael ei defnyddio fwyaf gan ddefnyddwyr ffonau clyfar, canfu'r ymchwil hon nad oedd unrhyw ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill wedi cyrraedd rhestr y 10 uchaf. Byddem yn nodi bod Channel 4 wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn cyrraedd cynulleidfaoedd â newyddion drwy lwyfannau eraill fel Facebook ac YouTube. Hefyd, mae ITV wedi lansio ffynhonnell newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol i gynulleidfaoedd iau yn ddiweddar, ac mae *The Rundown* yn boblogaidd iawn ymhlith defnyddwyr ar Instagram, Snapchat a Facebook.

Mae'r tuedd hwn mewn cynulleidfaoedd iau yn troi at newyddion ar-lein yn cael ei adlewyrchu yn y cynulleidfaoedd sy'n gwyllo newyddion ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, lle mae nifer cyfartalog y munudau gwyllo y flwyddyn wedi gostwng 355 (28%) ers 2014 ymysg pobl ifanc 16 i 24 oed. Roedd y gostyngiad yn llai amlwg ar gyfer pob unigolyn, sef 244 munud (5%) ar gyfartaledd yn ystod y cyfnod adolygu. Canfu ein hymchwil fod cynulleidfaoedd yn awyddus iawn i osgoi 'newyddion ffug' a gwybodaeth gamarweiniol, eu bod yn gwerthfawrogi cywirdeb cynnwys newyddion y BBC ac yn cael eu gyrru ato ar adegau allweddol, yn enwedig i wirio ffeithiau ac wrth i newyddion dorri. Ond, i bobl iau, mae'r BBC yn cael ei weld fel 'un o nifer' o ffynonellau fel arfer.

Er gwaethaf y twf mewn newyddion ar-lein, teledu yw'r brif ffordd mae pobl yn cael gafael ar newyddion o hyd. Canfu ein Harolwg ar Gael Gafael ar Newyddion mai'r teledu yw'r ffynhonnell; newyddion fwyaf dibynadwy o hyd ar ôl cylchgronau, ychydig ar y blaen i bapurau newydd a'r radio ac ymhell iawn ar y blaen i gyfryngau cymdeithasol.³⁸ Rydym yn gweld patrymau tebyg wrth edrych ar argraffiadau o ran cywirdeb a didueddrwydd. Yn 2019, roedd cynulleidfaoedd yn credu mai ITV a CNN oedd y sianeli mwyaf dibynadwy (roedd 74% o'r gwylwyr yn rhoi sgôr o rhwng 7 a 10 iddynt). Roedd y BBC a Channel 5 yn sgorio'n is o ran argraffiadau o ddidueddrwydd na'r sianeli eraill (59% a 58% yn y drefn honno), a'r sianeli heb fod yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus - Sky (68%) a CNN (70%) - oedd ar y brig. Canfu ein hymchwil ar gyfer Adolygiad o Newyddion y BBC fod argraffiadau'r gynulleidfa ynghylch didueddrwydd rhaglenni yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau a bod cynulleidfaoedd yn cydnabod bod didueddrwydd y BBC yn cael ei graffu'n fwy manwl gan y wasg, gan wleidyddion a gan y cyhoedd oherwydd ei statws unigryw a'i ofyniad i wasanaethu pob cynulleidfa. Mae'r gwaith manwl hwn ar newyddion y BBC hefyd yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl yn dal i gredu bod gan y BBC enw da am adrodd newyddion yn ddibynadwy ac yn gywir ar draws ei holl wasanaethau.

Fel rhan o'n hadolygiad, rydym hefyd wedi ystyried data am gwynion ynghylch safonau cynnwys rhwng 2014 a 2018, yn arbennig y gofynion o ran cywirdeb a didueddrwydd dyladwy. O ganlyniad i'r cwynion a godwyd ynghylch sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, cynhaliwyd deg ymchwiliad i weld a oedd rhaglenni wedi torri adrannau perthnasol rheolau ein [Cod Darlledu](#) a daethpwyd i'r casgliad fod saith wedi torri'r rheolau hyn. O gymharu, fe wnaethom lansio 71 ymchwiliad i

³⁶ [Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2019](#).

³⁷ Comscore MMX Multiplatform, defnyddwyr rhynggrwyd 18 a hŷn.

³⁸ [Arolwg Ofcom ar Gael Gafael ar Newyddion 2019](#).

ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb dyladwy rhaglenni ar sianeli teledu heb fod yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a chanfuwyd bod ein rheolau wedi cael eu torri mewn 48 o'r ymchwiliadau. Rydym o'r farn fod y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio'n dda â'r rheolau hyn, gan mai'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael eu gwyllo amlaf ac sy'n destun y rhan fwyaf o'r cwynion ynghylch teledu a ddarlledir y rhan fwyaf o'r amser. Ers 2017, pan wnaethom ni ysgwyddo'r cyfrifoldebau dros reoleiddio'r BBC, nid ydym wedi canfod ei fod wedi torri gofynion 'didueddrwydd dyladwy' y Cod Darlledu.³⁹

Mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn boblogaidd, ond mae pobl yn treulio llai o amser yn eu gwyllo, yn arbennig cynulleidfaoedd iau

Rydym wedi dadansoddi data ar ffigurau gwyllo ac agweddau, i weld a yw anghenion a diddordebau cynulleidfaoedd wedi cael eu diwallu yn ystod cyfnod ein hadolygiad. Fel y trafodwyd yn adran 2, mae arferion gwyllo wedi newid yn sylfaenol gyda thwf gwasanaethau ar-lein ac ar-alw. Fodd bynnag, rydym yn dal i wyllo llawer o deledu sy'n cael ei ddarlledu yn y DU - 3 awr 12 munud y dydd ar gyfartaledd yn 2018 (gweler ffigur 2 yn adran 1, Cyd-destun y Farchnad); ac, fel y gwelwyd gyda phennod arbennig *Gavin and Stacey* ar gyfer y Nadolig (roedd bron i 27% o bobl y DU wedi gwyllo'r bennod ar iPlayer yn ystod yr wythnos gyntaf, a'r nifer uchaf erioed o bobl 16-34 oed, sy'n fwy nag ar gyfer unrhyw bennod gyntaf arall)⁴⁰, teledu sy'n cael ei ddarlledu yw'r brif ffordd o gyrraedd cynulleidfaoedd mawr o hyd.

Mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi rhannu eu cyfran o wyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu, ond maent yn cael trafferth denu gwylwyr iau

Roedd nifer cyfartalog y munudau y pen y dydd a dreulir yn gwyllo sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus⁴¹ ar set deledu yn 1 awr 47 munud yn 2018; i lawr 18% ers 2014. Fodd bynnag, wrth i'r ffigurau gwyllo ostwng ar draws yr holl sianeli teledu sy'n cael eu darlledu, mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cynnal cyfran gref o'r lefelau gwyllo. Roeddent yn cyfrif am 55% o'r holl ffigurau gwyllo teledu yn 2018, i lawr rhywfaint o 57% yn 2014. Mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn oherwydd bod BBC Three wedi dod oddi ar yr awyry fel sianel ddarlledu yn 2016⁴², a arweiniodd at golled sylweddol ymysg cynulleidfaoedd iau 16-34 oed.⁴³ ITV oedd yr unig sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynyddu ei chyfran rhwng 2014 a 2018, yn bennaf oherwydd Cwpan y Byd pêl-droed dynion a phennod ychwanegol o *Coronation Street* bob wythnos yn 2018.

³⁹ Serch hynny, rydym wedi canfod bod y BBC wedi torri ein rheol cywirdeb dyladwy ar un achlysur (yr Arglwydd Lawson ar *Today*, BBC Radio 4, 10 Awst 2017) a chafwyd bod un darllediad yn sylweddol gamarweiniol (Andrew Neil ac Alex Salmond ar *Sunday Politics*, BBC One, 30 Ebrill 2017). Nodwch, heblaw am mewn amgylchiadau eithriadol, dim ond cwynion am raglenni'r BBC y bydd Ofcom yn eu hystyried, a hynny ar ôl i'r achwynydd gwyno i'r BBC a chwblhau proses gwynion y BBC i ddechrau.

⁴⁰ BARB, meini prawf cyrhaeddiad 3+ munud yn olynol.

⁴¹ Dyma'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'u cynnwys yma: BBC One, BBC Two, ITV/STV, Channel 4, Channel 5 a sianeli portffolio'r BBC. Nid yw S4C wedi'i chynnwys oherwydd mae'n dod o dan sylfaen wahanol o fewn mesur BARB. Felly, rydym yn edrych ar berfformiad y sianel yng Nghymru yn unig, yn hytrach nag ar draws rhwydwaith cyfan y DU.

⁴² Nid yw perfformiad BBC Three fel sianel ar-lein yn unig yn cael ei fesur yn y ffigurau hyn.


⁴³ Rydym yn trafod perfformiad BBC Three a'r strategaethau mae'r BBC wedi'u cymryd i adennill gwylwyr iau ers i'r sianel fynd oddi ar yr awyry yn [ail Adroddiad Blyneddol Ofcom ar y BBC](#).

Cynyddodd y bwlch rhwng arferion gwyllo pobl hŷn a phobl iau rhwng 2014 a 2018. Cynulleidfaoedd hŷn sy'n gwyllo'r rhan fwyaf o deledu; roedd y rhai 55 a hŷn yn gwyllo 5 awr 15 munud y dydd ar gyfartaledd yn 2018, ond roedd y ffigur hwn wedi gostwng hefyd (i lawr 3% ers 2014, yn bennaf o ganlyniad i bobl 55-64 oed). Am y tro cyntaf yn 2017, dechreuodd pobl dros 54 oed gyfrannu at dros hanner lefelau gwyllo rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu.

Mae'r gostyngiad o ran gwyllo teledu yn fwy amlwg ymysg cynulleidfaoedd iau, gyda phobl 16-34 oed yn gwyllo 49 munud (32%) yn llai o deledu sy'n cael ei ddarlledu bob dydd yn 2018 nag yn 2014. Nid yw unrhyw raglenni sy'n cael eu gwyllo ar-alw (ar wasanaethau BVoD fel BBC iPlayer) i weld yn gwneud i fyny am y gostyngiad o ran gwyllo sianeli sy'n cael eu darlledu: yn 2018, nid oedd ffigurau gwyllo BVoD ar gyfartaledd wedi newid rhyw lawer ers 2017 ymysg pobl 16-24 oed, ac roedd yr amser a dreulir yn gwyllo SVoD wedi cynyddu 22 munud (gweler ffigur 6 isod).

Mae'r amser y mae gwylwyr iau yn ei dreulio'n gwyllo'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ystod cyfnod ein hadolygiad wedi gostwng yn gyflymach nag ar gyfer pob unigolyn arall (roedd unigolion 16-24 oed yn gwyllo 38% yn llai rhwng 2014 a 2018, i 38 munud). Mae faint o sianeli nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yr oeddent yn eu gwyllo wedi gostwng ar yr un gyfradd hefyd. Felly roedd *cyfran* y bobl iau (16-24 oed) a oedd yn gwyllo'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn parhau'n gyson ar 44% - felly mae gostyngiad cyffredinol wedi bod o ran faint o deledu sy'n cael ei ddarlledu y mae gwylwyr iau wedi bod yn ei wyllo, ac mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gyfran gyson o hyn.

Ffigur 7: Nifer cyfartalog y munudau a dreulir bob dydd yn gwyllo sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl oedran: 2010-2018



Ffynhonnell: BARB. Mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sianeli portffolio'r BBC.

Mae cynulleidfaoedd iau yn dal i ddefnyddio mwy a mwy ar YouTube a Netflix ac yn datblygu mwy a mwy o gysylltiad â'r brandiau


Mae'r cynnydd o ran gwyllo gwasanaethau fideo ar-lein a SVoD, sef Netflix ac YouTube yn fwyaf arbennig, wedi gwrthbwysu'r gostyngiad o ran gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu ymysg cynulleidfaoedd iau. Roedd lefelau gwyllo dyddiol SVoD ymysg unigolion 16-34 oed wedi bron â

dyblu o 30 munud yn 2017 i 52 munud yn 2018, ac roedd lefelau gwyllo YouTube (heb fod ar deledu) wedi cynyddu 5 munud i 64 munud. Yn wir, mae unigolion 16-34 oed nawr yn treulio mwy o amser ar gyfartaledd yn gwyllo cynnwys nad yw'n cael ei ddarlledu ar-lein na theledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw.

Efallai fod y newid hwn mewn lefelau gwyllo yn awgrymu bod cynulleidfaoedd iau yn gweld bod gwasanaethau ar-lein a SVoD yn dod yn fwyfwy perthnasol i'w chwaeth a'u diddordebau na'r rhaglenni ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw hyn o anghenraid oherwydd y math o gynnwys sydd ar gael, gan fod cynnwys sydd wedi cael ei ddangos yn wreiddiol ar sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael ar y gwasanaethau ar-alw ac ar-lein hyn. Er enghraifft, mae modd gwyllo *Sherlock* gan y BBC ar Netflix, ac mae modd gwyllo *Channel 4 News* ar YouTube. Yn ein Hadolygiad o Berfformiad y BBC, roeddem yn sylwi bod cynulleidfaoedd, yn arbennig gwylwyr iau, yn fwy tebygol o wyllo cynnwys y BBC ar wasanaethau SVoD nag ar BBC iPlayer. Mae hyn yn awgrymu mai un strategaeth bosibl yw sicrhau bod cynnwys y BBC ar gael yn eang ar wasanaethau y mae gwylwyr yn eu defnyddio'n barod.⁴⁴

Yn ôl ein hymchwili, pan oedd pobl ifanc 12-15 oed yn clywed am amrywiaeth o frandiau cynnwys, YouTube yw'r un maent yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi clywed amdano - yn fwy nag ITV, BBC One a BBC Two. Yn ogystal â'r amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael, mae plant yn hoffi'r ffaith fod YouTube yn cael ei ddiweddarau a'i deilwra'n barhaus yn unol â'u dewisiadau, ar sail yr hyn y maent wedi bod yn ei wyllo neu wedi chwilio amdano o'r blaen. Ond fideos cerddoriaeth, flogwyr, fideos 'sut mae gwneud' a chlipiau byr fel chwarae triciau yw'r prif gynnwys sydd ar gael ac sy'n cael ei wyllo ar YouTube yn hytrach na rhaglenni teledu a ffilmiau.

Ffigur 8: Ymwybyddiaeth o frand darparwyr cynnwys ymysg plant 12-15 oed (%)



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein gyda phlant rhwng 12 a 15 oed. Cwestiwn 1 - Dyma rai cwmnïau y gallech chi fod wedi clywed amdany'n nhw. Allech chi ddewis y rhai sy'n gyfarwydd i chi, os gwelwch yn dda? (atebion wedi eu cynnig, sawl cod). Sail: Plant rhwng 12 a 15 oed sy'n mynd ar-lein (500).


⁴⁴ Ail Adroddiad Ofcom ar Berfformiad y BBC, ffynhonnell y data: teledu (BARB, adroddiadau BARB TV player, data SVoD GfK a TouchPoints), radio (RAJAR) a gwefannau (Comscore MMX).

Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn defnyddio YouTube a llwyfannau rhannu fideos eraill i gyrraedd cynulleidfaoedd ar-lein

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ymateb i'r patrwm hwn drwy ehangu eu brand i gynnwys gwasanaethau ar-lein ac ar-alw mewn ffyrdd sy'n cefnogi'r broses o gyflawni'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Er enghraifft, mae *Channel 4 News* wedi ffurfio partneriaeth â Facebook i gynhyrchu sioe newyddion wythnosol newydd, *Uncovered*, a lansiodd ym mis Ionawr 2019, yn arbennig ar gyfer Facebook Watch. Mae'r cynlluniau hyn yn cael effaith ar gynulleidfaoedd: ym mis Medi 2019 roedd oedolion yn y DU yn gwylio cyfanswm o 173.5 miliwn o fideos ar sianel YouTube â brand BBC, ITV, Channel 4 neu Channel 5. Ar gyfartaledd, roedd hyn yn golygu 4.8 fideo fesul oedolyn bob mis, ac yn cynrychioli 1.7% o gyfanswm y fideos a oedd yn cael eu gwylio yn y DU.⁴⁵ Ond, efallai nad yw cynulleidfaoedd bob amser yn adnabod neu'n priodoli'r cynnwys hwn i sianel y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus gwreiddiol, ac yn credu ei fod yn gynnwys Netflix neu YouTube. Rydym yn trafod darpariaeth a phwysigrwydd rhaglenni gwreiddiol o'r DU ar wasanaethau ar-lein a SVoD yn fwy cyffredinol yn yr adran nesaf.

Ffigur 9: Cyfanswm y fideos YouTube gan sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a gafodd eu gwyllo ym mis Medi, yn ôl poblogaeth ddigidol oedolion y DU

Cyfanswm y fideos YouTube gan ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus a gafodd eu gwyllo ym mis Medi, yn ôl poblogaeth ddigidol oedolion y DU



Ffynhonnell: Comscore VMX Multi-platform, Adroddiad YouTube Partners, Rhestr wedi'i diffinio: BBC (heb gynnwys sianeli BBC Studio a BBC America), ITV, Channel 4, Channel 5, Medi 2016-2019, Oedran: 18 a hŷn, y DU


Mae'r gostyngiadau mwyaf ymysg unigolion 16-24 oed i'w gweld mewn ffilmiau rhyngwladol, rhaglenni hamdden, comedi a drama

O'r genres mwyaf y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus, roedd y genres a welodd y gostyngiad mwyaf ymysg unigolion 16-24 oed ers 2014 yn cynnwys ffilmiau heb fod o'r DU (i lawr 49%), diddordebau hamdden (i lawr 46%), comedi (i lawr 46%) a dramâu'r DU (i lawr 35%). Mae'r ddarpariaeth o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y genres hyn wedi aros yn gymharol sefydlog yn ystod cyfnod ein hadolygiad. Ond, mae *cyfanswm* yr oriau a ddarlledwyd (gan gynnwys rhaglenni a brynwyd ac a ailddarlledwyd) wedi gostwng, oherwydd bod llai o oriau o raglenni sy'n cael eu hailddarlledu yn y genres hyn. Roedd y gostyngiad yng nghyfanswm yr oriau a oedd yn cael eu darlledu yn arbennig o sylweddol ar gyfer comedi (gyda'r oriau'n gostwng o 3,085 yn 2014 i 1,717 yn 2018) a ffilm (gyda'r oriau'n gostwng o 3,918 i 2,537 yn ystod yr un cyfnod).⁴⁶

Mae'n bosibl fod y gostyngiad yn y lefelau gwyllo ar gyfer y genre diddordebau hamdden (gan gynnwys rhaglenni ar goginio, garddio, gwella cartrefi a theithio) yn bennaf oherwydd bod pobl ifanc yn defnyddio YouTube fwyfwy i gael gwibodaeth am eu diddordebau a'u hobiau ac oherwydd bod ffilmiau rhyngwladol, dramâu a rhaglenni comedi ar gael yn eang ar wasanaethau SVoD nawr.

⁴⁶ Daw oriau allbwn darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gan Ofcom/darlledwyr. Daw'r data gwyllo gan BARB. Mae'n werth nodi bod gwahaniaethau cynnil rhwng dosbarthiadau genre ar gyfer y ddwy ffynhonnell hyn. Edrychwch ar yr [Atodiad Methodoleg](#) i gael rhagor o fanylion.

Ffigur 10: Munudau cyfartalog y flwyddyn a dreulir y pen yn gwyllo'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus – y prif genres a wylwyd



Ffynhonnell: BARB, 4 oed a hŷn ardal (heb gynnwys rhaglenni rhanbarthol), unigolion (4) ac oedolion 16-24 oed. Y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys sianeli +1. Y genres mwyaf poblogaidd yn 2018, wedi'u rhestru yn ôl unigolion yn 2018. I gael gwybodaeth am genre ac i weld rhestr lawn o 'weddill y genres eraill' ewch i'r [adroddiad data rhynqweithiol](#) Mae'r genre plant yn gostwng hefyd.

Mae patrwm tebyg wedi bod o ran lefelau gwyllo darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ôl genre ymysg pob unigolyn, ac mae ffilmiau heb fod o'r DU (i lawr 36%), dramâu'r DU (i lawr 21%) a chomedi (i lawr 21%) wedi gweld y gostyngiadau mwyaf ers 2014. Y genre 'rhaglenni dogfen: eraill' oedd yr unig un o'r genres sy'n cael eu gwyllo amlaf i weld cynnydd yn y lefelau gwyllo. Mae'r categori hwn o raglenni yn cynnwys amrywiaeth o raglenni dogfen, sef unrhyw raglenni ffeithiol nad ydynt yn dod o dan y pwnc gwyddoniaeth neu astudiaeth natur, fel *Great British Bake Off*, *The Apprentice*, *Who Do You Think You Are?* a *24 hours in A&E*. Roedd cyfanswm nifer y rhaglenni yn y genre hwn (dangos am y tro cyntaf ac ailddarllediadau) a ddarlledwyd ar y sianeli hyn wedi cynyddu 5% rhwng 2014 a 2018, ac roedd lefelau gwyllo gan bob unigolyn wedi cynyddu 8%.

Mae'r rhaglenni i blant sy'n cael eu darparu yn adlewyrchu arferion gwyllo gwylwyr ifanc, sy'n newid yn gyflym

CBBC a Cbeebies yw'r unig sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus i blant, er bod rhaglenni i blant ar gael ar amseroedd penodol ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol, ar sianel cwbl fasnachol ITV, CiTV, ac mae amrywiaeth o gynnwys i blant ar-alw ac ar-lein yn ategu'r ddarpariaeth hefyd. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn ein [hadolygiad o gynnwys i blant](#), mae plant 4-15 oed yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn gwyllo rhaglenni cyffredinol i'r teulu, yn hytrach na rhaglenni

plant⁴⁷. Fel sy'n berthnasol i'r demograffig oedran arall, adloniant yw'r genre y mae plant yn ei wyllo fwyaf ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus (BBC One, BBC Two, ITV/STV, Channel 4 a Channel 5).

Mae cynulleidfaoedd yn dal i werthfawrogi rhaglenni gwreiddiol o'r DU i blant. Yn ôl ein hymchwiliad Traciwr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, roedd 80% o rieni neu ofalwyr yn dweud bod 'darparu amrywiaeth eang o raglenni o ansawdd uchel a rhaglenni wedi'u gwneud yn y DU ar gyfer plant' yn bwysig yn 2019 (o gymharu â 81% yn 2014). Fodd bynnag, roedd lefelau gwyllo rhaglenni plant ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng 17% rhwng 2014 a 2018, sy'n ostyngiad tebyg i nifer y rhaglenni i blant a ddarlledwyd. Mae gostyngiad tebyg wedi bod o ran lefelau gwyllo a chyrraedd sianeli plant y BBC hefyd.⁴⁸

Mae'r BBC yn ymateb i'r newidiadau hyn mewn ymddygiad gwylwyr, drwy geisio ehangu ei wasanaethau ar-lein ar gyfer plant. Hefyd, rydym wedi bod yn ymgynghori'n ddiweddar ar newidiadau i Drwydded Weithredu'r BBC.⁴⁹ Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn ceisio bodloni anghenion newidiol y gwylwyr hefyd. Ym mis Mawrth 2019, cyflwynodd ITV, C4C a Viacom ymrwymadau mewn ymateb i'n hadolygiad o gynnwys plant i ehangu eu darpariaeth ar gyfer plant drwy wario mwy ar gynnwys gwreiddiol a lansio gwasanaethau ar-lein newydd.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol hyn yn chwarae rhan weithredol yng Nghronfa Cynnwys i Gynulleidfaoedd Ifanc y Llywodraeth hefyd. Lansiwyd y gronfa £57m hon, y byddai modd cystadlu amdani, yn 2019, a'i nod yw ysgogi darpariaeth o gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd iau, yn arbennig drwy gefnogi rhaglenni gwreiddiol sy'n helpu i wella dealltwriaeth cynulleidfaoedd o'r byd ac sy'n adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol y DU.

Astudiaeth achos: ITV yn addasu'r ddarpariaeth newyddion er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd iau

Ym mis Medi 2019, lansiodd ITV News wasanaeth newyddion sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, o'r enw *The Rundown* er mwyn cyflwyno newyddion i bobl ifanc 14-17 oed drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae tîm arbennig yn cynhyrchu diweddariadau bob dydd sydd wedi'u targedu at bobl ifanc yn eu harddegau, gan ddefnyddio Instagram, Snapchat a Facebook, gan ddarparu bwletinâu newyddion ar ffurf sydd wedi'i ddylunio'n arbennig ar gyfer llwyfannau digidol. Mae *The Rundown* yn fyw ar sianeli cyfryngau cymdeithasol ITV News am 3:45pm yn ystod yr wythnos, a'i nod yw cyflwyno'r newyddion pwysicaf mewn ffordd sy'n ddiddorol i bobl ifanc, gan ddefnyddio penawdau straeon mawr a'r opsiwn i sweipio i gael rhagor o fanylion am rai eitemau. Cafodd y gwasanaeth bedair miliwn o wylwyr yn ystod ei fis cyntaf⁵⁰ ac mae ITV News yn bwriadu ymestyn *The Rundown* er mwyn darlledu bob diwrnod yn 2020.

⁴⁷ Nid yw 66% o'r amser y mae plant yn ei dreulio'n gwyllo teledu a ddarlledir ar set deledu yn cael ei dreulio ar slotiau i blant ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus nac ar y sianeli penodol i blant.

⁴⁸ Roedd llai na hanner y plant (41%) 4-6 oed wedi gwyllo o leiaf dri munud yn olynol o CBeebies ar gyfartaledd mewn wythnos yn 2018, i lawr o 44% yn 2014. Ar gyfartaledd, roedd 21% o blant hŷn (6-12 oed) yn gwyllo o leiaf dri munud o CBBC bob wythnos yn 2018. Roedd hyn i lawr o 29% yn 2014, ac mae wedi bod yn gostwng bob blwyddyn.


⁴⁹ Mae rhagor o wybodaeth am gynlluniau'r BBC, adolygiad dros dro Ofcom a'r ymgynghoriad ar gael ar ein: [gwefan](#).

⁵⁰ Broadcast, 2019. [Youngsters embrace ITV's bite-size news](#).

Nid yw 'gwasanaethau ar-alw darlledu gwasanaeth cyhoeddus' wedi gwrthbwyso'r gostyngiad yn lefelau gwyllo sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a ddarlledir yn fyw

Gwelwyd twf gwirioneddol ym mhoblogrwydd gwyllo cynnwys gwreiddiol ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-alw⁵¹. Mae ceisiadau am y gwasanaethau ar-alw yn gysylltiedig â'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus: Mae BBC iPlayer, ITV Hub, All 4 a My5 ('gwasanaethau ar-alw y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus'⁵²) wedi cynyddu 65%, o 3.8 biliwn i 6.3 biliwn, yn ystod cyfnod ein hadolygiad. Roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu defnyddio'n bennaf i wyllo dramâu, adloniant, rhaglenni ffeithiol a chynnwys i blant, gyda'r ceisiadau am y genre drama yn dyblu bron rhwng 2014 a 2018. Mae hyn yn dangos sut mae'n well gan gynulleidfaoedd wyllo rhai mathau o gynnwys, sy'n hanfodol wrth gyflwyno darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ar amser o'u dewis, yn hytrach nag mewn slot wedi'i drefnu ar sianel fyw sy'n cael ei darlledu.

Ffigur 11: Ceisiadau am wasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus (miliynau)



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae'r data yn cynnwys ceisiadau am gynnwys drwy BBC iPlayer, ITV Hub, All 4 a My5. Mae swm y ceisiadau yn ôl genre yn uwch na chyfanswm y ceisiadau cyn 2018, oherwydd bod adroddiadau BBC iPlayer yn caniatáu ar gyfer gorgyffwrdd rhwng genres cyn mis Mai 2017. Pan fo hynny'n bosibl, mae ceisiadau gan apiau ar wasanaethau trydydd parti (ee drwy lwyfannau teledu drwy dalu) wedi'u cynnwys, ond nid yw data'r BBC yn cynnwys ceisiadau drwy Sky na Virgin Cable. Nid oedd rhai darlledwyr yn gallu darparu manylion genres ar gyfer pob blwyddyn - rydym yn nodi 'ddim yn gwybod' pan fydd hyn yn berthnasol.

Roedd yn ymddangos bod y cynnydd yng nghyfanswm nifer y ceisiadau'n debygol o arafu yn 2018; yn ôl ein hamcangyfrifon, roedd yr amser gwirioneddol a dreuliwyd yn gwyllo gwasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi aros yn lefel yn 2018, ac mae'n bosibl ei fod wedi gostwng

⁵¹ Rydym wedi mesur hyn drwy gasglu ceisiadau ar-alw. Mae 'ceisiadau' yn cyfeirio at nifer o weithiau y mae gwylwr wedi clicio ar deitl ar-alw ac wedi dechrau ei chwarae.


⁵² Nid yw'r gwasanaethau ar-alw hyn yn wasanaethau sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni dibenion darlledu gwasanaeth cyhoeddus o dan y Ddeddf, ac maent yn gweithredu fel gwasanaethau masnachol, heblaw am iPlayer. Mae 'gwasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus' yn disgrifio'r grŵp hwn o wasanaethau sy'n cynnwys mynediad at gynnwys ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac sydd mor wahanol i wasanaethau VoD eraill fel chwaraewr UKTV player. Nodwch, mae gan STV ac S4C wasanaethau ar-alw hefyd, ond nid oes gennym ddata ar gyfer y gwasanaethau hyn.

ychydig hyd yn oed. Fodd bynnag, amcangyfrifon yw'r rhain ar sail y ffynonellau data gorau sydd ar gael i ni, ac rydym yn ceisio gwella'r data hwn i gael darlun mwy cyflawn ar gyfer y dyfodol.

Er gwaethaf cyrhaeddiad uchel gwasanaethau ar-alw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, mae'n debyg mai lefelau gwyllo gwasanaethau SVoD a YouTube yw'r sbardun cryfaf ar gyfer y twf mewn lefelau gwyllo ar-lein. Mae Ffigur 12 isod yn dangos sut mae'r lefelau gwyllo ymysg yr holl oedolion wedi newid rhwng 2017 a 2018, er y bydd yn bwysig parhau i fonitro'r tueddiadau hyn.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn datblygu eu gwasanaethau ar-alw drwy gynnwys rhagor o setiau bocs, drwy ymestyn y cyfnod y mae cynnwys ar gael, a drwy wella swyddogaeth, er mwyn cyd-fynd yn agosach â gwasanaethau SVoD ac i ysgogi pobl i'w defnyddio. Fel y gwnaethom drafod yn ein hadolygiad blynyddol o berfformiad y BBC, gall y newidiadau hyn gymryd amser i ddod i rym, wrth i gynnwys newydd ddod ar gael ac wrth i gynulleidfaoedd sylwi nad dim ond ar gyfer dal i fyny â rhaglenni y mae'r gwasanaethau ar-alw hyn.

Ffigur 12: Newid yn nifer y munudau cyfartalog bob dydd, yn ôl gwasanaeth: pob unigolyn, pob dyfais: 2017-2018



Ffynhonnell: Cyfanswm modelu AV Ofcom gan ddefnyddio data BARB, TouchPoints a Comscore.

Mae buddsoddiad mewn cynnwys newydd a gwreiddiol o'r DU wedi'i gynnal o ganlyniad i fwy o gyllid trydydd parti

Rydym wedi ystyried lefel y buddsoddiad mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf gan sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan fod hyn yn berthnasol i sut mae'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei gyflawni.⁵³ Mae lefelau buddsoddi yn rhoi syniad ynghylch safon y rhaglenni sydd ar gael i gynulleidfaoedd ac i ba raddau y mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrannu at yr economi greadigol ehangach. Mae ein dadansoddiad ni o'r data a ddarparwyd gan ddarlledwyr yn dangos bod eu gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n

⁵³ Mae Adran 264(7)(a) o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn ystyried y costau sy'n disgyn ar ddarparwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus wrth gyflawni'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus.


cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi gostwng tua £1bn mewn termau real o uchafbwynt o £3.512bn yn 2004; cafwyd y gwariant isaf ar gofnod yn 2018, sef £2.586bn.

Mae cyfanswm y ffigurau hyn yn cuddio rhai amrywiadau nodedig rhwng darlledwyr penodol a'u gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf (yn wahanol i ailddarllediadau a rhaglenni sy'n cael eu prynu). Ers 2014, mae gwariant y BBC ar gynnwys wedi amrywio, yn rhannol oherwydd gwariant sy'n amrywio ar chwaraeon (sy'n dibynnu ar amser digwyddiadau penodol fel y Gemau Olympaidd) yn ogystal â chau BBC Three yn 2016. O'i gymharu â 2014, roedd gwariant y BBC ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn 2018 i lawr £95m mewn termau real, i tua £1.2bn. Yn ystod yr un cyfnod, roedd gwariant ITV ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar ei brif sianel wedi gostwng mewn termau real hefyd, i lawr £64m i tua £755m.

Ond, rhwng 2014 a 2018 mae Channel 4 a Channel 5 wedi cynnal eu gwariant ar gynnwys sy'n cael ei greu yn y DU ac sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, gan wario £40m a £35m yn y drefn honno (mewn termau real). Mae Channel 5 wedi cynyddu'r gwariant yn raddol ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ers i Viacom brynu'r sianel yn 2014, ac mae gwariant ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi cynyddu 7% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2014 a 2018. Roedd gwariant ar raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf gan S4C yng Nghymru i lawr rhywfaint, gan ostwng mewn termau real o £65.8m yn 2014 i £61m yn 2018. Yn yr un modd roedd STV yn yr Alban wedi lleihau ei fuddsoddiad mewn cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf a gynhyrchwyd yn benodol ar gyfer rhanbarthau'r Alban o £9.5 miliwn yn 2014 i £9.4 miliwn yn 2018.

Ffigur 13: Gwariant ar gynnwys gwreiddiol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o'r DU, sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, fesul sianel (£m): 2014-2018

Gwariant ar gynnwys gwreiddiol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, fesul sianel (£m): 2014-2018



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr Nodyn: mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi mewn termau real. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys S4C, BBC Alba, BBC HD, rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau, na gwariant trydydd parti.

Er gwaethaf y gostyngiad mewn gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, roedd gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys wedi'i brynu ac ailddarllediadau wedi gostwng yn gyflymach rhwng 2014 a 2018. Er bod gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi lleihau yn ôl cyfradd twf blynyddol

cyfansawdd (CAGR) o 1% yn ystod y cyfnod hwn mewn termau real, roedd gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni eraill wedi gostwng 4%. Felly, mae cyfran y gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi'i chynnal ers 2014, gan godi o 88% i 90% yn 2018, a dim ond 10% o gyfanswm y cyllid yn cael ei wario ar gynnwys sy'n cael ei brynu ac ailddarllediadau. Yn 2018 cafwyd y gyfran uchaf erioed o ran gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, sy'n dangos bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn amddiffyn gwariant ar gynnwys newydd, gwreiddiol o'r DU yng nghanol pwysau ariannol, a bellach yn gwario mwy nag erioed, yn gymesur, ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf.

Mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi sicrhau cyllid allanol i gynnal y lefelau buddsoddi


Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn canfod ffyrdd newydd o dalu am gynnwys. Mae hyn yn cynnwys drwy gynrychiadau ar y cyd a chyllid diffyg sy'n ychwanegu at fuddsoddiad uniongyrchol y darlledwyr. Mae cyllid trydydd parti wedi dod yn ffynhonnell fwyfwy pwysig o gyllid ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ac mae'n tueddu i ganolbwyntio ar genres penodol, fel drama. Pan fyddwn yn cynnwys cyfraniadau cyd-gynhyrchu gan drydydd partion fel gwasanaethau SVoD, a Rhwydweithiau teledu'r Unol Daleithiau fel AMC, mae cyfanswm gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar raglenni gwreiddiol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf wedi aros yn weddol lefel, sef tua £3bn rhwng 2014 a 2018 mewn termau real.

Mae effaith 'gwneud iawn' cyllid trydydd parti yn arbennig o amlwg gyda rhaglenni drama. Mae drama yn genre poblogaidd gyda chynulleidfaoedd, ac mae hefyd yn bwysig o ran bodloni'r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy adlewyrchu diwylliant a phrofiadau yn y DU. Er bod nifer y dramâu gwreiddiol sy'n cael eu creu yn y DU⁵⁴ sydd ar gael ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng rhywfaint (i lawr 9% rhwng 2014 a 2018 i 338 awr), cafwyd un o'r gostyngiadau mwyaf yng ngwariant uniongyrchol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar y genre hwn ers 2014 mewn termau real (£34m yn llai). Ond, roedd cyllid trydydd parti yn cyfrif am dros hanner (54%) cost dramâu gwreiddiol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn 2018 am y tro cyntaf, a chyrhaeddodd y ffigur uchaf erioed, sef £455m ar draws pob genre. Mae rhai o'r dramâu darlledu gwasanaeth cyhoeddus mwyaf llwyddiannus yn ystod y blynyddoedd diweddar, fel *Bodyguard* a *The Night Manager*, wedi cael eu cynhyrchu gyda help cyllid trydydd parti.

Nid yw'r ffynonellau cyllid amgen hyn wedi bod ar gael yn hwylus ar gyfer pob genre, fel y rhai heb bosiblirwydd mawr ar gyfer hawliau eilaidd a'r rhai sy'n llai poblogaidd o ran ysgogi tanysgrifiadau SVoD ar lefel fyd-eang. Wrth i wasanaethau SVoD lansio yn y DU ac wrth i'r farchnad ddarlledu ddod yn fwyfwy cystadleuol, nid yw'n glir a fydd gwasanaethau SVoD yn parhau i fuddsoddi mewn cydgyngrychiadau fel hyn, neu a fyddant o bosibl yn rhoi blaenoriaeth i'w cynrychiadau eu hunain.

⁵⁴ Heb gynnwys operâu sebon. Gyda'i gilydd, mae dramâu ac operâu sebon wedi gostwng 2% rhwng 2014 a 2018 i 1,081 awr ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Ffigur 14: Gwariant uniongyrchol darlledwr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, yn ôl genre (£m)



Ofcom/Darlledwyr Nodyn: mae'r ffigurau wedi cael eu mynegi mewn termau real. Mae'r ffigurau'n cynnwys: BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBBC, CBeebies, BBC News, BBC Parliament, ITV, Channel 4 a Channel 5. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys S4C, BBC Alba, BBC HD, rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau, na gwariant trydydd parti.

Mae sianeli portffolio ITV, Channel 4 a Channel 5 wedi buddsoddi mwy mewn cynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ers 2014, yn arbennig mewn cynnwys ffeithiol

Mae sianeli portffolio y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol (ee ITV2, E4 a 5Star) wedi cynyddu gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ers 2014, er nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Gall y buddsoddiad hwn arwain at fwy o ddewis i gynulleidfaoedd, gan gyfrannu at yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac economi greadigol y DU.

Roedd gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ar y sianeli portffolio hyn wedi cynyddu mewn termau real o £109m yn 2014 i £140m yn 2018. Cynnydd mewn gwariant gan Channel 5 ar ei sianeli portffolio sy'n bennaf gyfrifol am hyn, ers i Viacom brynu Channel 5 yn 2014. Mae ITV hefyd wedi cynyddu ei wariant yn raddol mewn cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar ei sianeli portffolio yn ystod cyfnod pum mlynedd ein hadolygiad.

Roedd y rhan fwyaf o'r gwariant ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar y sianeli hyn yn y genres adloniant, rhwng 2014 a 2018, ac roedd yn cyfateb i 43% o'r gwariant yn 2018. Fodd bynnag, gwariant ar gynnwys newydd a gwreiddiol o'r DU yn y genre ffeithiol (sy'n cynnwys rhaglenni realiti) sydd wedi codi'n fwyaf sylweddol ers 2014, gan gynyddu 33% ar gyfartaledd o £14.1m yn 2014 i £44.5m yn 2018. Gall hyn fod yn rhannol oherwydd poblogrwydd rhaglenni fel *Love Island* ar ITV2.

Mae'r cynnydd hwn mewn buddsoddiad ar sianeli portffolio darlledwyr wedi canolbwyntio'n fawr ar genres sy'n cael eu darparu'n dda ar sianelu'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn barod, fel chwaraeon, ffeithiol ac adloniant. Nid yw wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn y gwariant ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf ar sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU o gymharu â gwledydd cymdogol

Mae'r prif heriau y mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn eu hwynebu yn cael eu hadlewyrchu mewn marchnadoedd eraill yn Ewrop. Mae darlledwyr yn addasu wrth i gynulleidfaoedd teledu byw leihau ac wrth iddynt wynebu mwy o gystadleuaeth gan amryw o gystadleuwyr ar-lein. Yn y cyd-destun hwn, mae perfformiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU o'i gymharu â pherfformiad eu cyfoedion rhyngwladol wedi bod yn eithaf cryf.⁵⁵

Mae'r gostyngiad yn y nifer sy'n gwylio teledu byw sy'n cael ei ddarlledu yn cael ei adlewyrchu ledled Ewrop

Mae data arolwg defnyddwyr gan Ampere Analysis yn awgrymu gostyngiad cyffredinol mewn cynulleidfaoedd teledu byw ar gyfer y prif ddarlledwyr sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus ym mhob un o'r pum prif farchnad yng Ngorllewin Ewrop (Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Sbaen a'r DU). Mae data cipolwg ar Ch1 yr arolwg rhwng 2016 a 2019 yn dangos gostyngiad sylweddol yng nghyfraethiad y BBC, sef 13 pwynt canran, o ganlyniad i ragor o wylwyr yn defnyddio dewisiadau eraill ar-lein yn hytrach na theledu byw, ar lwyfannau cystadleuwyr yn ogystal â gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eu hunain. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu gan France Televisions (-12 pwynt canran) ac RTVE yn Sbaen (-13 pwynt canran). O'i gymharu â'r darlledwyr hyn, roedd y BBC wedi dal ei afael ar gyfraethiad cyffredinol uwch, sef 70%. Mae'r gostyngiad hwn yn yr holl farchnadoedd yn fwy amlwg ymhlith unigolion 18-34 oed.

⁵⁵ Mae'r cymariaethau rhyngwladol ar gyfer cyd-destun yn unig; nid yw'n bosibl cymharu tebyg wrth debyg oherwydd y gwahaniaeth yn y modelau cyllido darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a deinameg ac amodau'r farchnad yn ehangach ar draws gwledydd.

Ffigur 15: Cipolwg ar gyrhaeddiad rhai sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus




Ffynhonnell: Ampere Analysis, Defnyddwyr, Ch1 2016-2019, Oed:18-64, ymatebwyr ar-lein Nodyn: Mae'r canrannau ar gyfer ymatebwyr a fu'n rhan o arolwg ym marchnad gartref pob darlledwr, ac maent yn cynrychioli'r rhai sydd wedi gwyllo unrhyw rai o sianeli'r darlledwr hwnnw yn ystod y mis diwethaf. Sail: 2,000 o ymatebwyr ym mhob marchnad.

Mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn bwysig i wylwyr

Mae perfformiad cymharol gryf darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU o gymharu â'u cyfoedion yn Ewrop yn cael ei adlewyrchu â lefelau uwch o fodlonrwydd gwylwyr. Yn ôl ymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd gan OpinionWay ar gyfer y French Senate, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, roedd 86% o ymatebwyr yn y DU yn fodlon a'r rhaglenni a oedd yn cael eu cynnig gan gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, o gymharu â rhwng 50% a 61% yn y pedair prif farchnad arall yng Ngorllewin Ewrop. Hefyd, daeth y DU ar frig y rhestr o ran argraffiadau defnyddwyr o sut mae'r pum marchnad yn cyflawni dibenion gwahanol y cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cyfleu delwedd genedlaethol benodol, bod yn arloesol, darparu newyddion lleol arbenigol, bod yn ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy a bod yn niwtral.

Ffigur 16: Argraffiadau defnyddwyr o'r cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus, yn ôl gwlad (% sy'n cytuno â'r datganiad amdano)



Ffynhonnell: Arolwg defnyddwyr OpinionWay, Mehefin 2018. Cwestiwn: 'Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol ynghylch cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus? Cyfryngau gwasanaeth

cyhoeddus...’ Categorïau penodol wedi’u cyflwyno. Sail: Y DU 515, Ffrainc 1,020, yr Almaen 531, yr Eidal 525, Sbaen 508. Unigolion 18 a hŷn+.

Fodd bynnag, gallai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU fod yn wynebu amgylchedd cystadleuol sy’n anoddach na’r hyn y mae eu cyfoedion yn Ewrop yn ei wynebu

Roedd refeniw o danysgrifiadau ar-lein a gwasanaethau sy’n cael eu cefnogi gan hysbysebion, sy’n cael eu hysgogi gan Netflix, YouTube a llwyfannau ffrydio rhyngwladol eraill, yn cyfrif am un rhan o bump o gyfanswm refeniw teledu a fideo yn y DU yn 2018, o gymharu â 9% ym mhob un o’r pedair o brif wledydd Gorllewin Ewrop, yn ôl data Ampere Analysis. Mae’r lefel uchaf o wasanaethau SVoD o blith y pum marchnad yn y DU, sef 77% o gartrefi â rhyngwyd yn Ch3 2019, o’i gymharu â 55% yn Ffrainc (yr isaf) a 70% yn Sbaen (yr ail uchaf).

Mae’r heriau cystadleuol y mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn eu hwynebu ym mhob man yn rhoi pwysau ar allu darlledwyr i dalu am gynnwys sy’n dod yn wreiddiol o’u marchnad gartref. Ond, mae buddsoddiad darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn y DU yn dal i fod yn uchel, o gymharu â’u cyfoedion, ac mae’n cael ei ategu fwyfwy gan gyllid trydydd parti, fel sy’n cael ei drafod yn gynharach yn yr adran hon. Ymhlith y prif ddarlledwyr sy’n cael eu hariannu’n gyhoeddus yn y pum prif farchnad yng Ngorllewin Ewrop, y gwledydd Nordig, Gwlad Belg a’r Iseldiroedd, y BBC oedd yn gwario’r ail swm uchaf ar gynnwys gwreiddiol fesul pen o’r boblogaeth yn 2018.⁵⁶ Dim ond ARD a ZDF yn yr Almaen oedd wedi gwario mwy na’r BBC. Ymhlith yr holl wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy’n cael eu dadansoddi yma, roedd y BBC yn dyrannu cyfran uwch o’i gyllideb ar gyfer cynnwys gwreiddiol nag unrhyw un o’i gyfoedion – 92% yn 2018, o’i gymharu â rhwng 27% (YLE yn y Ffindir) a 75% (NPO yn yr Iseldiroedd) ar gyfer y gweddill.

Mae’r refeniw ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus sy’n cael eu hariannu’n fasnachol o dan bwysau wrth i’r farchnad hysbysebu ar deledu a ddarlledir arafu

Yn ogystal ag ystyried sut mae’r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cyflawni’r cylch gwaith darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a monitro patrymau buddsoddi mewn rhaglenni, mae’n bwysig edrych ar sut mae darlledwyr yn ariannu’r cynnwys hwn. Rydym wedi casglu data gan ddarlledwyr, sy’n nodi bod refeniw masnachol ar gyfer y prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng 3.2% yn ystod cyfnod yr adolygiad, ar sail cyfradd twf blynyddol cyfansawdd (CAGR). Mae’n ymddangos fod hyn wedi cael ei ysgogi’n bennaf gan ostyngiad mewn refeniw hysbysebu ar y teledu. Mae’n bosibl fod rhywfaint o’r gostyngiad hwn o ganlyniad i amodau macro-economaidd cylchol, ond mae’n debygol fod symud tuag at wasanaethau ar-lein a gwylio fwyfwy tameidiog wedi cael effaith hefyd. Mae data diweddar gan y Ganolfan Ymchwil i Hysbysebion y Byd yn nodi bod canran yr hysbysebion arddangos ar deledu sy’n cael ei ddarlledu yn y DU wedi disgyn o 36% i 31% o 2014 i 2018.⁵⁷


⁵⁶ Ampere Analysis - Marchnadoedd Cynnwys.

⁵⁷ Ar sail cyfanswm gwariant hysbysebu ar y teledu, heb gynnwys VoD, fel cyfran o gyfanswm refeniw hysbysebion arddangos.

Er bod sianeli portffolio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol (fel ITV2 ac E4) wedi cynyddu refeniw teledu yn ôl cyfradd twf blynyddol cyfansawdd o 1.3% rhwng 2014 a 2018, nid yw'r cynnydd hwn wedi bod yn ddigon i wneud iawn am y gostyngiad ar y prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol. Hefyd, mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod y tuedd hwn o gynydd mewn refeniw hysbysebu ar y teledu gan y sianeli hyn yn gwrthdroi, gyda refeniw hysbysebu yn 2018 wedi gostwng 7% o un flwyddyn i'r llall.

Mae ffi'r drwydded y BBC o dan bwysau hefyd, gyda chyfran refeniw ffi'r drwydded sy'n cael ei dyrannu ar gyfer teledu gan y BBC yn gostwng 4% mewn termau real, ar sail twf blynyddol cyfansawdd rhwng 2014 a 2018. Mae'n bosibl y bydd pwysau ar refeniw y BBC yn parhau i gynyddu os bydd cyfran gynyddol o gartrefi yn dewis peidio â gwyllo unrhyw deledu sy'n cael ei ddarlledu, ac o ganlyniad i'r BBC yn talu am ffioedd y drwydded i bobl dros 75 oed sy'n hawlio credyd pensiwn o 2020 ymlaen.

Ffigur 17: Refeniw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar deledu a ddarlledir (£bn)



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Nodyn: Mae'r ffigurau'n cael eu mynegi mewn termau real ac maent yn disodli data blaenorol a gyhoeddwyd gan Ofcom. Mae sianeli caeedig wedi cael eu cynnwys yn ystod y blynyddoedd blaenorol. Efallai na fydd y cyfansymiau'n hafal i swm y cydrannau o ganlyniad i dalgrynnu. Mae refeniw yn cynnwys refeniw hysbysebu ar y teledu gan sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal ag incwm o nawdd, tanysgrifiadau, gwasanaethau rhyngweithiol (fel y botwm coch), gwasanaethau talu-i-wyllo, gwerthu rhaglenni, teledu siopa/manwerthu a refeniw darlledu arall gan sianeli teledu sy'n eiddo i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Mae darlledwyr yn arallgyfeirio ffrydiau refeniw i wneud iawn am y dirywiad mewn hysbysebu ar y teledu

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi ymateb i'r heriau hyn drwy geisio lleihau pa mor ddibynnol ydynt ar incwm o hysbysebu ar y teledu, drwy gynyddu eu refeniw o ffynonellau eraill. Mae'r gostyngiad yn y refeniw hysbysebu ar y teledu yn gwrthgyferbynnu â'r twf yn y farchnad hysbysebu fideo ar-lein, lle bu cynnydd o 24.6% ar gyfartaledd yn ystod cyfnod yr adolygiad.⁵⁸ Mae'r darlledwyr masnachol wedi cael rhywfaint o lwyddiant yn manteisio ar y galw hwn am hysbysebion

⁵⁸ IAB. Ar sail cyfradd twf blynyddol cyfansawdd pum mlynedd rhwng 2013 a 2018.

digidol. Mae data o adroddiadau cwmnïau yn dangos bod refeniw digidol⁵⁹ ar gyfer Corfforaeth Channel 4 wedi mwy na dyblu rhwng 2014 a 2018, o £62m i £138m, a bod refeniw hysbysebu ar-lein ITV plc drwy ITV Hub wedi tyfu 36% yn 2018.⁶⁰ Roedd refeniw hysbysebu STV drwy STV Player wedi cynyddu 39% yn 2018⁶¹ ac mae wedi cyhoeddi cytundebau partneriaeth â Hopster a Premier Sports er mwyn ychwanegu rhagor o gynnwys at y gwasanaeth, y tu hwnt i'w gynnig darlledu gwasanaeth cyhoeddus craidd.

Mae cyfanswm y refeniw gan wasanaethau VoD sy'n gysylltiedig â sianeli'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys ITV Hub, All 4 a My5 wedi helpu i wrthbwysu'r gostyngiad mewn refeniw gan sianeli teledu traddodiadol yn rhannol, fel y gwelir yn y ffigur blaenorol. Pan fyddwn yn cynnwys y refeniw ar-lein hwn â refeniw darlledu gan y prif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol a'u sianeli portffolio, roedd cyfanswm refeniw teledu ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn gostwng yn ôl cyfradd twf blynyddol cyfansawdd o 0.8% rhwng 2014 a 2018.

Mae cynlluniau eraill yn cynnwys gwella pa mor ddeniadol yw cynigion darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol i hysbysebwr drwy ddarparu hysbysebion wedi'u targedu a'u cyfeirio fwy, naill ai drwy addasu eu chwaraewyr ar-lein i gynnwys rhagor o hysbysebion wedi'u targedu neu drwy bartneriaethau rhwng llwyfannau a darlledwyr, fel cytundeb diweddar Channel 4 â Sky i ddefnyddio technoleg gosod hysbysebion Adsmart ar sianeli Channel 4.

Mae darlledwyr hefyd wedi cynyddu cyllid trydydd parti, fel rydym yn ei drafod yn gynharach yn yr adran hon, ac maent wedi ehangu eu gweithgareddau masnachol nad ydynt yn gysylltiedig â hysbysebu pan fo hynny ar gael (ac yn achos y BBC, ei is-gwmnïau masnachol). Er enghraifft, roedd refeniw uniongyrchol i'r defnyddwyr ar gyfer ITV (gan gynnwys incwm o gystadlaethau VoD rydych chi'n tanysgrifio iddynt, pleidleisio, digwyddiadau byw, gemau, nwyddau a thalu-i-wyllo) wedi cynyddu 25% o un flwyddyn i'r llall i £81m. Mae ITV hefyd wedi cynhyrchu incwm sylweddol o'i fusnes stiwdios, sy'n creu ac yn cynhyrchu cynnwys yn y DU ac yn rhyngwladol; cynyddodd refeniw o stiwdios ITV o £1.2bn yn 2015 i £1.7bn yn 2018.⁶² Wedi ei gyfuno gyda refeniw darlledu ac ar-lein mae rhandal ITV fesul cyfran wedi cynyddu o 4.7c i 8c rhwng 2014 a 2018.⁶³

Nid yw twf mewn refeniw o reidrwydd yn arwain at fwy o fuddsoddi mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae gan y darlledwyr sy'n gyfrifol am y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus fodelau busnes sy'n wahanol yn y bôn. Mae'r BBC yn cael ei ariannu'n gyhoeddus drwy ffi'r drwydded, ac mae elw y mae ei is-gwmnïau masnachol yn ei wneud yn ychwanegu at y refeniw. Mae Channel 4 yn ddarlledwr dim-er-elw sy'n berchen i'r cyhoedd, sy'n cael ei ariannu'n bennaf gan hysbysebion, ac mae ganddo gyfyngiadau penodol ar yr hyn mae'n ei wneud, er enghraifft, mae ganddo ei ganolfan gynhyrchu ei hun.⁶⁴ Mae gan S4C fodel cymysg o gyllid cyhoeddus ac arian hysbysebu, ac mae trwyddedeion Channel 3 (ITV ac STV) a Channel 5 yn cael eu hariannu'n gwbl fasnachol, yn bennaf drwy

⁵⁹ [Adroddiadau Blynyddol Channel 4](#). Mae refeniw digidol yn cynnwys refeniw hysbysebu a ffioedd y drwydded sy'n deillio o All 4 a llwyfannau trydydd parti eraill.

⁶⁰ [Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ITV 2018](#), tudalen 25.

⁶¹ [Canlyniadau Blwyddyn Lawn STV 2018](#).

⁶² [Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol ITV 2018](#), tudalen 30.


⁶³ [ITV Annual Report and Accounts 2018](#), tudaen 49.

⁶⁴ Mae Corfforaeth Channel 4 yn 'gyhoeddwr-ddarlledwr' felly mae'n comisiynu ac yn prynu ei raglenni gan drydydd parti, gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu annibynnol; mae gofynion comisiynu eraill, fel cynrychiadau sy'n cael eu creu y tu allan i Lundain, wedi'u nodi yn ei drwydded darlledu.

hysbysebion. Mae'r modelau busnes a pherchnogaeth amrywiol hyn, y blaenoriaethau amrywiol sy'n cyd-fynd â nhw, y strategaethau buddsoddi a'r rheolaethau rheoleiddiol yn golygu bod gwahaniaeth arwyddocaol yn y berthynas rhwng refeniw a lefelau buddsoddi mewn darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Mae'r gymhareb isaf o ran refeniw a gwariant ar gynnwys gan ITV (50% yn 2018) o blith yr holl brif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Byddai'r gymhareb hon yn lleihau fwy fyth pe byddem ni'n cynnwys incwm stiwdios ITV wrth gyfrifo'r refeniw. Ond, menter fasnachol yw ITV, felly efallai nad yw'n syndod fod gan y sefydliadau dim-er-elw, sef Channel 4 a'r BBC gymarebau uwch o ran refeniw a gwariant ar gynnwys (71% a 66% yn y drefn honno yn 2018) o gymharu ag ITV. Yn yr un modd, roedd cymhareb gwariant i refeniw cynnwys STV yn is na chymhareb Channel 4 a'r BBC, sef 55% yn 2018.⁶⁵ Mae Ffigur 18 isod yn dangos cyfanswm y gwariant ar raglenni ar gyfer y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel cyfran o'r refeniw (cyfanswm incwm hysbysebu a refeniw arall nad yw'n refeniw hysbysebu net).

Ffigur 18: Gwariant rhaglenni darlledu gwasanaeth cyhoeddus fel cyfran o'r refeniw darlledu ac ar-lein, yn ôl darlledwr



Ffynhonnell: Cyfrifon cwmni / ffurflenni darlledwyr Ofcom

Nodiadau

- Mae'r refeniw a'r gwariant wedi'u nodi mewn termau nominal
- Mae'r gwariant ar gyfer pob dydd a phob genre. Mae'n cynnwys yr holl wariant ar gynnwys rhwydwaith gan y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5. Mae hefyd yn cynnwys gwariant y BBC, stv, ITV ac UTV ar raglenni i wylwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a gwariant y BBC ar raglenni ar gyfer S4C a BBC Alba.
- Mae incwm teledu'r BBC yn seiliedig ar amcangyfrifon Ofcom o gyfanswm refeniw ffi'r drwydded sy'n cael ei wario ar wasanaethau sy'n berthnasol i'r teledu, fel cynnwys, dosbarthu a gwariant ar seilwaith, a chyfran o'r gorbenion sy'n weddill ar sail pro-rata.
- Refeniw ITV, C4 a C5 yn seiliedig ar NAR teledu yn unig ar gyfer y prif sianeli a sianeli portfolio heb fod yn rhai darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Ffynhonnell: Cyfrifon cwmni / ffurflenni darlledwyr Ofcom.

Nodiadau: Mae'r refeniw a'r gwariant wedi'u nodi mewn termau nominal.

Mae'r gwariant ar gyfer pob dydd a phob genre. Mae'n cynnwys yr holl wariant ar gynnwys rhwydwaith gan y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5. Mae hefyd yn cynnwys gwariant y BBC ac ITV ar raglenni i wylwyr yn y gwledydd a'r rhanbarthau, a gwariant y BBC ar raglenni ar gyfer S4C a BBC Alba. Mae incwm teledu'r BBC yn seiliedig ar amcangyfrifon Ofcom o gyfanswm refeniw ffi'r drwydded sy'n cael ei wario ar wasanaethau sy'n berthnasol i'r teledu, fel cynnwys, dosbarthu a gwariant ar seilwaith, a chyfran o'r gorbenion sy'n weddill ar sail pro-rata.

⁶⁵ Adroddiad a Chyfrifon Blynnyddol STV

Mae sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod wrth galon sector cynhyrchu annibynnol sy'n ffynnu

Er gwaethaf y gostyngiad mewn gwariant darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, dros y tymor hir, fel sy'n cael ei ddisgrifio uchod, mae comisiynau gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i fod yn hanfodol ar gyfer sector cynhyrchu annibynnol iach a ffyniannus yn y DU. Mae dyletswyddau rheoleiddio sydd ar wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gomisiynu o leiaf 25% o oriau rhwydwaith sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf (heb gynnwys newyddion) gan gynhyrchwyr annibynnol cymwys⁶⁶ yn cefnogi hyn, ac yn cyfrannu at luosogrwydd ffynonellau cynhyrchu yn y DU. Mae pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus wedi rhagori ar y cwota hwn yn ystod pum mlynedd yr adolygiad, fel sy'n cael ei adrodd yn [adroddiadau cydymffurfio blynyddol Ofcom ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus](#).

Yn ôl cyfrifiad blynyddol Pact o gynhyrchwyr annibynnol, mae reffeniw teledu domestig (sy'n cynnwys comisiynau gan sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn bennaf, ond sydd hefyd yn cynnwys portffolio masnachol darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol a darlledwyr eraill yn y DU) yn parhau i gynrychioli'r rhan fwyaf o gyfanswm reffeniw'r sector cynhyrchu.⁶⁷

Mae twf cadarn yn y sector cynhyrchu yn y DU wedi cael ei sbarduno gan reffeniw teledu rhyngwladol, a oedd yn cynnwys cyfradd twf blynyddol cyfansawdd o 18.7% rhwng 2014 a 2018.⁶⁸ Mae'r twf hwn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan wasanaethau SVoD byd-eang sy'n comisiynu mwy o gynnwys gwreiddiol gan gynhyrchwyr yn y DU, ar eu pen eu hunain a thrwy gyd-gynyrchiadau gyda darlledwyr y DU. Cynyddodd incwm o waith comisiynu SVoD yn rhyngwladol 87% rhwng 2017 a 2018 i £280 miliwn, sef 40% o'r holl incwm comisiynu rhyngwladol.⁶⁹ Mae gweithgareddau diweddar Netflix, gan gynnwys prynu stiwdios Pinewood a chyflogi gweithwyr allweddol yn y DU yn dangos ei fod yn bwriadu parhau i gynhyrchu mwy a mwy yn y DU.

⁶⁶ Cwmni heb fod ynghlwm wrth ddarlledwr yn y DU drwy gydberchnogaeth arwyddocaol yw cwmni cynhyrchu annibynnol cymwys. Mae Gorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Annibynnol) 1991 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi'r canlynol am gynhyrchydd annibynnol: (i) nid yw wedi'i gyflogi gan ddarlledwr; (ii) nid oes ganddo gyfranddaliad sy'n fwy na 25% mewn darlledwr yn y DU; neu (iii) nid oes gan yr un darlledwr yn y DU gyfranddaliad sy'n fwy na 25% neu nad oes gan unrhyw ddau neu ragor o ddarlledwyr yn y DU gyfranddaliad o fwy na 50% gyda'i gilydd.


⁶⁷ Oliver & Ohlbaum Associates, 2019. [Cyfrifiad Teledu Pact yn y DU 2019](#), tudalen 9

⁶⁸ Oliver & Ohlbaum Associates, 2019. [Cyfrifiad Teledu Pact yn y DU 2019](#), tudalen 9.

⁶⁹ Oliver & Ohlbaum Associates, 2019. [Cyfrifiad Teledu Pact yn y DU 2019](#), tudalen 3.

Ffigur 19: Cyfanswm refeniw'r sector cynhyrchu, yn ôl ffynhonnell incwm (£m): 2014-2018

Refeniw'r sector cynhyrchu: cyfrifiad Pact



Ffynhonnell: [Cyfrifiad Teledu Pact yn y DU 2019](#). Mae refeniw nad yw'n dod o deledu yn cynnwys cynyrchiadau corfforaethol, cyfryngau newydd a gweithgareddau eraill nad ydynt yn weithgareddau teledu, fel cyhoeddi ar-lein, rheoli talent, hyrwyddo, cysylltiadau cyhoeddus a ffilmiau nodwedd.

Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, mae'r berthynas rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r sector cynhyrchu ledled y DU yn bwysig i iechyd economi greadigol ehangach y DU. Fodd bynnag, mae'n berthynas sy'n esblygu i adlewyrchu'r newidiadau sylweddol yn yr ymddygiad gwyllo ac yn y farchnad ehangach. Er enghraifft, cyhoeddodd Corfforaeth Channel 4 a chorff y diwydiant cynhyrchu, Pact, ym mis Mehefin 2019 eu bod wedi llofnodi cytundeb Telerau Masnach newydd ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol. Mae'r cytundeb yn golygu mai cynhyrchwyr fydd yn berchen ar refeniw eilaidd yn llwyr ac yn ei reoli'n llawn ar ôl i dymor y drwydded ddod i ben. Mae'n rhoi rhyddid i Channel 4 ddefnyddio rhaglenni ar draws ei lwyfannau heb negodi hawliau pellach gyda chynhyrchwyr. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo cynaliadwyedd gwneuthurwyr rhaglenni ac yn arwain at fwy o hyblygrwydd i ddarlledwyr sicrhau bod cynnwys ar gael yn eang. Bydd ein rhaglen waith ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr yn rhoi cyfle i lunwyr polisïau a'r diwydiant i edrych ar sut gallai rôl darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn yr economi greadigol ehangach barhau i esblygu yn ystod y degawd nesaf a'r tu hwnt.

5. Darlledu gwasanaeth cyhoeddus a rôl marchnad cyfryngau ehangach y DU

Yn yr adran flaenorol, roeddem yn ystyried sut mae'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi cyflawni eu cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus, yn ogystal â chyfraniad eu gwasanaethau cysylltiedig, gan gynnwys sianeli portffolio a gwasanaethau ar-alw. Mae'r adran hon yn ystyried sut mae gwasanaethau cyfryngau eraill, gan gynnwys darlledwyr masnachol, radio, gwasanaethau ar-alw eraill a gwasanaethau ar-lein, wedi cyfrannu at yr amcanion gwasanaeth cyhoeddus.⁷⁰

Mae gwasanaethau cyfryngau yn categori eang, ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o wasanaethau darlledu, ar-lein a thestun.⁷¹ Mae'r gwasanaethau'n amrywio'n sylweddol o ran pa gynnwys maent yn ei ddarparu, y cynulleidfaoedd maent yn eu cyrraedd a lefel y rheoleiddio sy'n berthnasol iddynt. Rydym wedi canolbwyntio ar wasanaethau cyfryngau sy'n cael eu defnyddio'n eang a'u rheoli'n olygyddol. Rydym hefyd wedi cynnwys gwasanaethau cynnwys ar-lein allweddol a llwyfannau rhannu fideos (VSPs) fel YouTube hefyd, o gofio pa mor boblogaidd yw'r gwasanaethau hyn.

Gwasanaethau teledu amlsianel

Mae'r sector amlsianel yn cynnwys yr holl sianeli teledu sy'n cael eu darlledu nad ydynt yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus na'u sianeli portffolio masnachol cysylltiedig. Mae'r sector yn cynnwys sianeli fel sianeli UKTV, Dave a Sky One, ac mae'n cynnwys cymysgedd o sianeli am ddim a sianeli drwy dalu (hynny yw, sianeli sydd ond ar gael fel rhan o becynnau teledu drwy dalu gan Sky, Virgin neu BT). Mae gwasanaethau ar-alw ac ar-lein yn ategu rhai o'r sianeli hyn hefyd. Mae'r sector hefyd yn cynnwys sianeli teledu lleol sy'n cyflawni dyletswyddau rheoleiddio penodol ar gyfer darparu cynnwys a newyddion lleol.

Rhaid i bob gwasanaeth teledu sy'n cael ei ddarlledu gydymffurfio â safonau rheoleiddio cyffredinol, sydd wedi'u nodi yn y Cod Darlledu. Mae hyn yn golygu y gall cynulleidfaoedd ddisgwyl cynnwys newyddion cywir a diduedd, a chael eu gwarchod rhag cynnwys sy'n niweidiol neu'n sarhaus.⁷²

⁷⁰ Dyma'r ail Adolygiad darlledu gwasanaeth cyhoeddus lle rydym wedi ystyried cyfraniad y farchnad cyfryngau ehangach i'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus. Cafodd dyletswydd Ofcom i ystyried 'gwasanaethau cyfryngau' ehangach ei sefydlu yn Neddf yr Economi Ddigidol 2010.

⁷¹ Mae cynulleidfaoedd yn cael amrywiaeth o fanteision personol a chymdeithasol drwy ddefnyddio peiriannau chwilio, gwasanaethau e-bost, llwyfannau e-fasnach a chyfathrebu testun ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â'r dewis helaeth o wefannau ac apiau eraill. Ond, at ddibenion yr adolygiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar ddarlledwyr masnachol, gwasanaethau VSP a chynnwys ar-lein ac SVoD sylweddol yn ogystal â gwasanaethau radio, podlediadau llafar a darparwyr newyddion ar-lein.

⁷² Mae'r Cod Darlledu a'r wybodaeth am reolau safonau cysylltiedig i'w gweld ar [wefan Ofcom](#).

Y prif ganfyddiadau ynghylch cyfraniad gwasanaethau amlsianel at amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus:

- Mae gwasanaethau teledu amlsianel yn cynnig amrywiaeth eang o gynnwys ac ystod o wasanaethau, gan gynnwys sianeli newyddion, crefydd a chwaraeon penodol, sy'n cyfrannu at yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, ychydig iawn o wylwyr y mae rhai genres a amlygwyd yn yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn eu cael, fel addysg, crefydd a cherddoriaeth.
- Mae cynulleidfau gwasanaethau teledu amlsianel yn dueddol o wro tuag at gynulleidfau hŷn yn gyflymach na chynulleidfau sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Ond, mae cyfran uchel o'r gwylwyr yn dal i fod yn gynulleidfaoedd iau a lleiafrifoedd ethnig.
- Er bod gwariant gwasanaethau amlsianel ar gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf wedi cynyddu yn ystod y cyfnod, roedd bron i 90% o'r gwariant ar gynnwys chwaraeon. Mae gwariant ar ddrama a chomedi wedi cynyddu, o bosibl mewn ymateb i boblogrwydd y genres hyn ar wasanaethau SVoD. Ond, mae gwariant ar gynnwys plant gwreiddiol o'r DU wedi gostwng dros y cyfnod.

Mae'r sector amlsianel yn cyfrannu at yr amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol sydd ar gael i gynulleidfaoedd yn y DU


Mae darlledwyr yn y sector amlsianel yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys o'r DU a chynnwys rhyngwladol i gynulleidfaoedd. Yn 2018, roedd tua 370 o sianeli'n darlledu i'r DU, ac roedd 92 o'r rhain ar gael am ddim.⁷³ Mae tua 28% o'r sianeli am ddim yn y genre adloniant, ac mae'r sector teledu drwy dalu yn darparu amrywiaeth ehangach o sianeli sy'n fwy penodol o ran genre. Yn ogystal â sianeli arbenigol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer chwaraeon, mae darpariaeth teledu drwy dalu'n cynnwys rhai genres nad oes ganddynt ddarpariaeth sylweddol ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn sylweddol, fel sianeli a dargedir at grwpiau crefyddol ac ethnig penodol, a sianel Sky yn arbennig ar gyfer y celfyddydau, sef Sky Arts.

Mae'r sector amlsianel hefyd yn darparu nifer o sianeli newyddion, sy'n ategu darpariaeth newyddion y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Sky News sy'n cyfrannu fwyaf at y cynnwys newyddion sydd ar gael yn rhwydd, yn arbennig yng nghyswllt cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU. Dyma'r sianel fwyaf arwyddocaol hefyd o ran cyrhaeddiad a chyfran cynulleidfa. Mae Freesat, y gwasanaeth lloeren am ddim, hefyd yn darparu sianeli newyddion rhyngwladol i wylwyr, fel CNBC a CNN International, ac mae teledu drwy dalu yn darparu nifer o sianeli newyddion sy'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd sydd â diddordebau penodol.

⁷³ Mae nifer y sianeli am ddim wedi bod yn sefydlog dros y cyfnod a bu gostyngiad bychan iawn yn nifer y sianeli teledu drwy dalu sydd ar gael, gyda 299 yn 2014 a 278 yn 2018.

Ffigur 20: Nifer y gwasanaethau amlsianel masnachol: 2018

Nifer y gwasanaethau aml-sianel masnachol yn 2018



Ffynhonnell: Ofcom. Nodiadau: Mae data yn seiliedig ar nifer y sianeli sy'n darlledu yn y DU yn ystod 2018. Mae hyn yn ei dro yn seiliedig ar yr oriau darlledu a gyflwynir gan ddarlledwyr trwyddedig Ofcom. Caiff sianeli am ddim eu diffinio fel sianeli sydd ar gael ar Freeview a Freesat. Mae 'arall' yn cynnwys sianeli siopa, oedolion, y celfyddydau a gemau, yn ogystal â sianeli 'cyffredinol' heb genre penodol. Nid yw'r cyfrifon yn cynnwys amrywiadau +1 na HD y sianeli, ac nid ydynt yn cynnwys sianeli portffolio'r BBC.

Mae'r sector amlsianel wedi cynyddu ei ddarpariaeth o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf, yn enwedig ym maes newyddion a chwaraeon

Mae nifer yr oriau o gynnwys gwreiddiol o'r DU sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn y sector amlsianel wedi cynyddu yn ystod cyfnod ein hadolygiad.⁷⁴ Roedd yr oriau a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf wedi codi o 17,666 i 22,867 rhwng 2014 a 2018. Roedd darparwyr teledu drwy dalu Sky a BT yn cyfrif am fwy na 90% o'r holl oriau gwreiddiol a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf yn ystod y cyfnod. Yn 2018, neilltuwyd 32% o gyfanswm yr oriau i newyddion, a 59% i chwaraeon. Mae hyn yn cyfrannu at yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, sef cefnogi trafodaeth wybodus a sicrhau bod amrywiaeth eang o chwaraeon ar gael i gynulleidfaoedd. Fodd bynnag, ar wahân i Sky News, nid yw llawer o'r cynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf gan y sector amlsianel ar gael i bob cynulleidfa, gan mai dim ond ar sianeli teledu drwy dalu y maent ar gael.

Mae Sky hefyd wedi cynyddu'r ddarpariaeth chwaraeon ar ei sianeli drwy dalu ers 2014, ac ers i BT Sport ymddangos yn 2013 fel cystadleuydd i Sky, mae wedi cynyddu nifer yr oriau o raglenni chwaraeon sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a'u cynhyrchu yn y DU.⁷⁵

Hefyd, nid yw'r genres lle rydym wedi mynegi pryder yn flaenorol ynghylch faint sy'n cael ei ddarparu ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ymddangos yn uchel yn yr oriau o gynnwys newydd, gwreiddiol o'r DU sydd gan y sector amlsianel. Roedd y genres ffeithiol, y celfyddydau a

⁷⁴ Fe wnaethom gasglu data am gynnyrch sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf a gwariant sefydliadau sy'n gweithredu o leiaf un sianel sy'n cael dros 0.2% o gyfran y gynulleidfa yn 2018, yn ogystal ag unrhyw ddarlledwr a oedd yn gweithredu o leiaf un sianel ar gyfer plant.

⁷⁵ Pan fyddwn ni'n cyfeirio at 'raglenni o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf' yma, nid ydym yn cynnwys rhaglenni sydd wedi cael eu darlledu y tu allan i'r DU yn flaenorol. Mae hyn yn golygu na fydd cynnwys sy'n cael ei gynhyrchu'n rhyngwladol yn cael ei gynnwys yma, oni bai ei fod wedi'i fwriadu ar gyfer cynulleidfa yn y DU ac na fydd yn cael ei ddangos mewn tiriogaeth arall yn gyntaf.

phlant gyda'i gilydd yn cyfrif am lai na 3% o'r oriau gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf yn y sector amlsianel yn ystod cyfnod yr adolygiad, er bod y ffigur hwn yn cael ei ategu gan aildarlllediadau a chynnwys rhyngwladol.

Ffigur 21: Oriau gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar wasanaethau amlsianel



Ffynhonnell: Ofcom/darllledwyr. Yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf ar gyfer AETN UK, AMC Networks, BT, Columbia Pictures, Discovery, Disney/Fox Networks Group, Sky UK/NBC Universal International, Talking Pictures TV, Turner, UKTV a Viacom.

Mae cost drama a chomedi wedi tyfu'n sylweddol

Fel y disgrifiwyd yn yr adran flaenorol, mae drama a chomedi yn bwysig wrth gyflawni darlledu gwasanaeth cyhoeddus gan eu bod yn diddanu cynulleidfaoedd ac yn gallu adlewyrchu bywydau, diwylliant a hiwmor y DU. Mae darpariaeth y genres hyn wedi cael eu cynnal ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar y cyfan, ond maent hefyd yn allweddol o ran ysgogi pobl i fanteisio ar wasanaethau ar-alw a'u defnyddio. Er bod y rhan fwyaf o wariant y gwasanaethau amlsianel yn ystod cyfnod yr adolygiad wedi bod ar chwaraeon (a oedd yn cyfrif am 88% o'r holl wariant ar raglenni a oedd wedi cael eu dangos am y tro cyntaf yn 2018), bu cynnydd sylweddol yn y gwariant ar ddrama a chomedi ers 2014.

Cynyddodd gwariant y gwasanaethau amlsianel ar gynnwys comedi gwreiddiol o sylfaen isel o £921,000 yn 2014 i £11.4m yn 2018, ac roedd gwariant ar gynnwys drama wedi codi ar gyfradd o 34% ar gyfartaledd yn ystod yr un cyfnod. Roedd yr olaf wedi cael ei ysgogi'n arbennig gan Sky yn gwario mwy ar ddrama yn 2015 ac yn cynnal y gwariant hwn yn y blyneddoddi dilynol.⁷⁶ Mae Sky wedi ymrwymo'n benodol i ddyblu ei wariant ar gynnwys gwreiddiol - a oedd tua £500m y flwyddyn ym mis Gorffennaf 2018 - dros y pum mlynedd nesaf. Mae cyhoeddiadau diweddar ynghylch buddsoddi yn awgrymu bod y patrwm gyda dramâu o safon uchel yn debygol o barhau, gyda [Sky yn buddsoddi mewn stiwdio newydd yn Elstree](#) a [Netflix yn creu canolfan gynhyrchu yn Shepperton Studios](#).

⁷⁶ Mae'n bosibl fod y cyllid a gafwyd gan [raglen rhyddhad treth teledu o safon uchel](#) CThEM wedi cyfrannu at y cynnydd mewn gwariant a'r gwariant fesul awr ar gyfer y genre.

Yn 2018, gwariodd gwasanaethau amlsianel lai ar ddramâu a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, er bod eu gwariant bob awr yn uwch. Cynyddodd costau drama fesul awr yn y sector amlsianel, gan gynnwys gwariant trydydd parti, yn ddramatig yn ystod cyfnod ein hadolygiad i £1.9m yr awr yn 2018, i fyny o £1m yn 2014. Mae hyn yn gyson â gwariant cynyddol darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar ddrama, a gynyddodd o £1.1m i £1.7m yr awr yn ystod yr un cyfnod.

Mae gwariant gwasanaethau amlsianel ar gynnwys sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf yn y DU ar draws genres eraill wedi cynyddu yn y blynyddoedd diweddar hefyd; yn arbennig cynnwys ffeithiol ac adloniant, er bod hyn yn bennaf ar gynnwys y tu ôl i wal dalu. Er hynny, mae'r buddsoddiad hwn mewn cynnwys o'r DU yn cyfrannu at iechyd cyffredinol sector cynhyrchu'r DU. Mae'n werth nodi bod gwariant ar gynnwys i blant i'w ddangos am y tro cyntaf wedi gostwng ar gyfradd twf blynyddol cyfansawdd o 27% ers 2014. Mae'n debyg fod hyn oherwydd bod y sector amlsianel yn canolbwyntio mwy ar gynnwys plant sy'n cael ei gynhyrchu gan gwmnïau rhyngwladol.

Mae'r unigolion sy'n gwylio gwasanaethau amlsianel yn dueddol o fod yn hŷn, ond mae demograffeg pobl iau a lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am gyfran uwch o'r gynulleidfa nag ar gyfer y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae cyfran gyffredinol lefelau gwylio gwasanaethau amlsianel wedi aros yn sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf. Yn 2018, roedd cyfran lefelau gwylio gwasanaethau amlsianel yn 29%; cynnydd o un pwynt canran ers 2014, a dau bwynt canran ers 2009. Fodd bynnag, yn debyg iawn i'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, mae cynulleidfaoedd gwasanaethau amlsianel wedi gwro'n hŷn yn raddol ers 2014. Mae'r symudiad hwn wedi bod yn fwy amlwg ar gyfer gwasanaethau amlsianel nag ar gyfer darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chyfran y gwylwyr dros 55 oed yn cynyddu o 34% yn 2014 i 47% yn 2018, o'i gymharu â chynnydd o 51% i 58% ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Er gwaethaf y patrwm o ostyngiad yn nifer y gwylwyr iau dros gyfnod yr adolygiad, mae cenedlaethau iau yn dal i gynrychioli cyfran ychydig yn uwch o gynulleidfaoedd amlsianel o gymharu â gwylwyr darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Gan edrych ar blant yn benodol, roedd 8% o gynulleidfa gwasanaethau amlsianel yn 2018 yn cynnwys pobl ifanc o dan 16 oed, o'i gymharu â 5% o gynulleidfaoedd darlledu gwasanaeth cyhoeddus a 5% o wylwyr portffolio darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol. Mae hyn yn cynnwys gwylio sianeli arbennig ar gyfer plant fel Cartoon Network a Pop, ac unigolion o dan 16 oed yn gwylio sianeli ffilmiau a Sky One.

Mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cynrychioli cyfran uwch o gynulleidfaoedd gwasanaethau amlsianel na chynulleidfaoedd sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus (12% o'i gymharu â 7% yn 2018). Mae'n bosibl fod hyn oherwydd bod sianeli teledu drwy dalu yn cael eu hanelu'n benodol at y grwpiau hyn. Fodd bynnag, mae'r cydbwysedd wedi newid ers 2014. Roedd grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn cynrychioli 15% o gynulleidfaoedd y sector amlsianel bryd hynny. Nid yw cyfansoddiad y gynulleidfa yn ôl ethnigrwydd ar gyfer gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi newid ers 2014.

Ychydig iawn o newid oedd yng nghyfansoddiad economaidd-gymdeithasol y gynulleidfa amlsianel; yn 2018 roedd 57% o'r gynulleidfa yn y grwpiau C2DE⁷⁷ – yn debyg iawn i 2014. Fodd bynnag, mae cyfran yr unigolion DE wedi codi ychydig, o 34% o'r holl unigolion yn 2014 i 36% yn 2018. Mewn cyferbyniad â hynny, mae'r gynulleidfa economaidd-gymdeithasol ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi lefelu yn ystod cyfnod ein hadolygiad, gyda chyfran yr unigolion C2DE yn gostwng yn raddol o 52% yn 2014 i 50% yn 2018.

Ffigur 22: Cyfran yr amser gwyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu



Ffynhonnell: BARB. Mae'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys amrywiadau HD o'u sianeli, ond ddim yn cynnwys eu sianeli +1.

Nid yw cynulleidfaoedd y genres sy'n gwyllo ar sianeli heb fod yn sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi newid yn sylweddol rhwng 2014 a 2018. Rhaglenni dogfen (heblaw am raglenni gwyddoniaeth a byd natur) sy'n parhau i fod y genre mwyaf poblogaidd ers 2014, sef 14% o'r gwyllo. Yna, drama heb fod o'r DU (10%), adloniant (10%), chwaraeon (10%) a ffilmiau nad ydynt o'r DU (8%). Mae chwaraeon wedi gostwng i'r pedwerydd safle, o'r ail safle yn 2014, er gwaethaf cynnydd mewn oriau dros y cyfnod.


Yn unol â'r tueddiadau cyffredinol rydym wedi sylwi arnynt ymysg y rhai sy'n gwyllo rhaglenni plant (yn symud fwyfwy at wasanaethau ar-lein ac ar-alw), disgynnodd rhaglenni plant allan o'r rhestr o'r pum genre mwyaf poblogaidd yn 2015 ac mae lefelau'r gwyllo ar gyfer y genre hwn wedi gostwng i 44% rhwng 2014 a 2018. Mae ffilmiau a dramâu heb fod o'r DU, genres sy'n boblogaidd ar wasanaethau SVoD, hefyd wedi gweld dirywiad. Mae lefelau gwyllo dramâu'r DU wedi codi yn ystod y cyfnod, ac mae cynulleidfaoedd rhaglenni gwyddoniaeth a byd natur wedi cynyddu. Fodd bynnag, mae lefelau gwyllo'r genres hyn yn dal yn sylweddol is na'r lefelau gwyllo ar sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Mae'r pum genre sy'n cael ei wyllo leiaf ar y gwasanaethau amlsianel wedi aros yr un fath ers 2014, ac maent yn cynnwys nifer o genres sy'n cael eu hamlygu yn yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus statudol: darllediadau gwleidyddol pleidiau, addysg, y tywydd, crefydd a newyddion

⁷⁷ Gradd gymdeithasol-economaidd neu gymdeithasol yw'r dosbarthiad cymdeithasol 'cyffredin' y mae'r diwydiant hysbysebu yn ei defnyddio wrth farchnata, hysbysebu ac ymchwilio i'r farchnad. Mae C2DE yn cyfeirio at y cartrefi hynny lle mae'r prif enillydd incwm yn gweithio naill ai fel gweithiwr llaw, gweithiwr achlysurol neu weithiwr ar raddfa isaf, yn ddi-waith ac yn cael budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig neu'n byw ar bensiwn y wladwriaeth yn unig.

rhanbarthol. Mae lefelau gwyllo'r genres cerddoriaeth a'r celfyddydau wedi gostwng tua 50% yn ystod y cyfnod. Mae lefelau gwyllo materion cyfoes wedi bod yn gymharol sefydlog ond mae'n dal yn isel o'i gymharu â darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

Ffigur 23: Y genres sy'n cael eu gwyllo amlaf ar wasanaethau amlsianel o gymharu â'r pum sianel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Munudau fesul person, y flwyddyn, unigolion (4 oed a hŷn)




Ffynhonnell: BARB, unigolion 4 oed a hŷn. Mae lefelau gwyllo amlsianel yn cynnwys gwyllo genres ar bob sianel heb gynnwys sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'u sianeli portffolio. Y genres mwyaf poblogaidd, yn ôl eu trefn yn 2018. Mae'r pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys eu sianeli +1. I gael gwybodaeth am genre ac i weld rhestr lawn o'r 'holl genres eraill' [ewch i'r adroddiad data rhwyngweithiol](#)

Mae gwasanaethau amlsianel yn ehangu eu cynnig ar-alw er mwyn ceisio cael mwy o gynulleidfaoedd

Er bod YouTube, Netflix ac Amazon Prime Video wedi bod yn gyfrifol am lawer o'r symud tuag at wyllo ar-alw yn y DU, mae gwasanaethau amlsianel wedi chwarae rhan bwysig yn hyn hefyd. Mae Sky wedi bod yn arwain yn y maes hwn, Mae wedi cynyddu'r hyn sydd ganddo i'w gynnig ar-alw i'w danysgrifwyr teledu drwy dalu ers 2006, ar ffurf Sky On-Demand (ar flychau pen-set), a Sky Go (ar ddyfeisiau eraill wedi'u cysylltu). Yn ogystal â gallu gwyllo cynnwys ar sianeli Sky ei hun ar-alw, mae'r gwasanaethau hyn yn golygu eich bod chi'n gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o sianeli tanysgrifio trydydd parti hefyd. Mae'r gwasanaethau hyn yn ychwanegol at wasanaeth SVoD annibynnol Sky, sydd wedi gweld twf graddol dros gyfnod yr adolygiad. Mae darlledwyr amlsianel eraill hefyd wedi arallgyfeirio eu dosbarthiad gyda chwmnïau ar-lein sy'n cael eu hariannu gan hysbysebwy, sef UKTV, a lansiodd UKTV Play yn 2014, a Discovery, a lansiodd ei wasanaeth ffrydio rhaglenni ffeithiol arbenigol yn ddiweddar, sef QuestOD.

Mae cynulleidfaoedd yn gwylio amrywiaeth o genres ar y gwasanaethau ar-alw hyn, gan gynnwys y rheini sy'n cyd-fynd ag amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn 2018 roedd dramâu, rhaglenni plant, rhaglenni ffeithiol a rhaglenni newyddion yn cyfrif am 61% o gyfanswm y ceisiadau am raglenni ar wasanaethau ar-alw cwmnïau amlsianel, o'i gymharu â 65% o gyfran ar gyfer yr un genres ar wasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-alw. Cynyddodd cyfanswm y ceisiadau am wasanaethau BVoD darparwyr amlsianel 5.1% o un flwyddyn i'r llall yn 2018, gan gyrraedd 2.13 biliwn, o'i gymharu â chynnydd o 9% mewn ceisiadau gan gwmnïau darlledu gwasanaeth cyhoeddus, i 6.3 biliwn.

Ffigur 24: Ceisiadau ar-alw gwasanaethau amlsianel, yn ôl genre



Ffynhonnell: Ofcom/darlledwyr. Mae'n cynnwys ceisiadau am raglenni i Discovery (QuestOD), Disney (drwy wasanaethau ar-alw, heblaw am Disney Life), Sky (drwy lwytho i lawr ar flychau pen-set ac o fis Medi 2016 drwy Sky Go, ond heb gynnwys Now TV) ac UKTV Player. Mae'r data a ddarperir gan Sky yn ymwneud â rhaglenni a lwythwyd i lawr yn llwyddiannus ar wasanaethau Sky, ac nid yw'n cynnwys ceisiadau a wneir drwy apiau trydydd parti sydd ar gael ar wasanaethau Sky, fel Netflix.

Mae gwasanaethau ar-alw ac ar-lein y sector amlsianel hefyd yn golygu bod eu cynnwys yn cyrraedd cynulleidfaoedd teledu nad ydynt yn defnyddio gwasanaeth teledu drwy dalu. Fel y crybwyllwyd uchod, mae UKTV Play a QuestOD yn cael eu hariannu gan hysbysebwr ac felly maent am ddim. Mae gwasanaeth annibynnol SVoD Sky, Now TV, yn ddewis rhatach na'i wasanaethau teledu drwy dalu, sy'n golygu bod ei raglenni ar gael yn fwy rhwydd. Er nad yw holl gynnwys y sector ar gael yn gyffredinol, mae'n dal i chwarae rôl bwysig o ran ehangu dewis ar gyfer cynulleidfaoedd a chefnogi diwydiant cynhyrchu amrywiol yn y DU.

Gwasanaethau fideo ar-alw drwy danystrifio (SVoD)

Un newid mawr yn y byd teledu ers ein hadolygiad diwethaf o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yw'r twf mewn gwasanaethau fideo ar-lein, ac mae fideo ar-alw drwy danystrifio (SVoD) yn elfen fawr o hyn. Mae bron i hanner holl gartrefi'r DU nawr yn tanystrifio i o leiaf un o'r rhain - Netflix, Amazon

Prime Video neu Now TV⁷⁸ - ac roedd y rhai a oedd yn tanysgrifio yn gwylio 82 munud o unrhyw un o'r gwasanaethau hyn ar gyfartaledd bob dydd yn ystod Ch1 2019.⁷⁹

Gall gwasanaethau SVoD gyfrannu at gyflawni amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus penodol, fel cynnwys sy'n cefnogi diwylliant y DU, rhaglenni gwreiddiol i blant a rhaglenni addysgol. Fodd bynnag, mae safonau rheoleiddio gwahanol yn berthnasol i wasanaethau SVoD o gymharu â darlledu. Mae'r rheolau o ran safon cynnwys yn fwy cyfyngedig, ond mae gwasanaethau SVoD yn gorfod cydymffurfio â rheolau sy'n amddiffyn plant; yn atal cymhelliant i gasineb; ac yn cyfyngu ar osod cynnyrch a nawdd mewn rhaglenni. Fodd bynnag, mae sawl elfen o'r rheolau rheoleiddio sy'n berthnasol i sianeli darlledu, fel yr angen am ddidueddrwydd dyladwy a chywirdeb mewn newyddion, nad ydynt yn berthnasol i'r gwasanaethau ar-lein hyn.⁸⁰

Y prif ganfyddiadau ynghylch cyfraniad SVoD at amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus:

- Cynulleidfaoedd iau sy'n bennaf gyfrifol am boblogrwydd SVoD, ond mae amrywiaeth y cynnwys y mae cynulleidfaoedd yn ei wyllo ar y gwasanaethau hyn yn fwy cyfyngedig nag ar y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.
- Mae drama yn gyfrifol am fwy na hanner catalogau a lefelau gwylio'r prif SVoDs, er bod yr oriau heb eu sgriptio wedi cynyddu a bod gwasanaethau arbenigol yn dod i'r farchnad. Mae rhaglenni dogfen a materion cyfoes ar gael, ond nid yw SVoDs yn cynnig rhaglenni newyddion.
- Mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys yn cael ei gynhyrchu yn yr Unol Daleithiau, gyda'r rhan fwyaf o gynnwys y DU yn dod gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, er bod disgwyl rhagor o fuddsoddiad gan wasanaethau SVoD mewn cynrychiadau gwreiddiol o'r DU yn ystod y blynyddoedd nesaf.
- Mae SVoDs fel Netflix wedi ysgogi'r galw am ddrama o safon uchel, ac mae hyn wedi mynd drosodd i'r farchnad ehangach, gyda chost y genre fesul awr yn codi, a gwariant darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac amsianel yn codi hefyd.
- Mae llawer o wylwyr yn credu bod cyflwyno gwasanaethau SVoD wedi arwain at wella ansawdd rhaglenni teledu yn gyffredinol.

Cynulleidfaoedd iau sydd wedi ysgogi twf gwasanaethau SVoD yn y DU

Mae cwmnïau SVoD mawr y DU wedi dod yn boblogaidd yn gyflym iawn, ac mae cyrhaeddiad gwasanaethau ar-alw darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi bod yn weddol lefel.⁸¹ Mae'r cyferbyniad hwn yn fwy trawiadol byth o ran gwylio. Yn 2018 roedd unigolion yn y DU wedi gwylio 26 munud o

⁷⁸ Arolwg sefydlu BARB Ch3 2019

⁷⁹ Ymysg yr ymatebwyr a holwyd sy'n defnyddio o leiaf unrhyw un o'r canlynol: Netflix, Amazon Prime Video neu NOW TV. Traciwr SVoD GfK. [Gweler yr adroddiad ar ddata rhyngweithiol.](#)

⁸⁰ Heblaw na chaiff gwasanaethau SVoD gynnwys newyddion a noddir. Mae'r safonau rheoleiddio a ddisgrifir uchod yn berthnasol i wasanaethau SVoD o dan awdurdodaeth y DU neu awdurdodaeth aelod-wladwriaeth yn yr UE.


⁸¹ Wrth i wasanaethau fideo ar-lein dyfu ac esblygu'n gymharol ddiweddar, dyddiau cynnar yw hi o ran mesur y gwasanaethau hyn o hyd, ac nid yw rhai yn cwmpasu cyfnod yr adolygiad i gyd o rhwng 2014 i 2018. Pan fo'n bosibl, mae data sy'n cwmpasu'r cyfnod adolygu wedi cael ei gynnwys, ond mewn rhai achosion dim ond dadansoddiad yn ymwneud â chyfnod mwy diweddar sydd ar gael. Oherwydd y twf cyflym yn y farchnad fideos ar-lein, rydym hefyd wedi ystyried rhywfaint o ddata ar gyfer 2019 i roi darlun mwy cyflawn o ble mae'r farchnad yn sefyll.

SVoD ar gyfartaledd y diwrnod, i fyny o 18 munud yn 2017, ac 8 munud o BVoD, i lawr o 9 munud yn 2017.⁸²

Mae gwasanaethau SVoD wedi bod yn arbennig o effeithiol wrth ennyn diddordeb cynulleidfaoedd iau, gyda 72% o gartrefi gydag unigolion 16-34 oed yn tanysgrifio i o leiaf un gwasanaeth⁸³; roedd unigolion 16-34 oed yn gwyllo 52 munud o SVoD ar gyfartaledd yn 2018 a 10 munud o BVoD. Canfu ymchwil gan Kids Insight yn H1 2019 mai Netflix oedd y llwyfan teledu a oedd yn cael ei ddefnyddio amlaf gan blant, gyda 58% o unigolion 3-17 oed yn ei ddefnyddio. Roedd cyfran debyg o blant yn gwyllo Amazon Prime Video (29%) a BBC iPlayer (32%), ond roedd cyrhaeddiad ITV Hub (14%), All 4 (7%) a My5 (7%) yn llawer is.⁸⁴

5.1

Ffigur 25: Gwasanaethau fideo ar-lein a ddefnyddiwyd yn ystod y mis diwethaf



Ffynhonnell: Ampere Analysis, Defnyddwyr, Ch3 2015-2019, Oed:18-64, ymatebwyr ar-lein, y DU. Nodyn: Ni chafodd My5 ei ddewis gan ymatebwyr.

Sail: 2015 a 2016: 1000 o ymatebwyr, 2017-2019: 2000 o ymatebwyr

Dramâu yw dros hanner y cynnwys sydd ar gael ac sy'n cael ei wyllo ar wasanaethau SVoD

Nid yw llyfrgelloedd SVoD mor eang â rhai'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus o ran eu cymysgedd o genres. Roedd drama yn cyfrif am dros hanner cynnwys llyfrgelloedd Netflix, Amazon Prime Video a Now TV yn 2018, ynghyd â chyfran sylweddol o gomedi a chynnwys i blant. Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf yn gwyllo rhaglenni drama ar y llwyfannau hyn, er bod hyn wedi gostwng o 58% yn Ch1 2017 i 54% yn Ch1 2019.⁸⁵ Roedd cynnwys heb sgriptio yn cyfrif am ddim ond 18% o

⁸² Ofcom/BARB/BARB TV Player/TouchPoints/comScore. Cyfartaledd yw'r ffigurau hyn ar gyfer holl oedolion y DU, gan gynnwys y rhai sy'n tanysgrifio i SVoD a'r rhai nad ydynt yn tanysgrifio i SVoD.

⁸³ Arolwg sefydlu BARB Ch3 2019

⁸⁴ Kids Insight H1 2019. [Gweler yr adroddiad data rhyngweithiol.](#)


⁸⁵ Traciwr SVoD GfK. Yn seiliedig ar banel yn gwyllo Netflix, Amazon Prime Video a Now TV.

deitlau catalog y prif llwyfannau SVoD ym mis Awst 2015, er bod hyn wedi codi i 27% ym mis Awst 2019⁸⁶ wrth lansio rhaglenni fel *The Fix* ar Netflix a *Back of the Net* ar Amazon Prime Video.

Gallai'r cymysgedd o genres ar SVoD, ac o ganlyniad, ei gyfraniad at yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, newid yn y dyfodol. Nid yw Netflix yn darparu unrhyw gynnwys chwaraeon byw ac mae wedi datgan yn y gorffennol nad oes ganddo gynlluniau i fuddsoddi mewn chwaraeon byw.⁸⁷ Mae'n darparu rhaglenni dogfen chwaraeon yn lle hynny. Fodd bynnag, mae Amazon wedi mentro i fyd chwaraeon byw, yn enwedig tennis (Amazon sydd bellach â'r hawliau ecsgliwsif yn y DU ar gyfer yr ATP Tour, WTA Tour a'r US Open), yn ogystal â rhoi sylw i rai gemau pêl-droed yr Uwchgynghrair yn fwy diweddar.

Er bod Netflix ac Amazon Prime Video yn cynnig rhai rhaglenni dogfen a materion cyfoes, nid ydynt yn cynnig newyddion dyddiol, elfen graidd o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mewn cyferbyniad â hynny, mae mwy na thraean o'r cynnwys sy'n cael ei ddarlledu ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rhaglenni yn newyddion a materion cyfoes. Mae'r ganran yn cynyddu i bron i 60% wrth gynnwys yr holl sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel BBC News Channel a BBC Parliament.

Ffigur 26: Oriau o gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau SVoD dethol, yn ôl genre: 2018



Ffynhonnell: Darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus: Ofcom/darlledwyr. SVoD: Ampere Analysis. Nodyn: Mae SVoD dethol yn cynnwys oriau cynnwys Netflix, Amazon Prime Video a Now TV yn y DU ym mis Rhagfyr 2018. Mae ffigurau'r pum prif ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys rhaglenni gwreiddiol o'r DU a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf yn 2018 ar y pum prif sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar draws y genres a nodir; mae'r categori 'arall' yn cynnwys y celfyddydau a cherddoriaeth glasurol, crefydd a moeseg, chwaraeon, ffilmiau nodwedd ac addysg. Mae'r holl sianeli sy'n eiddo i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys sianeli portffolio rhwydwaith y BBC yn ogystal â'r pum prif sianel, ond nid yr holl gynnwys heb fod yn gynnwys rhwydwaith. Mae nifer oriau'r ffilmiau nodwedd sydd ar gael yn cael eu cynnwys yn SVoD; fodd bynnag, nid yw'r ffigurau ffilmiau nodwedd wedi cael eu rhannu yn ôl categori genre penodol ar gyfer sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac maent yn dod o dan y categori 'arall' yn y dadansoddiad hwn (yn cyfrif am 1% o'r categori 'arall' o sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus).

⁸⁶ Ampere Analysis, Awst 2015 a 2019, Canran y gwahanol sioeau teledu a ffilm. Llwyfannau: Netflix, Amazon Prime Video a Now TV.

⁸⁷ Maria Ferras, pennaeth datblygu busnes Netflix yn EMEA, yng nghonfensiwn darlledu IBC 2018 yn Amsterdam.

Mae cynnwys y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cyfrif am swm sylweddol o oriau gwreiddiol o'r DU sydd ar gael ar gael ar wasanaethau SVoD

Mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys sydd ar gael ar Netflix ac Amazon Prime Video yn cael ei gynhyrchu yn yr Unol Daleithiau. Mae gwaith dadansoddi yn dangos bod tua dwywaith a hanner yn fwy o deitlau'r Unol Daleithiau â theitlau'r DU ar gael ar Now TV, ychydig o dan bedair gwaith cymaint ar Netflix a phum gwaith a hanner cymaint ar Amazon Prime Video. Fodd bynnag, mae nifer y teitlau a gynhyrchir yn y DU wedi cynyddu: ym mis Awst 2019, roedd gan Amazon Prime Video 1,076 o deitlau gwahanol wedi'u cynhyrchu yn y DU (i fyny o 443 ym mis Awst 2015), roedd gan Netflix 786 (419 ym mis Awst 2015) a Now TV 727 (371 ym mis Awst 2015).⁸⁸ Hefyd, mae rhai o brif deitlau bydeang y llwyfannau wedi'u cynhyrchu yn y DU, fel *The Crown* ar Netflix a *The Grand Tour* ar Amazon.

Mae llyfrgelloedd cynnwys y prif lwyfannau SVoD wedi tyfu drwy drwyddedu cynnwys o'r archif gan gynhyrchwyr a darlledwyr eraill. Mae hyn wedi creu rhywfaint o refeniw i gynhyrchwyr a darlledwyr yn y DU, ac mae hefyd yn arwain at ail gyfle i gynulleidfaoedd fwynhau a chael gwerth o gynnwys a gafodd ei ddangos yn wreiddiol ar sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn wir, efallai fod yr ail gyfle hwn yn apelio'n arbennig at rai gwylwyr. Mae gwylwyr iau (16-34 oed) yn fwy tebygol o wyllo cynnwys y BBC ar wasanaethau SVoD yn hytrach na drwy BBC iPlayer (4.7 munud y dydd ar SVoD o gymharu â 2.5 munud y dydd ar iPlayer ar gyfer unigolion 16-34 oed).⁸⁹ Fodd bynnag, efallai na fydd y gwylwyr hyn yn cysylltu'r cynnwys hwn â'r sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus pan fydd y rhaglenni'n cael eu gwyllo yn rhywle arall, a allai effeithio'n negyddol ar i ba raddau mae pobl yn gweld gwerth yn y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Mae setiau bocs wedi'u harchifo ar SVoD hefyd yn gallu denu gwylwyr i gyfres newydd ar sianel darlledu gwasanaeth cyhoeddus drwy ganiatáu i wylwyr ddal i fyny â hen benodau cyn i'r gyfres ddiweddaraf gael ei lansio. Er enghraifft, roedd pedair cyfres gyntaf *Line of Duty* ar gael ar Netflix (yn ogystal â BBC iPlayer) cyn i gyfres pump gael ei darlledu ar BBC One, a gwylodd 9.1 miliwn o wylwyr y bennod olaf, ar gyfartaledd.⁹⁰

Mae nifer yr oriau o gynnwys BBC, ITV a Channel 4⁹¹ sydd wedi'i drwyddedu ar gyfer y tri phrif wasanaeth SVoD yn y DU wedi cynyddu yn ystod y cyfnod i gyfanswm o 1,276 ar gyfer Netflix; 641 ar gyfer Amazon Prime Video; a 352 ar gyfer y Now TV ym mis Awst 2019.⁹² Yn gyffredinol, roedd cynnwys y BBC, ITV a Channel 4 yn 3% o'u catalogau yn 2019⁹³ ac yn 8% o lefelau gwyllo'r tri gwasanaeth SVoD gyda'i gilydd yn Ch1 2019. Mae'r gyfran hon o'r lefelau gwyllo wedi aros yn weddol sefydlog dros y tair blynedd diwethaf, er bod nifer gynyddol o deitlau'r BBC, ITV a Channel 4 ar gael.⁹⁴

1.2 ⁸⁸ Ampere Analysis, ffilmiau a thymhorau teledu. [Gweler yr adroddiad ar ddata rhyngweithiol.](#)

⁸⁹ Ofcom, 2018. [Ail Adroddiad Blyneddol Ofcom ar y BBC, Atodiad 2: adroddiad ar berfformiad y BBC](#), tudalen 6.

⁹⁰ BBC News, 2019. [Line of Duty finale draws biggest audience of 2019 so far.](#)


⁹¹ Nid yw oriau Channel 5 yn cael eu torri i lawr ar wahân i gyfanswm nifer oriau Viacom, felly nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

⁹² Ampere Analysis.

⁹³ Ampere Analysis, Awst 2019.

⁹⁴ Traciwr SVoD GfK.

Ffigur 27: Nifer yr oriau o gynnwys gan gwmnïau cynhyrchu BBC, ITV a Channel 4 sydd ar gael mewn llyfrgelloedd llwyfannau SVoD dethol yn y DU ym mis Awst bob blwyddyn



Ffynhonnell: Yn achos Ampere Analysis, lle mae cynnwys yn cael ei gyd-gynhyrchu, dim ond yn ôl y prif gwmni cynhyrchu y bydd y cynnwys yn cael ei gydnabod. Nodyn: Caiff oriau Channel 5 eu cydnabod o dan Viacom, felly nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

Nid yw partneriaethau wedi'u cyfyngu i'r rheini sydd rhwng y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus â Netflix ac Amazon. Mae'r BBC ac ITV wedi dod at ei gilydd i lansio BritBox fel menter SVoD masnachol. Hefyd, mae Channel 4 a Sky wedi cyhoeddi cytundeb rhannu cynnwys lle bydd rhai o gyfresi drama Channel 4 yn cael eu rhyddhau ar Sky a Now TV ar yr un pryd, tra bydd uchafbwyntiau Formula One a darllediad byw o Grand Prix Prydain yn cael eu dangos ar Channel 4 yn gyfnewid am hynny.

Mae gwasanaethau SVoD yn buddsoddi fwyfwy mewn cynnwys newydd a gwreiddiol yn y DU

Mae'r prif lwyfannau SVoD wedi bod yn datblygu eu cynigion o ran cynnwys gwreiddiol, a oedd yn cyfrif am 39% o lefelau gwyllo Netflix, Amazon Prime Video a Now TV yn Ch1 2019. Yn 2019 dywedir y bydd Netflix yn gwario £7.6bn ac Amazon Prime Video yn gwario £4.6bn ar gynnwys yn fyd-eang.⁹⁵ Mae'r strategaeth hon hefyd wedi arwain at gynnydd yn y buddsoddiad mewn cynhyrchu yn y DU. Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd prif weithredwr Netflix, Reed Hastings, fod Netflix wedi gwario £400m ar gynnwys wedi'i wneud yn y DU hyd yn hyn y flwyddyn honno,⁹⁶ sy'n gynnydd sylweddol dros y [£62.8m a gafodd ei wario yn 2015](#). Mae Amazon hefyd wedi buddsoddi mewn teitlau a gynhyrchir yn y DU, gan gynnwys *The Grand Tour* a rhaglenni comedi arbennig gan ddigrifwyr llwyfan yn y DU, Ed Gamble a Paul Chowdhry.


Mae Netflix ac Amazon hefyd yn cydweithio â darlledwyr yn y DU ar gyd-gynrychiadau fel *Good Omens* (Amazon a BBC Studios) a *Queer Eye* (Netflix ac ITV Studios). Yn gyffredinol, roedd y prif lwyfannau SVoD wedi darparu 213 awr o gynnwys gwreiddiol o'r DU yn 2018. Mae hyn yn ffigur bychan iawn o'i gymharu â'r 32,188 awr a gynhyrchwyd gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y DU. Ond er hynny mae cyllidebau cynnwys mawr llwyfannau SVoD yn cyflwyno heriau i ddarlledwyr

⁹⁵ Ampere Analysis.

⁹⁶ Datganiad gan Reed Hastings, prif weithredwr Netflix [yng nghynhadledd y Gymdeithas Deledu Frenhinol, 20 Medi 2019](#).

y DU, er enghraifft, drwy gystadlu mewn dramâu o safon-uchel, ac am dalentau ar y Sgrîn ac oddi ar y Sgrîn.

Ffigur 28: Cyfran y lefelau gwyllo ar SVoD, yn ôl math o gwmni sy'n dal hawliau cynnwys: Ionawr-Mawrth 2017, 2018 a 2019



Ffynhonnell Traciwr SVoD GfK Ch1 2017, 2018 a 2019. Nodyn: Mae SVoD yn cynnwys y nifer sy'n defnyddio Netflix, Amazon Prime Video a Now TV, yn ôl panel GfK yn unig. Yn seiliedig ar ddeiliad hawliau yn y DU, mae cynnwys gwreiddiol yn cynnwys Netflix, Amazon Prime Video a Sky ac mae darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn berthnasol i BBC Worldwide a Studios, ITV, Channel 4. Mae'n cynnwys ffilmiau a chyfresi teledu/ar gyfer y we. Nodyn: Caiff oriau Channel 5 eu cydnabod o dan Viacom, felly nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn.

Yn gyffredinol, mae cynulleidfaoedd y DU i weld yn elwa o fuddsoddiad SVoD mewn rhaglenni - mae data arolwg wedi canfod bod 41% o oedolion sy'n gwyllo unrhyw fath o deledu a fideos ar-lein yn credu bod twf gwasanaethau SVoD wedi cyfrannu at gynnydd yn ansawdd cyffredinol rhaglenni teledu.⁹⁷ Fodd bynnag, mae'r buddsoddiad hwn yn canolbwytio'n bennaf ar ddrama, ac oherwydd bod angen i'r gwasanaethau SVoD ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd byd-eang, mae perygl na fydd rhaglenni a gynhyrchir yn y DU neu straeon sy'n seiliedig yn y DU efallai'n cynrychioli neu'n portreadu'r gwahanol bobl a'r llefydd mewn ffordd sy'n wirioneddol 'lloel'.

Gwasanaethau ar-lein: llwyfannau rhannu fideos (VSPs) a newyddion ar-lein

Mae llwyfannau rhannu fideo (VSPs) yn wasanaethau sy'n cynnig rhaglenni a/neu cynnwys a gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr lle nad oes gan y darparwr gwasanaeth gyfrifoldeb yn ei gylch fel YouTube, Facebook a TikTok. Dechreuodd llawer o'r gwasanaethau hyn fel llefydd lle gallai defnyddwyr lwytho cynnwys fideo ffurf-fer i fyny neu rannu lluniau a negeseuon â ffrindiau a theulu. Ond mae'r rhain nawr wedi esblygu ac yn cynnwys rhaglenni a gynhyrchwyd yn broffesiynol a

⁹⁷ TouchPoints 2019, GB, Datganiad: *The growth of TV subscription services has contributed to an increase in the overall quality of television.* Sail: Oedolion sy'n gwyllo unrhyw deledu neu fideo ac unrhyw deledu neu fideo ar-lein.

chynnwys ffurf hir⁹⁸ Mae'r gwasanaethau hyn yn dal i fod am ddim fel arfer ac maent yn cynnig nifer fawr o gynnwys ac amrywiaeth o ddewis: mae tua 500 awr o fideo y funud yn cael ei lwytho i fyny i YouTube.

Nid oes prinder cynnwys ar-lein a allai gyfrannu at yr amcanion gwasanaeth cyhoeddus, ond mae risgiau amlwg ynghlwm wrth gynnwys niweidiol. O dan y Gyfarwydddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clywedol newydd, bydd rhaid i wasanaethau VSP roi mesurau priodol ar waith i warchod defnyddwyr rhag rhai mathau o gynnwys niweidiol ar eu gwasanaethau. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu rhoi'r Gyfarwydddeb ar waith mewn deddfwriaeth yn y DU yr hydref hwn. Felly, bydd Ofcom yn cael pwerau newydd i reoleiddio'r llwyfannau rhannu fideos sydd wedi'u sefydlu yn y DU. Trefn dros dro fydd hyn, cyn i'r Bil Niwed Ar-lein symud ymlaen. Ar 12 Chwefror 2020, [cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd](#) ei bod yn bwriadu penodi Ofcom yn rheoleiddiwr ar gyfer niwed ar-lein yn dilyn ymgynghori ar y Papur Gwyn ar Niwed Ar-lein.

Mae'r prif ganfyddiadau ynghylch gwasanaethau ar-lein yn cyfrannu at yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus:

- Mae gwasanaethau rhannu fideos fel YouTube yn cynnig mwy o oriau o gynnwys na'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a'r darparwyr cyfryngau eraill rydym wedi edrych arnynt, gyda'i gilydd, ac maent yn cynnwys genres cyffredinol fel newyddion a chomedi, yn ogystal â nifer fawr o wahanol ddiddordebau arbenigol. Fodd bynnag, mae ansawdd y cynnwys hwn yn amrywio.
- Mae YouTube yn chwarae rôl arwyddocaol ym mywydau plant a phobl ifanc o ran y cyfryngau, ac mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn defnyddio hwn a gwasanaethau ar-lein eraill fwyfwy i gyrraedd y cynulleidfaoedd iau hyn.
- Mae ffynonellau ar-lein ac apiau yn ffynhonnell newyddion gynyddol bwysig i gynulleidfaoedd y DU, ond mae llawer o bobl yn meddwl nad yw newyddion cyfryngau cymdeithasol yn ddibynadwy iawn.

Mae pobl yn y DU yn gwyllo dros hanner awr o YouTube bob dydd

Yn wahanol i SVoD, mae'r rhan fwyaf o fideos YouTube a gwasanaethau cynnwys ar-lein eraill yn cael eu gwyllo ar ddyfeisiau symudol, yn hytrach nag ar set deledu. Yn gyffredinol, nid rhaglenni teledu ffurf hir yw'r cynnwys, ond fideos cerddoriaeth, flogwyr a chlipiau byr gan gynnwys fideos chwarae triciau ac 'agor bocsys'. Ond mae cyfran helaeth a mwy a mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaethau cynnwys ar-lein hyn fwyfwy, yn arbennig oedolion ifanc.

Ar gyfartaledd, treuliodd pobl yn y DU 34 munud y dydd yn gwyllo cynnwys ar YouTube (heb gynnwys gwyllo setiau teledu). Mae hyn yn codi i 73 munud ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed.⁹⁹ Mae llawer o'r llwyfannau hyn wedi datblygu'n sylweddol yn ystod pum mlynedd yr adolygiad: Mae YouTube wedi sefydlu ei hun fel llwyfan ar gyfer cynnwys ffurf hir, yn ogystal â chynnwys ffurf-fer ac mae wedi dechrau cynhyrchu ei gynnwys gwreiddiol ei hun o dan YouTube Premium. Mae Facebook

⁹⁸ Mae'r dyletswyddau ychwanegol sydd wedi cael eu cyflwyno yn sgil Deddf yr Economi Ddigidol 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ni ystyried gwasanaethau'r cyfryngau fel gwasanaethau rhyngwryd pan fydd rhywun yn arfer rheolaeth olygyddol dros y cynnwys y mae'n ei ddarparu yn yr adolygiad hwn. Gan mai cynnwys sy'n cael ei greu gan ddefnyddwyr yw'r rhan fwyaf o'r cynnwys ar VSPs, nid ydynt yn dod o dan gwmpas y gofyniad hwn. Ond, oherwydd rôl sylweddol rhai VSPs a gwasanaethau cynnwys eraill ym mywydau cynulleidfaoedd ar y cyfryngau, rydym wedi dewis ystyried eu cyfraniad at yr amcanion gwasanaeth cyhoeddus.

⁹⁹ [Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2019](#), tudalennau 16 ac 18.


Watch a Snapchat hefyd yn cynhyrchu cynnwys gwreiddiol ac yn 2018 lansiodd Instagram Facebook IGTV, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr Instagram lwytho fideos hirach i fyny.

Fideos cerddoriaeth a 'sut mae gwneud' yw'r genres mwyaf poblogaidd o ran cynnwys

Mae gwasanaethau cynnwys ar-lein yn cynnig amrywiaeth enfawr o gynnwys yn rhad ac am ddim, ac mae rhai ohonynt yn cyd-fynd â'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae tua thraean o bobl yn dweud eu bod yn gwylio newyddion/materion cyfoes/rhaglenni dogfen ar-lein. Fel rhan o Google News Initiative yn 2018, cyflwynodd Google 'silff' Prif Newyddion a'r Newyddion Diweddaraf ar hafan YouTube er mwyn ceisio ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr YouTube gael gafael ar newyddion o safon uchel.

Mae ein hymchwil hefyd yn canfod bod niferoedd sylweddol o oedolion yn y DU yn defnyddio gwasanaethau cynnwys ar-lein a VSPs i wyllo areithiau neu ymgyrchoedd gwleidyddol (9%) ac areithiau neu ddigwyddiadau crefyddol (3%). Mae'r ffaith fod llawer iawn o gynnwys ar gael a'i bod hi'n rhwydd ei lwytho i fyny a'i rannu, yn galluogi'r gwasanaethau hyn i wasanaethu cynulleidfaoedd a diddordebau arbenigol, nad ydynt yn ymarferol ar deledu sy'n cael ei ddarlledu, gan gynnwys cymunedau lleol iawn a chynulleidfaoedd ar draws y byd ar gyfer digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon arbenigol.

Ffigur 29: Math o gynnwys sy'n cael ei wyllo ar safleoedd rhannu fideos gan oedolion 16 oed a hŷn



Ffynhonnell: Traciwr Llythrennedd Oedolion yn y Cyfryngau Ofcom 2018

IN19B. A pha fath o fideos ydych chi'n dueddol o'u gwylio ar y safleoedd neu'r apiau hyn? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod) Sail: Pobl 16 oed a hŷn sy'n gwylio cynnwys ar safleoedd rhannu fideos (1161 yn 2017, 1179 yn 2018). Mae'r saethau'n dangos newidiadau sylweddol (lefel 95%) rhwng 2017 a 2018


Mae YouTube yn chwarae rhan hollbwysig o ran sut mae plant yn defnyddio'r cyfryngau

Canfu ymchwil Ofcom fod bron i hanner plant 3-4 oed (45%) wedi defnyddio YouTube yn 2018, ac roedd y ganran yn cynyddu i 89% o blant 12-15 oed; rydym yn disgwyl y byddai'r tuedd hwn wedi

parhau yn 2019. Ymysg pob grŵp oedran, YouTube yw hoff ap fideos plant ar ddyfeisiau symudol¹⁰⁰, ac mae twf teledu clyfar wedi golygu bod plant yn gwyllo YouTube fwyfwy ar set deledu.¹⁰¹

Fideos cerddoriaeth, sêr YouTube (hynny yw, blogwyr fideo) a chwaraewyr gemau yw'r mathau mwyaf poblogaidd o fideos ymysg plant (Ffigur 30), ond mae 14% o blant 12-17 oed a 10% o blant 3-11 oed yn dweud eu bod yn hoffi gwyllo fideos addysgol. Mae ystod eang o fideos addysgol ar gael ar YouTube ar gyfer plant o bob oed. Mae rhai sianeli amlwg yn cynnwys *Cocomelon – Nursery Rhymes* a *Little Baby Bum* o'r DU, sef yr ail a'r ddeunawfed sianel sy'n denu'r nifer fwyaf o wylwyr yn fyd-eang, gyda bron i 44 biliwn a 21 biliwn yn gwyllo'r fideos ar draws y byd, yn y drefn honno. Mae'r ddwy sianel yn arbenigo mewn animeiddiadau 3D o hwiangerddi traddodiadol a'u caneuon gwreiddiol eu hunain i blant. Mewn cymhariaeth, mae ffigurau gwyllo sianel YouTube CBeebies yn 1.2 biliwn.¹⁰²

Ffigur 30: Pa fath o fideos ydych chi'n eu gwyllo ar YouTube? yn ôl oedran: Ch1 2019



Ffynhonnell: Kids Insights Ch1 2019, defnyddwyr ar-lein. Sail: 3-11 oed: 1200 12-17 oed: 956.

Mae newyddion ar-lein yn dod yn fwyfwy pwysig i gynulleidfaoedd, ond cydnabyddir nad yw mor ddibynadwy â theledu a radio

Er mai teledu yw'r llwyfan sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf ar gyfer newyddion, gyda 75% o oedolion y DU yn ei ddefnyddio, mae'r rhyngwrwyd yn dod yn ffynhonnell fwyfwy pwysig. Mae dwy ran o dair o oedolion y DU yn cael gafael ar newyddion ar-lein, sy'n golygu ei fod yn cael ei ddefnyddio'n fwy eang na radio (43%) neu bapurau newydd (38%).¹⁰³ Mae wyth o bob deg (83%) o'r rheini rhwng 16 a 24 oed yn defnyddio'r rhyngwrwyd ar gyfer newyddion, o'i gymharu â dim ond chwech o bob deg (51%) sy'n defnyddio'r teledu.¹⁰⁴

Mae brandiau newyddion sydd wedi'u sefydlu yn ffynonellau pwysig o newyddion ar-lein, gyda'r BBC, Sky, News UK, y Daily Mail, Independent and Evening Standard, y Guardian a'r Telegraph Media

¹⁰⁰ Kids Insight, Oedran: 3-17 oed, H1 2019. Y DU.

¹⁰¹ Ofcom, 2018. [Plant a Rhieni: Adroddiad ar Agweddau a Defnydd o Gyfryngau](#).

¹⁰² Sgoriau Socialblade ar 22 Tachwedd 2019.

¹⁰³ Ofcom, 2019. [Cael gafael ar newyddion yn y DU](#).

¹⁰⁴ Ofcom, 2019. [Cael gafael ar newyddion yn y DU](#).


Group ymhlith yr 20 gwefan sy'n cael y nifer uchaf yr ymwelwyr yn y DU ym mis Medi 2018.¹⁰⁵ Fodd bynnag, mae pobl yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fwyfwy hefyd. Canfu ein Harolwg ar Gael Gafael ar Newyddion yn 2019 mai Facebook oedd y drydedd ffynhonnell newyddion unigol fwyaf poblogaidd ar ôl BBC One ac ITV.¹⁰⁶

Mae straeon newyddion ar gyfryngau cymdeithasol yn cael eu cyflwyno'n aml gan beiriant argymell, ac efallai nad yw defnyddwyr yn ymwybodol o'r ffynhonnell wreiddiol a pha mor ddibynadwy ydyw. Mae ein hymchwil wedi canfod, er bod llawer o bobl yn gallu cofio ar ba safle cyfryngau cymdeithasol y gwnaethant weld yr eitem newyddion, roedd rhai yn cael trafferth cofio ffynhonnell wreiddiol y stori. Mae ein hymchwil ansoddol yn awgrymu bod hyn oherwydd bod safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn dangos newyddion o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a darparwyr eraill yn y DU, ochr yn ochr â nifer o fathau eraill o gynnwys.¹⁰⁷ Un canlyniad posibl yw bod darparwyr newyddion sydd wedi ennill eu plwyf yn ei chael hi'n anoddach cyrraedd cynulleidfaoedd, ac y gallai ymddiriedaeth gyffredinol mewn newyddion fod wedi'i herydu, yn enwedig ymysg pobl iau sy'n cael gafael ar lawer iawn o newyddion ar gyfryngau cymdeithasol. Yn 2019, dim ond 38% o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion oedd yn meddwl ei fod yn ffynhonnell newyddion ddibynadwy, o'i gymharu ag 82% o ddefnyddwyr cylchgronau, 71% o ddefnyddwyr teledu a 67% o wrandawyr radio.¹⁰⁸

Radio a sain

Mae pobl yn dal i wrando ar y radio, gyda naw o bob deg oedolyn yn y DU yn gwrandao ar radio yn fyw bob wythnos, am gyfartaledd o 20.9 awr yr wythnos,¹⁰⁹ a radio byw ar set radio yn cyfrif am 65% o'r holl amser sain ar gyfer oedolion.

Ffigur 31: Gwrandao ar sain yn wythnosol



¹⁰⁵ Ofcom, 2019. [Adroddiad Rhyngweithiol, Ein Gwlad Ar-lein.](#)

¹⁰⁶ Ofcom, 2019. [Cael gafael ar newyddion yn y DU.](#)

¹⁰⁷ Revealing Reality, 2018. [Scrolling news: The changing face of online news consumption, A report for Ofcom](#), tudalennau 38-39.

¹⁰⁸ Ofcom, 2018. [Cael gafael ar newyddion yn y DU.](#)

¹⁰⁹ RAJAR, Ch1 2019 Oriau ar gyfartaledd i bob gwrandawr, oedolion 15 oed a hyn.

Er nad ydynt yn gyfrifol am gyflwyno'r cylch gorchwyl darlledu gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf Cyfathrebiadau, mae gan radio rôl bwysig, yn cyfrannu at yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae gan y sector nifer o rwymedigaethau rheoleiddiol sy'n gosod gofynion gwerth cyhoeddus ar wasanaethau radio trwyddedig, ac mae gwasanaethau ffrydio a phodlediadau ar-lein hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cynnwys ar gyfer pob genre. Yn debyg i deledu, rhaid i'r holl wasanaethau radio a ddarlledir gydymffurfio â safonau rheoleiddio cyffredinol, sydd wedi'u nodi yn y Cod Darlledu, ond nid yw gwasanaethau ffrydio cerddoriaeth a phodlediadau yn amodol i reoliadau safonau golygyddol.¹¹⁰

Y prif ganfyddiadau ynghylch sut mae radio a sain yn cyfrannu at yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus:

- Mae'r sector radio a sain yn cyfrannu amrywiaeth eang o gynnwys sy'n cefnogi'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn enwedig newyddion a materion cyfoes, ac yn adlewyrchu diwylliant y DU drwy ddarpariaeth gomedi amrywiol.
- Er gwaethaf y cynnydd mewn cynnwys ar-lein a gwasanaethau ffrydio, mae naw o bob deg ohonom yn dal i wrando ar y radio bob wythnos. Mae pobl ifanc yn treulio llawer mwy o amser yn gwrando ar wasanaethau ffrydio cerddoriaeth ar y radio, ond mae gwasanaethau radio yn ehangu'r hyn sydd ar gael iddynt ar-lein.
- Mae gan radio cymunedol a radio gwledydd/lleol y BBC gyfraniad pwysig at ddarpariaeth newyddion yn y DU, ac mae'n apelio at gymunedau amrywiol. Rydym yn disgwyl i'r sector hwn barhau i dyfu.

Mae pobl iau yn treulio mwy o amser yn gwrando ar wasanaethau ffrydio ar-lein na radio byw

Yn ystod cyfnod ein hadolygiad, gwelwyd newidiadau sylweddol yn arferion gwrando cynulleidfaoedd. Roedd hyn yn bennaf oherwydd twf radio digidol (sydd bellach yn cyfrif am dros hanner yr holl wrando) ond hefyd oherwydd bod gwasanaethau sain ar-lein eraill ar gael ac yn cael eu defnyddio fwyfwy. Fel gyda theledu, mae mwy o bobl iau yn defnyddio gwasanaethau sain ar-lein, gyda radio byw yn cyfrif am ddim ond 26% o'r amser gwrando ar sain ymhlith unigolion 15-24 oed yn 2019. Gwasanaethau ffrydio ar-lein yw 45% o'r sain y mae'r grŵp oedran hwn yn gwrando arno.

Fel rheol mae gwasanaethau ffrydio ar-lein yn cynnig rhywfaint o gynnwys sy'n cyfrannu at yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, fel newyddion a dramâu yn y DU. Mae 36% o oedolion yn dweud bod gwasanaethau cerddoriaeth ar-lein yn eu helpu i ddarganfod cerddoriaeth neu artistiaid newydd (o gymharu â 49% sy'n gwrando ar y radio). Gall y gwasanaethau hyn hefyd gynnig mynediad at bodlediadau ar amrywiaeth eang o gynnwys, gan gynnwys materion ffeithiol a materion cyfoes.

Spotify yw'r gwasanaeth ffrydio ar-lein mwyaf poblogaidd yn y DU gyda 20.2 miliwn o ddefnyddwyr yn 2019 (i fyny o 16.2 miliwn yn 2017)¹¹¹. Canfu ein hymchwili mai dyma'r trydydd gwasanaeth mwyaf

¹¹⁰ Mae'r Cod Darlledu a'r wybodaeth am reolau safonau cysylltiedig i'w gweld ar [wefan Ofcom](#).

¹¹¹ Ffynhonnell: Comscore MMX Multi-Platform, Oed: 18 a hŷn, Medi 2017-2019, y DU. Gweler [yr adroddiad ar ddata rhyngweithiol interactive data report](#).

poblogaidd ar gyfer gwrandio ar bodlediadau (y tu ôl i YouTube a radio BBC iPlayer).¹¹² Mae gwasanaethau ffrydio radio ac ar-lein hefyd yn cyfrannu at ddiwydiannau creadigol ehangach y DU drwy eu taliadau breindal i ddeiliaid hawliau cerddoriaeth.¹¹³

Er bod ei gyfran o'r farchnad radio wedi bod yn dirywio, mae tri chwarter y cynulleidfaoedd yn fodlon â gwasanaethau radio'r BBC, ac mae'r BBC yn datblygu BBC Sounds i adennill cynulleidfaoedd ar-lein

Mae gwasanaethau BBC Radio yn amodol ar amrywiaeth o ofynion gwasanaeth a chwotâu penodol, a bwriad y rhain yw sicrhau bod cenhadaeth a dibenion cyhoeddus y BBC yn cael eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys rhwymedigaethau o ran allbwn newyddion ar draws gorsafoedd radio'r BBC i gyd yn y DU, y gofyn i ddarlledu rhaglenni dogfen a rhaglenni crefyddol ar BBC Radio 4, a'r gofyn i BBC Radio 1 a 2 chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na gorsafoedd cymharol.

Fel enghraifft o rôl y BBC yn darganfod ac yn hyrwyddo cerddoriaeth newydd yn y DU, mae ei fenter '[BBC Music Introducing](#)' yn galluogi artistiaid heb gytundeb i lwytho eu cerddoriaeth i fyny yn y gobaith y bydd yn cael ei darlledu ar orsafoedd radio lleol y BBC, ac o bosibl ar wasanaethau cerddoriaeth eraill y BBC. Mae'n ofynnol i orsafoedd lleol a gwledydd y BBC ddarparu newyddion, chwaraeon, gwybodaeth a chynnwys arall sy'n berthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, gan gynnwys rhaglenni cymunedol sy'n cael eu creu yn lleol, sy'n cael eu creu y tu allan i Lundain y rhan fwyaf o'r amser.

Fodd bynnag, mae'r BBC wedi gweld ei gyfran o wrando'n gostwng dros y cyfnod, o 54.6% yn Ch1 2014 i 51.9% yn Ch1 2018, ac i lai na 50% am y tro cyntaf yn Ch2 2019. Mae hyn yn rhannol oherwydd cryfder y sector masnachol cenedlaethol. Er bod cyrhaeddiad y gorsafoedd hyn wedi bod yn cynyddu ar draws pob grŵp oedran, mae gorsafoedd y BBC wedi bod yn colli gwrandawyr, yn enwedig ymhlith unigolion 15-24 oed. Collodd y BBC 16% o'i gyrhaeddiad i wrandawyr yn y grŵp oedran hwn rhwng Ch1 2014 a Ch1 2018. Er gwaethaf y gostyngiad hwn yn nifer y gwrandawyr, mae bodlonrwydd y gynulleidfa â gwasanaethau radio'r BBC yn dal yn uchel, yn uwch na pherfformiad teledu'r BBC.¹¹⁴

Oherwydd bod llai o bobl yn gwrandio ar radio yn fyw, mae'r BBC wedi cymryd camau i ennyn diddordeb cynulleidfaoedd, yn arbennig cynulleidfaoedd iau, drwy ei wasanaethau a'i gynnwys sain ar-lein. Yn seiliedig ar ei gynnyrch radio, mae'r BBC yn cynhyrchu nifer o bodlediadau sydd ar gael ar bob un o'r prif lwyfannau podlediadau. Mae podlediadau rheolaidd gan y BBC fel *Brexitcast*, *Desert Island Discs*, *Friday Night Comedy*, *Woman's Hour* a *Football Daily* yn ymddangos yn y rhestr o 50 o bodlediadau mwyaf poblogaidd yn y DU ar Spotify ac Apple Podcasts fel rheol. Mae'r BBC yn comisiynu mwy a mwy o gynnwys sain i'w ddosbarthu'n ecsgliwsif ar ei lwyfan newydd, BBC Sounds.

¹¹² [Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2019](#), tudalen 109.

¹¹³ Er enghraifft, yn 2018 casglodd PRS, sy'n casglu ffioedd hawliau ar ran awduron caneuon, cyfansoddwyr a chyhoeddwyr cerddoriaeth, [£128m o incwm gan ddarlledwyr teledu a radio a £146m gan wasanaethau digidol](#), tra roedd PPL, sy'n casglu hawliau ar gyfer perfformwyr a deiliaid hawliau recordio, wedi [casglu £84 miliwn gan lwyfannau teledu a darlledu trwyddedig](#).

¹¹⁴ Ofcom, 2019. [Traciwr Perfformiad y BBC](#). Yn 2018/19 roedd 73% o wrandawyr wedi rhoi sgôr uchel i'w bodlonrwydd â radio'r BBC o'i gymharu â 68% o wylwyr teledu'r BBC a oedd yn fodlon iawn â'r gwasanaeth.

Mae gorsafoedd masnachol lleol a chenedlaethol yn darparu newyddion rheolaidd i amrywiaeth o gynulleidfaoedd drwy gydol y dydd, yn ogystal â gwasanaethau llafar arbenigol

Mae gan bob gorsaf radio fasnachol lleol a chenedlaethol drwydded gan Ofcom sy'n aml yn gofyn iddynt ddarparu newyddion a chynnwys penodol arall.¹¹⁵ Canfu [adroddiad yn 2018](#) gan y Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Radio Masnachol fod gorsaf radio fasnachol nodweddiadol yn darparu 23 o fwletinau newyddion, 28 o ragolygon y tywydd ac 20 o ddiweddariadau teithio bob dydd. Mae amrywiaeth o orsafoedd masnachol yn darparu cynnwys sy'n cyd-fynd â'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys rhaglenni plant (ee Fun Kids), newyddion treigl (ee LBC News), chwaraeon (ee talkSPORT), rhaglenni crefyddol (ee Premier Christian Radio), ac sy'n gwasanaethu cymunedau amrywiol y DU (ee Sunrise Radio).

Gan fod radio masnachol cenedlaethol ar gael ar lwyfannau digidol, mae ei gyrhaeddiad ar draws pob grŵp oedran wedi cynyddu ers 2014, yn arbennig ymhlith unigolion 15-24 oed, felly mae wedi bod yn gallu darparu newyddion i gynulleidfaoedd mawr. Mewn cyferbyniad, mae nifer gwrandawyr radio masnachol lleol wedi gostwng dros y blynyddoedd. Yn ddiweddar rydym wedi newid ein dull rheoleiddio i sicrhau bod gorsafoedd yn parhau i ddarparu newyddion a chynnwys arall sy'n bwysig i wrandawyr, gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd o ran sut a ble maent yn creu'r cynnwys hwn.¹¹⁶

¹¹⁵ Yn gyffredinol, nid oes angen i orsafoedd digidol ddarparu newyddion o dan eu trwydded Ofcom. Fodd bynnag, os yw gorsaf ddigidol yn cyd-ddarlledu â gwasanaeth analog, rhaid iddi gynnig newyddion, o dan delerau ei thrwydded analog.

¹¹⁶ Ofcom, 2018. [Lleolrwydd ar radio masnachol](#).

Gwaith ymchwil pellach: amrywiaeth a chyfle cyfartal yn y diwydiant radio

Ym mis Gorffennaf 2019, fe wnaethom gyhoeddi ein hail adroddiad ar [amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes radio](#), sy'n archwilio i ba raddau y mae darlledwyr radio'r DU yn hyrwyddo cyfle cyfartal, amrywiaeth a chynhwysiant.

Yn yr adroddiad hwn, roeddem yn canolbwyntio ar y tri phrif ddarlledwr radio: y BBC, Bauer a Global. Rydym wedi canfod cynnydd gwirioneddol, ond mae llawer eto i'w wneud. Yn ein hadroddiad cyntaf, bu i ni ganfod diffyg gwybodaeth, a oedd yn destun pryder, ar draws ystod o nodweddion. Mae hyn wedi gwella, ond mae bylchau mawr o hyd.

Pan fo data ar gael, roeddem wedi canfod bod cynrychiolaeth nifer o grwpiau'n cymryd amser i wella, fel y disgwylir i raddau, wrth i weithluoedd esblygu'n raddol. Mae menywod yn dal i fod yn llai tebygol o ddal swyddi uwch, ac mae pobl anabl a rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn dal i gael eu tangynrychioli. Mae'r strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant sydd wedi'u rhoi ar waith gan lawer o uwch arweinwyr yn galonogol, yn enwedig pan fydd profiad gwaith a chynlluniau hyfforddi, rhwydweithiau gweithwyr ac arferion recriwtio teg yn helpu i ddarparu mynediad a chyfleoedd i'r rheini a allai fod yn cael ymuno â'r diwydiant.

Yn 2020, byddwn yn casglu ac yn cyhoeddi mwy o ddata a gwaith dadansoddi ar amrywiaeth gweithlu darlledwyr y DU, ac yn parhau i ymgysylltu â darlledwyr i annog rhannu arferion gorau. Bydd adroddiad nesaf Ofcom ar amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes radio yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad cyfatebol ar gyfer teledu yn ystod hydref 2020.

Mae radio cymunedol a'r Gronfa Cynnwys Sain yn cefnogi'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Mae gorsafoedd radio cymunedol yn wasanaethau lleol, dim-er-elw sy'n cael eu darparu'n bennaf i sicrhau mantais gymdeithasol i ranbarthau neu gymunedau penodol. Mae trwydded pob gorsaf yn nodi o leiaf bedwar amcan ar gyfer mantais gymdeithasol y mae'n rhaid iddi eu cefnogi, gan gynnwys cyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, hwyluso trafodaeth a mynegi barn, darparu addysg a hyfforddiant i aelodau'r gymuned, a chynyddu cydlyniant cymdeithasol. O'r herwydd, mae gorsafoedd cymunedol yn darparu ar gyfer ystod eang o grwpiau cynulleidfaoedd ledled y DU, gan gynnwys plant, gwahanol grefyddau a grwpiau cymunedol lleol amrywiol, ac mae bron yr holl wasanaethau hyn yn cael eu cynhyrchu y tu allan i Lundain. Mae tua 6% o oedolion yn gwrando ar orsafoedd radio cymunedol, ac mae tua un rhan o bump o'r rhain yn gwneud hynny bob wythnos¹¹⁷.

Cynyddodd nifer y gorsafoedd radio cymunedol yn y DU o 214 ym mis Mai 2014 i 281 ym mis Mawrth 2019. Rydym yn disgwyl i'r sector dyfu ymhellach, wrth i wasanaethau DAB ar raddfa fach gael eu lansio, sy'n caniatáu i orsafoedd lleol allu trawsyrru'n llwyddiannus ar radio digidol yn fforddiadwy, ac wrth i drwyddedau Rhaglenni Sain Digidol Cymunedol newydd gael eu cyhoeddi, sydd i fod i ddigwydd o 2020 ymlaen.

Ers dechrau 2019, mae cronfa y gellir cystadlu amdani wedi bod ar gael i gefnogi'r broses o gynhyrchu cynnwys sain sy'n cefnogi'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Bydd y [Gronfa](#)

¹¹⁷ TouchPoints 2019.

[Cynnwys Sain](#) yn darparu hyd at £3m o gyllid ar gyfer y sector radio masnachol a chymunedol i gynhyrchu a darlledu “rhaglenni radio gwasanaeth cyhoeddus nodweddiadol” sy’n canolbwyntio ar genres fel rhaglenni dogfen, comedi a drama, a allai fod yn fwy heriol i’w cyllido ar sail fasnachol. Erbyn diwedd 2019, roedd y gronfa wedi rhoi grantiau o £655,000 i 25 o brosiectau i gefnogi cynnwys yn y sectorau radio masnachol a chymunedol.

Mae podlediadau yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer cynnwys sy’n cyd-fynd ag amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac ar gyfer talentau newydd

Mae gwasanaethau sain ar-lein yn cynnig amrywiaeth eang o gynnwys llafar ar ffurf podlediadau, ac mae dros 700,000 o deitlau ar gael erbyn hyn. Mae podlediadau wedi dod yn fwyfwy poblogaidd dros y pum mlynedd diwethaf: rhwng Ch1 2014 a Ch1 2019 mae cyfran yr oedolion sy’n gwrandao ar bodlediadau bob wythnos wedi cynyddu o 7.0% i 12.6%. Yn yr un modd â radio, mae modd gwrandao ar bodlediadau am ddim fel rheol, ac mae rhai yn cynnwys hysbysebion a/neu noddwyr. Mae ffynonellau refeniw eraill ar gyfer podlediadau yn cynnwys rhoddion, nwyddau a digwyddiadau byw, ac mae rhai podlediadau y tu ôl i waliau talu.

Mae podlediadau a gynhyrchir yn y DU yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau, rhai’n cyfrannu at yr amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy’n gysylltiedig â darparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes, gwyddoniaeth, crefydd, moeseg a chomedi. Mae’r rhwystrau cymharol isel hyn o ran cael mynediad i greu a dosbarthu podlediad yn golygu bod y sector podlediadau yn amrywiol; mae cynhyrchwyr podlediadau yn cynnwys darlledwyr radio a theledu, cwmnïau cynhyrchu radio annibynnol a chyfryngau eraill sydd wedi’u sefydlu, gan gynnwys papurau newydd a chylchgronau. Mae cyhoeddwyr eraill, gan gynnwys elusennau a sector y celfyddydau a diwylliant yn cynhyrchu podlediadau i helpu i hyrwyddo amcanion eu sefydliadau weithiau hefyd. Mae podlediadau comedi yn un o’r genres mwyaf poblogaidd ymysg gwrandawyr wythnosol; dywed 54% eu bod yn gwrandao arnynt, ac mae 49% o wrandawyr podlediadau wythnosol yn gwrandao ar bodlediadau newyddion a materion cyfoes.¹¹⁸

¹¹⁸ Populus, Mawrth 2019. Cyhoeddwyd yn [Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2019](#).

6. Dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, a'r camau nesaf

Mae ein hadolygiad pum mlynedd yn tynnu sylw at nifer o gryfderau parhaus y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus, ar gyfer cynulleidfaoedd ac ar gyfer economi greadigol y DU. Roedd y sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi darparu amrywiaeth eang o gynnwys o ansawdd uchel, gan gynnwys nifer o raglenni gwreiddiol o'r DU mewn amrywiaeth o genres, a oedd yn cael eu gwerthfawrogi a'u gwyllo'n helaeth gan wylwyr ar y cyfan. Roedd gwasanaethau cyfryngau eraill, gan gynnwys teledu masnachol, sain ac ar-lein yn chwarae rhan fwyfwy pwysig yn y gwaith o gefnogi'r amcanion darlledu gwasanaeth cyhoeddus ac economi greadigol y DU hefyd.

Fodd bynnag, mae'r heriau o ran pa mor effeithiol yw'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar hyn o bryd yr un mor amlwg. Mae'r niferoedd sy'n gwyllo darllediadau byw yn lleihau, gan fod gwylwyr yn symud fwyfwy at wasanaethau ar-alw ac ar-lein byd-eang. Mae'r cysylltiadau yr oedd gan rai cynulleidfaoedd yn draddodiadol â'r sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn arbennig pobl iau, wedi lleihau. Mae'r amser wedi dod i edrych ar ffyrdd newydd o gyflawni darlledu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn i gynulleidfaoedd ac economi ehangach y DU elwa.

Nod *Sgrîn Fach*: *Trafodaeth Fawr* yw ysgogi syniadau newydd ynghylch dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a sut gellid cryfhau'r canlyniadau cadarnhaol ar gyfer cynulleidfaoedd a'r economi greadigol am y degawd nesaf a thu hwnt. Rydym yn edrych ar *beth* ddylai'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei gyflawni yn y dyfodol, *sut* dylid cyflawni hynny a *pha* fframwaith rheoleiddio a deddfwriaethol y gallai fod ei angen. Rydym yn amlinellu ein gwaith yn fwy manwl isod.

Ein rhaglen waith ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus

Cwmpas ein gwaith

Bydd ein gwaith yn cael ei lunio o amgylch y themâu canlynol:

Beth ddylai darlledu gwasanaeth cyhoeddus ei ddarparu?

Rydym yn gofyn beth ddylai darlledu gwasanaeth cyhoeddus anelu at ei gyflawni yn y dyfodol ac rydym yn ystyried:

- barn y cynulleidfaoedd amrywiol ar draws y DU ynghylch beth sy'n werthfawr iddynt hwy'n bersonol, fel dewis eang o gynnwys; a phwysigrwydd gwahanol agweddau ar y fframwaith iddynt, gan gynnwys argaeledd cyffredinol cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus;
- mewn cymdeithas ddemocrataidd, pwysigrwydd mynediad at amrywiaeth eang o wybodaeth a safbwyntiau, yn ogystal â'r swyddogaeth y mae'r system darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn ei chwarae wrth gyfrannu at ddiwylliant y DU a bod yn rhan ohoni; a
- phwysigrwydd cynnal sector darlledu sy'n llwyddiannus yn ariannol ac yn greadigol yn y DU, sy'n hyrwyddo'r DU i'r byd ac sy'n cyfrannu at yr economi ym mhob rhan o'r DU.

Sut dylid cyflwyno darlledu gwasanaeth cyhoeddus?

O ystyried tueddiadau gwyllo ac oherwydd bod disgwyliadau cynulleidfaoedd yn newid, rydym yn ystyried:

- Pa opsiynau sydd yna o ran pwy ddylai gyflwyno darlledu gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaoedd y DU, a pha rôl y dylai'r sector cyfan ei chwarae wrth ddarparu'r cynnwys hwn;
- Sut gellid dosbarthu cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn iddo fod ar gael yn eang i gynulleidfaoedd ac er mwyn iddynt allu cael gafael arno'n rhwydd; a pha gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer mwy o gydweithio ar draws y sector; a
- Pha opsiynau sydd yna ar gyfer sut y gellid cyllido darlledu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn galluogi'r sector i ddenu buddsoddiad cynaliadwy ac i arloesi; a sut mae datblygu sgiliau, talent ac arbenigedd i helpu i ddangos creadigrwydd y DU a'i allforio i'r byd.

Opsiynau polisi a rheoleiddio

Fel rhan o'n rhaglen waith, rydym hefyd yn ystyried sut gellid cefnogi opsiynau ar gyfer dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y ffordd orau o dan y fframwaith rheoleiddio a deddfwriaethol presennol, yn ogystal â'r dulliau gweithredu amgen. Wrth i arferion gwyllo a thechnoleg barhau i newid yn gyflym, rhaid i'r DU gael dull rheoleiddiol sy'n hyblyg ac sy'n gallu ymateb i heriau'r dyfodol.

Rydym eisoes wedi cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth ar greu rheolau amlygrwydd newydd ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar-alw¹¹⁹ ac rydym yn dal i weithio gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant ar sut gellid rhoi'r argymhellion hyn ar waith yn ymarferol. Gellid addasu ein dull ar gyfer rheolau newydd o ran amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus sy'n ddigon hyblyg er mwyn eu haddasu i gynnwys unrhyw argymhellion perthnasol a allai deillio o *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr*.

Bydd trafodaethau ynghylch beth ddylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn sail ar gyfer a fydd angen unrhyw fesurau newydd eraill a sut gellid cyflawni hynny yn y dyfodol. Os bydd mesurau eraill yn cael eu nodi, byddwn yn ymgynghori ar y rhain yn ystod yr haf er mwyn darparu tystiolaeth i lunwyr polisiâu a deddfwr ac er mwyn bod yn sail i'w penderfyniadau ynghylch dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

Beth rydym yn ei wneud?

Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr – deall cynulleidfaoedd

Mae cynulleidfaoedd wrth galon ein gwaith ac rydym yn dymuno deall beth gallai'r gwahanol grwpiau ddymuno ei gael o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus a beth maent yn ei ddisgwyl. Er mwyn ategu gwaith ymchwil presennol, rydym wedi comisiynu ymchwil marchnad a gwaith dadansoddi ychwanegol, ac rydym yn awyddus i glywed yn uniongyrchol gan gynulleidfaoedd. Rydym yn dymuno edrych ar yr hyn y gallai pob cynulleidfa fod yn ei werthfawrogi, ond gan ganolbwyntio'n arbennig ar unigolion 16-24 oed. Byddwn yn edrych ar y cysylltiad rhwng gwahanol gamau bywyd oedolion ifanc, eu harferion gwyllo a'u dewisiadau. Byddwn hefyd yn archwilio'r math o gynnwys y maent yn ei

¹¹⁹ Ofcom, 2019. [Adolygiad o amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus: Argymhellion i'r Llywodraeth ar gyfer fframwaith newydd i sicrhau bod teledu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn dal i fod yn amlwg yn y byd ar-lein](#)

werthfawrogi'n arbennig, yn ogystal â gofyn iddynt beth maent yn dymuno ei gael gan ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, nawr ac yn y dyfodol.

Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr – ymgysylltu â rhanddeiliaid

Rydym eisoes yn cyfarfod darlledwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb mewn cyfres o ddigwyddiadau panel a digwyddiadau bwrdd crwn ledled y DU. Rydym yn bwriadu ymgysylltu ymhellach yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn hon, gan gynnwys cynnal cynhadledd i'r diwydiant ym mis Mai i archwilio opsiynau ar gyfer Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y dyfodol.

Rydym wedi lansio gwefan arbennig, *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr*, lle gall pawb gyfrannu at y sgwrs ynghylch dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am *Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr* ar y wefan wrth iddi ddod ar gael, gan gynnwys dolenni at bapurau ac ymchwil perthnasol gan Ofcom ac eraill. Bydd hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr weld digwyddiadau blaenorol a rhannu barn, gan gynnwys drwy glipiau fideo a'r cyfryngau cymdeithasol.

Sgrîn Fach: Trafodaeth Fawr – casglu tystiolaeth

Bydd trafodaethau o amgylch y DU, ynghyd â'n gwaith ymchwil a dadansoddi a thystiolaeth bellach wrth rhanddeiliaid, yn sail ar gyfer ymgynghori ar opsiynau ynghylch dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, y byddwn yn ei gyhoeddi yn ystod yr haf eleni. Yna, byddwn yn gofyn am safbwyntiau a thystiolaeth ynghylch yr opsiynau hyn cyn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth erbyn diwedd y flwyddyn hon.